



2019-20

Adroddiad ar Gyflawniad
Corfforaethol

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

Cynnwys

04. Adran 1:
Parhau i gyflawni ein blaenoriaethau yn 2018-19
07. Adran 2:
Darparu ar gyfer y dyfodol
08. Adran 3:
Cynnydd ar ein Cynllun Corfforaethol 2016-20
10. Adran 4:
Data Tymor Hir ar gyfer RhCT
11. Adran 5:
Ydyn ni'n cael hwyl arni?
12. Adran 6: ECONOMI
Adeiladu economi gref
17. Adran 7: POBL
Hyrwyddo annibyniaeth a bywydau cadarnhaol i bawb
23. Adran 8: LLEOEDD
Creu cymdogaethau y mae pobl yn falch o gael byw a gweithio ynddyn nhw
29. Adran 9: CYLLIDEB
Gwneud y defnydd gorau o'n cyllideb - Torri'r gôt yn ôl y brethyn
31. Adran 10: EIN GWAITH
Themâu pwysig sy'n sail i'n gwaith
 - Cydraddoldeb
RhCT deg a chyfartal a Chymru sy'n fwy cyfartal
 - Y Gymraeg
Darparu gwasanaethau yn eich dewis iaith
 - Bioamrywiaeth
Amddiffyn a gwella ein hamgylchedd
 - Cymryd Rhan
Ymgysylltu â phobl a chymunedau yn RhCT
44. Sut mae ein gwaith yn cyfrannu at y Saith Nod Llesiant cenedlaethol

Mae'r ddogfen yma ar gael mewn sawl iaith a diwyg ar gais.

Cynllunio'r Ffordd Ymlaen

Dyma Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol blynyddol y Cyngor. Mae'n nodi ein blaenoriaethau ar gyfer 2019–20 a'n cyflawniadau yn 2018–19.

Rydyn ni'n croesawu eich sylwadau ar yr adroddiad yma, ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol a'n cyflawniad y llynedd. Hoffen ni wybod hefyd sut mae ein gwaith i wella gwasanaethau wedi effeithio arnoch chi, ar eich teulu ac ar eich cymuned.

Sut mae cysylltu â ni



Drwy'r wefan

www.rctcbc.gov.uk/DweudEichDweud *neu*
www.rctcbc.gov.uk/RhoiGwybod



Drwy Twitter

@CyngorRhCT *neu* @cwmtafconsult



Drwy Facebook

www.facebook.com/RCTCouncil



Drwy Flog yr Arweinydd

www.rctcbc.gov.uk/BlogyrArweinydd



Helpwch ni i wella drwy roi'ch sylwadau, eich canmoliaeth a'ch cwynion

www.rctcbc.gov.uk/adborth



Drwy ddod yn rhan o Banel y Dinasyddion

www.rctcbc.gov.uk/YmunoarPanel




Drwy gymryd rhan yn ein hymgyngoriadau

www.rctcbc.gov.uk/CymrydRhan



Drwy'r Garfan Ymgynghori

ymgynggori@rctcbc.gov.uk



Drwy Hwb Ymgysylltu Cwm Taf

www.EinCwmTaf.Cymru



Manylion cyswllt eich Cynghorydd lleol

www.rctcbc.gov.uk/cynghorwyr



Ydych chi'n awyddus i gymryd yr awenau gan y Cyngor am redeg cyfleuster neu wasanaeth?

www.rctcbc.gov.uk/rhctgydangilydd



Neges gan Arweinydd y Cyngor - y Cyngorydd Andrew Morgan

Croeso i Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2019. Mae'r adroddiad yma'n dwyn gwybodaeth ynghyd o bob rhan o'r Cyngor ynglŷn â'n llwyddiant wrth gyflawni blaenoriaethau y llynedd a'n cynlluniau ar gyfer 2019-20. Mae'r adroddiad yma'n ein helpu i fodloni llawer o ofynion adrodd cyfreithiol y Cyngor, ond yn bwysicach fyth, mae'n rhoi modd i chi, partneriaid y Cyngor a sefydliadau perthnasol eraill i weld ein cynnydd. Rydyn ni eisiau dangos y pethau da rydyn ni'n eu gwneud, bod yn onest am ein heriau a lle mae modd i ni wella, a hefyd, dangos y penderfyniadau anodd sydd raid i ni'u gwneud ynglŷn â'n blaenoriaethau gwario.

Mae'r Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol yn cynnwys llawer o enghreifftiau o sut mae'r Cyngor yn gweithio i wella lles Economaidd, Cymdeithasol, Amgylcheddol a Diwylliannol trigolion a chymunedau Rhondda Cynon Taf. Mae hefyd yn dangos yr hyn y mae Archwilywyr Annibynnol y Cyngor wedi'i ddweud am ein gwaith a'n cynnydd.

I'r darllenwyr hynny a hoffai weld gwybodaeth fanylach, mae'r adroddiad yn cynnwys llawer o ddolenni cyswllt i adroddiadau a data manwl. Sut bynnag rydych chi'n dewis darllen yr adroddiad yma, rydw i'n gobeithio y bydd yn eich helpu chi i ddeall a herio'r hyn rydyn ni'n ei wneud ac yn eich annog chi i gymryd rhan drwy roi adborth fel bydd modd i'r Cyngor ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl.

Mae'r data a'r wybodaeth rydyn ni'n eu casglu, eu gwirio a'u cymharu, yn dangos ein bod ni'n parhau i wella ar y cyfan a bod ein trigolion yn manteisio ar nifer o wasanaethau sydd ymhlith y gorau yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys

- cymryd camau i'w gwneud hi'n bosibl defnyddio eiddo sector preifat segur unwaith eto
- helpu i atal digartrefedd
- gwella cyflwr ein ffyrdd statws C
- a chynnal lefelau uchel o lendid ar ein priffyrdd.

Rydyn ni'n falch iawn o weld cynnydd mawr yn y canlyniadau Cyfnod Allweddol 4 - eleni, cawson ni'r canlyniadau gorau erioed o'u cymharu â gweddill Cymru ar gyfer y '% o ddisgyblion a gyrhaeddodd y trothwy Lefel 2+ (5 TGAU A* - C, gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a mathemateg)' lle mae RhCT bellach wedi'i rhestru'n 10fed yng Nghymru.

Er ein bod ni'n gwybod ein bod ni'n gwneud cynnydd da mewn rhai meysydd ac yn cymharu'n dda ag eraill, rydyn ni'n gwybod bod angen i ni wneud yn well mewn meysydd eraill. Mae hyn yn cynnwys

- parhau i wella cyflwr ein ffyrdd - felly rydyn ni'n parhau i fuddsoddi yn ein ffyrdd ac atgyweirio pontydd
- ailgylchu rhagor o'n gwastraff - felly rydyn ni'n adnewyddu ein ffocws ar dargedu a helpu preswylwyr i ailgylchu rhagor neu ddefnyddio camau gorfodi yn ddewis olaf, a
- gwella presenoldeb yn yr ysgolion cynradd ac uwchradd - felly rydyn ni'n gweithio gydag ysgolion er mwyn mynd i'r afael ar y cyd â'r problemau a all arwain at absenoldeb plant a phobl ifainc.

Rydyn ni hefyd yn gwybod bod ein gwaith parhaus gyda phartneriaid i ateb y galw cynyddol am lefelau uchel o ofal yn well yn hanfodol i helpu pobl i ddod adref o'r ysbyty yn gyflym.

Mae'r hinsawdd ariannol y mae holl awdurdodau lleol Cymru yn gweithredu ynddi yn parhau i fod yn heriol iawn ac rydyn ni'n parhau i weithio'n galed i ddarparu newidiadau a gwella gwasanaethau ar yr un pryd â gwneud arbedion effeithlonrwydd sylweddol; mae hyn oddeutu £90 miliwn dros y 10 mlynedd diwethaf yn Rhondda Cynon Taf. Er mwyn ein helpu ni i gyflawni ein huchelgeisiau ar gyfer yr ardal, rydyn ni bob amser yn achub ar bob cyfle i gael incwm ychwanegol gan Lywodraeth Cymru trwy gyflwyno ceisiadau am arian grant ychwanegol y gallwn ni ei ddefnyddio i helpu i dalu am brosiectau unigol. Trwy gyllidebu'n ofalus, gwneud dewisiadau anodd ynglŷn â ble rydyn ni'n gwario, cynllunio ymlaen llaw a newid sut rydyn ni'n gweithio, rydyn ni wedi gallu cadw'r cynnydd yn Nhreth y Cyngor i'r isaf yng Nghymru am yr ail flwyddyn yn olynol.

Dydy gwaith y Cyngor ddim yn aros yn ei unfan a dydy'r adroddiad yma ddim yn dweud wrthoch chi am y llu o wasanaethau rydyn ni'n eu darparu ar gyfer trigolion bob dydd ar yr un pryd â pharhau i ganolbwyntio ein gwaith a'n cyllideb ar y blaenoriaethau hynny rydych chi wedi dweud wrthon ni sy'n bwysig i chi a'ch cymunedau. Er enghraifft...

- *er mwyn atgyfnerthu 'economi' RhCT*, rydyn ni'n parhau i ddatblygu canol ein trefi a chreu rhagor o swyddi ledled y Fwrdeistref Sirol fel bydd modd i bawb fyw mewn tai o safon uchel mewn cymunedau sy'n ffynnu, yn ogystal â rhoi'r addysg a'r cymorth i blant a phobl ifainc a fydd yn eu helpu nhw i gyflawni'u potensial a gwella eu cyfleoedd mewn bywyd.
- *er mwyn cefnogi 'pobl' RhCT*, rydyn ni'n parhau i gynorthwyo ein trigolion mwyaf agored i niwed trwy ein gwasanaeth Cadw'n lach Gartref a'n rhaglen o ddatblygiadau Gofal Ychwanegol ledled y Fwrdeistref Sirol yn ogystal â llety byw annibynnol arall. Mae ein Rhaglen Teuluoedd Cydnerth yn rhoi cymorth i deuluoedd fel bod problemau gartref yn cael sylw yn gynnar ac y gall plant aros gartref yn ddiogel gyda'u teuluoedd.
- *er mwyn gwneud ein 'lle' yn lle deniadol i fyw a gweithio ynddo ac ymweld ag ef*, rydyn ni'n cynnal safonau glendid uchel ar draws RhCT, yn gwella ac yn atgyweirio ein ffyrdd a'n pontydd, yn rhoi gwell opsiynau cludiant cyhoeddus ar waith ac yn parhau i wella ein parciau, ein canolfannau hamdden a'n caeau chwaraeon. Rydyn ni hefyd yn parhau i ehangu'r sioeau, y perfformiadau a'r ffilmiau yn ein theatrau yn ogystal â'r digwyddiadau allanol eraill rydyn ni'n eu trefnu i drigolion a chymunedau eu mwynhau.

Pan ddarllenwch chi'r adroddiad yma, mae'n debygol y bydd rhagor o gynnydd wedi'i wneud yn y gwaith y mae'n ei ddisgrifio. Ein bwriad ni yw sicrhau bod trigolion yn cael y newyddion diweddaraf am ein cynnydd a'n gwelliannau drwy'r cyfryngau cymdeithasol ac ar ein gwefan - baswn i'n eich argymhell chi i weld y newidiadau rydyn ni'n eu gwneud dros och chi'ch hunan yn y meysydd yma. Mae modd gweld rhai o'r gwelliannau nawr ond bydd eraill yn dod i'r amlwg gyda thraul amser, ond rydyn ni'n parhau i osod seiliau cadarn fydd yn cynorthwyo gwelliant y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn elwa ohono ac yn adeiladu arno hefyd.

Yn olaf, fyddai dim o'r gwaith yma'n digwydd heb ymrwymiad parhaus staff, Cyngorwyr a phartneriaid. Hoffwn i gofnodi fy niolchiadau personol i bawb sy'n gweithio'n galed i wneud Rhondda Cynon Taf yn un o'r Cyngorau mwyaf llwyddiannus yng Nghymru fel bod ein trigolion yn manteisio ar y gwasanaethau gorau posibl er gwaethaf yr hinsawdd economaidd sydd ohoni.

Rydw i'n gobeithio bydd yr Adroddiad Cyflawniad yma yn eich helpu chi i ddeall sut mae'r Cyngor yn mynd ati i ddelio â'r heriau a'r cyfleoedd mae'n eu hwynebu ar hyn o bryd a sut mae'n paratoi ar gyfer y dyfodol. Rhowch wybod i ni beth yw'ch barn chi ar ein cynnydd a'n cynlluniau, ac ar yr hyn sy'n bwysig i chi. Rhowch eich syniadau ynglŷn â'r hyn y gallwn ni ei wneud i wella effaith gadarnhaol gwaith y Cyngor ymhellach. Cadwch yn effro i'r ffyrdd bydd modd i chi gymryd rhan, gan gynnwys helpu i lywio a datblygu Cynllun Corfforaethol newydd y Cyngor a fydd ar waith o 2020.

Diolch i chi am eich diddordeb parhaus yng ngwaith y Cyngor.

A. Morgan

Y Cyngorydd Andrew Morgan
Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Parhau i gyflawni ein blaenoriaethau yn 2018-19


Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2016-20, 'Y Ffordd Ymlaen', yn parhau i ganolbwyntio ar drigolion ym mhopeth rydyn ni'n ei wneud.

Cafodd y cynllun ei ddatblygu a'i lunio yn wreiddiol gan drigolion, staff a phartneriaid a ddywedodd wrthon ni beth oedd fwyaf pwysig iddyn nhw. Mae wedi gosod y cyfeiriad ar gyfer popeth rydyn ni wedi'i wneud ers 2016 ac yn gosod seiliau cadarn ar gyfer ein cynllun newydd a fydd ar waith o Ebrill 2020.

Mae'r Cynllun Corfforaethol cyfredol yn nodi Gweledigaeth ar gyfer y dyfodol ar gyfer...

Bwrdeistref Sirol sydd â dyheadau uchel, sy'n hyderus ac sy'n hyrwyddo cyfleoedd i bawb

ac yn canolbwyntio ar dair blaenoriaeth:

 Economi <i>Adeiladu economi gref</i>	 Pobl <i>Hyrwyddo annibyniaeth a bywydau cadarnhaol i bawb</i>	 Lleoedd <i>Creu cymdogaethau mae pobl yn falch o gael byw a gweithio ynddyn nhw</i>
--	--	---

Mae'r Cynllun hefyd yn nodi'r egwyddorion allweddol rydyn ni'n eu dilyn i gyflawni'r blaenoriaethau yma, sef

- ▶ darparu gwasanaethau hanfodol yn dda
- ▶ helpu pobl a chymunedau i helpu eu hunain
- ▶ creu Bwrdeistref Sirol gynaliadwy
- ▶ byw ar yr hyn sydd gyda ni.

Mae dilyn yr egwyddorion yma i gyflawni ein Gweledigaeth tymor hwy wedi golygu bod angen i ni gynnwys pobl a chymunedau wrth i ni lunio ein gwasanaethau, meddwl am effaith yr hyn a wnawn nawr ar bobl a chymunedau yn y dyfodol, cynllunio'r hyn a wnawn yn ofalus fel bydd modd i ni weithio gydag eraill lle'r peth gorau yw gwneud hynny, a rhoi gwasanaethau ar waith a fydd yn helpu i atal problemau rhag digwydd neu waethgu.

Nodwyd y cynlluniau manwl ar gyfer 2018-19 i gyflawni ein tair blaenoriaeth yn ein **Hadroddiad Cyflawniad Corfforaethol ar gyfer 2018-19**. Ers hynny rydyn ni wedi bod yn monitro ein cynnydd yn barhaus. Dydy'r Cynllun Corfforaethol ddim yn dweud wrthoch chi am yr holl wasanaethau rydyn ni'n eu darparu'n uniongyrchol i'n trigolion, cymunedau a busnesau. Bydd modd i chi gael rhagor o wybodaeth am y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu a'r cynnydd rydyn ni'n ei wneud ar **wefan y Cyngor ac ar dudalennau Twitter, Instagram neu Facebook** y Cyngor.

Fel y gwelwch chi drwy gydol yr adroddiad yma, rydyn ni wedi gwneud cynnydd cadarnhaol wrth fynd i'r afael â'n tair blaenoriaeth ers 2016. Mae'r Cynghorwyr wedi bod yn adolygu a gwirio ein gwaith bob tri mis. Ar yr un pryd, mae adroddiadau wedi cael eu rhoi ar wefan y Cyngor fel bod modd i drigolion a sefydliadau perthnasol eraill weld y cynnydd drostyn nhw eu hunain. Rydyn ni bellach ar ddiwedd blwyddyn adrodd 2018-19, felly mae'r adroddiad yma'n cynnwys yr asesiad diwedd blwyddyn o'n cynnydd ac yn darparu enghreifftiau o ble mae ein gwaith wedi gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Rhondda Cynon Taf ac yn ymweld â hi, a hefyd, lle mae angen i ni wneud yn well.

Bydd tair blaenoriaeth y Cyngor ar waith tan fis Mawrth 2020. Mae'r hyn rydyn ni'n bwriadu'i wneud, y targedau rydyn ni wedi'u gosod i ni'n hunain a'r camau nesaf wedi cael eu hadnewyddu a'u hatgyfnerthu yn rhan o'r cynlluniau rydyn ni'n rhoi ar waith ar gyfer 2019-20. Bydd ein cynnydd hyd yn hyn yn ein helpu i baratoi i ymateb i'r heriau sy'n ein hwynebu y tu hwnt i 2020.



Er mwyn ein helpu i gyflawni ein huchelgeisiau ac ymateb i effaith pwysau ariannol cynyddol, rydyn ni'n edrych yn barhaus ar sut y gallwn ni fanteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd gyda ni, drwy fynd i'r afael â'r canlynol...

Digideiddio...

fel y gall cwsmeriaid gyrchu rhagor o'n gwasanaethau ar-lein a hefyd helpu i gynyddu mynediad i dechnoleg i bobl a chymunedau.

er enghraifft, mae trafodion ar-lein wedi cynyddu 36% yn 2016-17 i 63% yn 2018-19. Mae hyn yn golygu y gall ein trigolion gyrchu rhagor o wasanaethau yn gyflymach ac yn haws, er enghraifft, cadw lle ar gyfer y Lido, cyflwyno cais am swydd neu wirio trefniadau ailgylchu ymhlith llawer o bethau eraill. Bydd ein cynlluniau i ddarparu mynediad Wi-Fi am ddim yng nghanol saith o'n trefi ar draws y Fwrdeistref Sirol dros y misoedd nesaf yn helpu trigolion a busnesau fel ei gilydd.

Masnacheiddio...

fel bod y Cyngor yn manteisio ar ragor o gyfleoedd i weithredu fel busnes i ennill incwm yn hytrach na thorri cyllidebau.

er enghraifft, gosod ein heiddo ar rent ac adeiladu unedau diwydiannol i'w gosod gan ddod â swyddi newydd i'r ardal.

Ymyrraeth Gynnar ac Atal...

fel ein bod yn gwario rhagor ar rwystro problemau a llai ar geisio eu hunioni ar ôl iddyn nhw ddigwydd.

er enghraifft, ein **Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth** sy'n gweithio gyda theuluoedd sy'n profi anawsterau fel nad yw eu problemau'n gwaethygu. Mae'r wybodaeth sydd ar gael hyd yma yn dangos bod 74% o'r teuluoedd a gafodd eu hatgyfeirio wedi cytuno i gael y cymorth. O'r teuluoedd yma, dywedodd 95.4% eu bod nhw'n gallu ymdopi'n well o ganlyniad i'r cymorth yma.

Annibyniaeth...

fel bod ein trigolion agored i niwed yn aros mor iach ag sy'n bosibl am gyhyd ag y bo modd.

er enghraifft, ein Gwasanaeth **Cadw'n Iach Gartref** sy'n hwyluso'r broses rhyddhau o'r ysbyty a rhoi cymorth i bobl i ddod i ben â phethau yn eu cartrefi eu hunain ar ôl cael eu rhyddhau. Cafodd y gwasanaeth ar y cyd yma ei wobrwyo yng Ngwobrwyon y GIG 2018 am **'weithio'n ddi-dor ar draws sefydliadau'**.

Trefniadaeth Effeithlon ac Effeithiol...


fel ein bod yn herio popeth a wnawn i weld a allwn ni wneud yn well.

er enghraifft, canoli gweinyddiaeth swyddfa i fanteisio i'r eithaf ar y sgiliau a'r arbenigedd sydd ar gael y tu ôl i'r llenni. Yn ogystal â hynny, helpu staff sy'n gweithio yn y gymuned drwy ddarparu desgiau gwag y gallan nhw eu defnyddio mewn lleoliadau amrywiol fel bydd modd iddyn nhw dreulio rhagor o amser yn gweithio gyda thrigolion, cymunedau a busnesau, a llai o amser yn teithio ar draws y Fwrdeistref Sirol yn ôl i swyddfa.

Yn 2018 fe barhaon ni hefyd i wreiddio **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** i mewn i waith a blaenoriaethau'r Cyngor. Mae'r Ddeddf yma'n berthnasol i 44 o gyrff cyhoeddus yng Nghymru gan gynnwys yr holl Gynghorau, Byrddau Iechyd, Gwasanaethau Tân ac Achub a sefydliad Cyfoeth Naturiol Cymru. Ar ôl mabwysiadu ein tair blaenoriaeth fel ein hamcanion Llesiant ym mis **Mawrth 2017**, rydyn ni hefyd wedi parhau i atgyfnerthu'r agweddau hynny ar ein Cynllun Corfforaethol sydd wedi newid neu symud ymlaen ers iddo gael ei gyflwyno yn 2016.

Mae'r Ddeddf yn gofyn bod y Cyngor yn gwella'n barhaus yn ogystal â chynnal 'Datblygiad Cynaliadwy' sy'n golygu'r broses o wella lles Economaidd, Cymdeithasol, Amgylcheddol a Diwylliannol trigolion Rhondda Cynon Taf. Mae'r Ddeddf hefyd yn gofyn i ni gyfrannu cymaint ag sy'n bosibl tuag at Saith Nod Llesiant Cenedlaethol, y byddwch chi'n eu gweld trwy'r adroddiad yma.

Y Saith Nod Llesiant Cenedlaethol



Mae ein tair blaenoriaeth wedi darparu man cychwyn clir i'n helpu i ddangos sut mae ein gwaith yn cyfrannu at y Saith Nod Llesiant Cenedlaethol yma, ond rydyn ni'n gwybod bod angen i ni wneud rhagor.

Mae'r Ddeddf yn ein cyfarwyddo ni i sicrhau ein bod ni'n diwallu anghenion y presennol heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. I wneud hyn mae angen i ni weithio'n wahanol, lle nad ydyn ni eisoes yn gwneud hynny, a gwneud y canlynol:

1. **cynnwys pobl eraill sydd â buddiant yn ein cynlluniau a cheisio eu barn**
2. **cydbwysu anghenion y tymor byr â'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol**
3. **gweithio gyda phartneriaid eraill i gyflawni amcanion**
4. **ystyried yr effaith ar yr holl nodau llesiant gyda'n gilydd ac ar gyrff eraill**
5. **defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu**

Mae'r pum dull gweithio yma yn gorfodi cyrff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys y Cyngor, i feddwl mwy am gynlluniau hirdymor; i weithio'n well gyda phobl, cymunedau a chydai gilydd; i geisio atal problemau; ac i fabwysiadu dull mwy cydgysylltiedig wrth gyflawni'r gwaith rydyn ni'n ei wneud.

Fe welwch lawer o enghreifftiau o sut rydyn ni'n gwneud hyn trwy gydol yr adroddiad yma a hefyd, lle rydyn ni'n dangos ein bod yn cyfrannu at y Saith Nod Llesiant Cenedlaethol, mae adran hawdd ei darllen sy'n cynnwys enghreifftiau ar dudalen 44. Serch hynny, mae angen i ni barhau i adeiladu ar y platfform cadarnhaol yma a'i wella.

Darparu ar gyfer y dyfodol

Ers nifer o flynyddoedd, mae Cyngorwyr wedi wynebu heriau ariannol sydd wedi golygu eu bod wedi gorfod gwneud dewisiadau a phenderfyniadau anodd.

Mae'r dewisiadau a'r penderfyniadau yma wedi caniatáu i'r Cyngor flaenoriaethu gwasanaethau, yn enwedig i'r rhai sydd fwyaf agored i niwed, ac ar yr un pryd wneud yr arbedion sydd eu hangen i fantoli'r llyfrau. Rydyn ni'n lleihau ein strwythurau rheoli a'n gweinyddiaeth yn barhaus, yn dod o hyd i ffyrdd newydd o weithio mewn partneriaeth â Chynghorau a chyrrff cyhoeddus eraill a gwneud gwell defnydd o'r adeiladau a'r gofod swyddfa sydd gyda ni.

Rydyn ni wedi cyflawni'r newidiadau yma oherwydd ein bod yn edrych yn barhaus i weld lle bydd modd i ni wneud pethau'n wahanol neu'n well a lle gallwn ni gael gwell gwerth am ein harian. Rydyn ni'n gofyn i'n trigolion a'n staff am eu syniadau, rydyn ni'n defnyddio'r holl adborth rydyn ni'n ei dderbyn o arolygiadau ac archwiliadau ac rydyn ni'n dysgu oddi wrth sefydliadau sy'n cyflawni orau yn eu meysydd eu hunain. Rydyn ni hefyd yn adolygu a herio pob gwasanaeth Cyngor yn rheolaidd. Mae hyn yn golygu ein bod ni'n effro i'n cryfderau a'r meysydd sydd angen i ni'u gwella a bod modd i ni ymateb i newid yn gyflymach a pharhau i ddarparu gwasanaethau o safon gyda llai o adnoddau, sy'n cynnwys llai o reolwyr a staff. Rydyn ni'n gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau cyfyngedig drwy weithio gydag eraill lle mae hynny'n gwneud synnwyr. Drwy barhau i herio'r hyn rydyn ni'n ei wybod am ein gwasanaethau ac anghenion ein trigolion a'n cymunedau, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, mae modd i ni ddeall yn well sut mae angen i ni newid a'r hyn sydd angen i ni'i newid. Mae hyn yn ein helpu ni i sicrhau ein bod ni'n canolbwyntio ar wella'r hyn sydd bwysicaf nawr a hefyd sicrhau y bydd modd diwallu anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio mewn partneriaethau gyda chyrrff cyhoeddus eraill, er enghraifft, Cynghorau eraill, Bwrdd Iechyd Cwm Taf, Heddlu De Cymru, Tân ac Achub De Cymru, y Trydydd Sector a sefydliad Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae modd i chi weld enghreifftiau o sut rydyn ni'n gweithio gyda phobl ar **ein gwefan**. Mae rhai o'r partneriaethau oherwydd ein bod ni o'r farn y gallwn ni ddarparu gwasanaethau gwell gyda'n gilydd, a hefyd oherwydd na all un sefydliad ddellio â rhai problemau ar ei ben ei hun.

Cydnabu Llywodraeth Cymru werth gweithio mewn partneriaeth ac mae wedi rhoi deddfau ar waith sy'n cyfarwyddo cyrrff cyhoeddus i weithio gyda'i gilydd, er enghraifft, y **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** sy'n cael ei disgrifio'n fanylach yn adran 10.

Deddf arall sy'n cyfarwyddo sut rydyn ni'n gweithio yw **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**. Mae'r Ddeddf yma'n rhoi mwy o bwyslais ar lais y bobl o ran y gofal maen nhw'n ei dderbyn. I wneud hyn, mae'r Ddeddf yn gofyn i Gynghorau weithio mewn partneriaeth gyda Byrddau Iechyd a'r Trydydd Sector i weithio gyda'i gilydd yn well er mwyn gwella lles oedolion a phlant sydd angen gofal a chymorth, yn ogystal â'u cynhalwyr. I wneud hyn, yn RhCT, rydyn ni'n gweithio'n rhan o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf, sydd wedi sefydlu Gwasanaethau Cymdeithasol Cwm Taf a **Chynllun Ardal Llesiant** sy'n nodi'r hyn y mae'n bwriadu ei wneud i weithio'n well gyda'n gilydd er budd

- plant a phobl ifainc
- pobl hŷn
- iechyd / anableddau corfforol
- anableddau dysgu / awtistiaeth
- iechyd meddwl
- nam ar y synhwyr
- cynhalwyr sydd angen cefnogaeth
- trais yn erbyn menywod, cam-drin yn y cartref, a thrais rhywiol

gyda blaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r canlynol

- pobl hŷn sydd ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, gan gynnwys dementia
- pobl sydd ag anableddau dysgu
- cynhalwyr, gan gynnwys cynhalwyr ifainc
- Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd
- plant sydd ag anghenion cymhleth o ganlyniad i anabledd neu salwch

A ninnau'n Gyngor sy'n gweithio ar ein pennau ein hunain yn ogystal â gweithio mewn partneriaeth gydag eraill, rydyn ni'n ymdrechu'n gyson i wella popeth rydyn ni'n ei wneud fel bydd modd i ni ddarparu gwasanaethau cydgysylltiedig gwell a mwy effeithiol ac effeithlon ar gyfer ein trigolion a'n cymunedau.

Yn ôl yr adroddiad diweddaraf gan Swyddfa Archwilio Cymru (ein rheoleiddiwr annibynnol) ym mis **Medi 2018**, "mae'r Cyngor yn parhau i fodloni ei ofynion statudol mewn perthynas â gwelliant parhaus". Mae modd i chi weld hyn ac adroddiadau eraill gan ein harolygwyr yma.

Cynnydd ar ein Cynllun Corfforaethol 2016-20

Lansiodd y Cyngor ei Gynllun Corfforaethol cyntaf 'Y Ffordd Ymlaen' yn 2016.

Cafodd y Cynllun ei roi ar waith i lywio gwaith y Cyngor am bum mlynedd, hyd at 2020, gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer gwella a chanolbwyntio ar dri maes gwaith a fyddai'n gwella bywydau'r bobl a'r cymunedau yn Rhondda Cynon Taf.



Economi

Adeiladu economi gref



Pobl

Hyrwyddo annibyniaeth a bywydau cadarnhaol i bawb



Lleoedd

Creu cymdogaethau mae pobl yn falch o gael byw a gweithio ynddyn nhw

Mae'r Cynllun yn disgrifio uchelgeisiau ar gyfer y dyfodol a sut y bydd y Cyngor yn cyflawni'r uchelgeisiau hynny, gan gynnwys lle rydyn ni wedi bwriadu gweithio gyda phartneriaid eraill i gael y canlyniadau gorau posibl i drigolion. Ers lansio'r Cynllun, mae'r penderfyniadau y mae'r Cyngor wedi'u gwneud, yr adnoddau sydd wedi'u rhoi ar waith, y risgiau sydd wedi'u rheoli a'r cyfleoedd hyfforddi a datblygu sydd wedi'u darparu ar gyfer staff i gyd wedi'u cyfeirio at wneud gwahaniaeth i fywydau pobl a chymunedau Rhondda Cynon Taf.

Rydyn ni wedi buddsoddi dros £365 miliwn ar draws Ysgolion yr 21ain Ganrif, priffyrdd, cludiant a seilwaith arall, parciau, ardaloedd chwarae, canolfannau hamdden a chyfleusterau chwaraeon awyr agored a'n hasedau cymunedol.

Mae ein cynnydd yn yr hyn roedden ni'n bwriadu ei gyflawni yn 2016, wedi'i nodi mewn adroddiadau rheolaidd i Gynghorwyr eu herio a'u gwirio, ac i drigolion weld drostyn nhw eu hunain. Mae ein cynnydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf hefyd wedi'i nodi yn yr adroddiad yma. Wrth edrych yn ôl ar ein cynnydd ers 2016, mae modd i ni ddangos ein bod wedi cyflawni'r rhan fwyaf o'r hyn roedden ni'n bwriadu ei gyflawni.

ECONOMI

Roedden ni am adfywio RhCT, adeiladu cartrefi newydd a chreu swyddi newydd ac rydyn ni wedi gweld

- cadarnhad o'r Fargen Ddinesig gwerth £1.2 biliwn sy'n cynnwys gweithredu Metro De Cymru a chynlluniau trafndiaeth leol cysylltiedig.
- adeilad newydd sydd wrth wraidd adfywiad Pontypridd, **Llys Cadwyn**, sy'n nesáu at ei ddyddiad gorffen cynlluniedig yn 2020, yn dilyn dymchwel hen ganolfan siopa Dyffryn Taf.
- dros 2,000 o swyddi newydd yn dod i'r Fwrdeistref Sirol. Mae'r rhain yn cynnwys dros 1,000 o swyddi ym Mhencadlys newydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn Nhrefforest, 500 i Lys Cadwyn ar gyfer Trafndiaeth Cymru a 300 eisoes yn Swyddfeydd Addysg Iechyd a Gwella Cymru yn Nantgarw.
- rhagor o fusnesau newydd a busnesau/mentrau cofrestredig yn ogystal â llai o fusnesau'n cau.
- 1,654 o unedau tai ychwanegol a 550 o dai fforddiadwy wedi'u darparu hyd yma, ynghyd â buddsoddiad tai cymdeithasol ychwanegol o £4 miliwn.
- cadarnhad o gynnal yr Eisteddfod Genedlaethol yn RhCT yn 2022, a datblygu dau borth cyrchfan dynodedig ym Mharc Gwledig Cwm Dâr a Pharc Coffa Ynysangharad.

Roedden ni am i'n hysgolion fod ymhlith y gorau yn y wlad ac rydyn ni'n gweld disgyblion yn mwynhau ysgolion newydd neu ysgolion wedi'u hadnewyddu yn Y Pant, Treorci, Y Porth, Tonyrefail, Y Cymer, Glynrhedynog gyda rhagor o welliannau ar y ffordd, a rhagor o'n disgyblion yn sicrhau canlyniadau gwell ar drothwy lefel 2+ (Cymraeg, Saesneg a Mathemateg) yng Nghyfnod Allweddol 4 gan arwain at y cyflawniad uchaf yn RhCT erioed ar y lefel yma.

Roedden ni am roi ystod eang o raglenni sgiliau a chyflogaeth ar waith ar gyfer pobl o bob oed ac rydyn ni'n gweld pobl ifainc ac oedolion o bob oed yn cael eu cefnogi i ennill cymwysterau a dod o hyd i gyflogaeth trwy ein llwybr cyflogaeth, sy'n rhoi cymorth i bobl ar bob cam, o wella sgiliau hanfodol i ennill cymwysterau sy'n benodol i'r sector a phrofiad gwaith ar gyfer swyddi sydd ar gael yn lleol.



POBL

Roedden ni am ddarparu'r gofal sydd ei angen ar ein trigolion i fyw yn eu cartrefi eu hunain am gyfnod hirach ac rydyn ni'n gweld rhagor o bobl yn cael eu helpu i fyw'n annibynnol. Serch hynny, er gwaethaf y gwasanaeth newydd Cadw'n lach Gartref, mae llai o bobl hyn yn mynd yn ôl i'w cartrefi yn gyflymach ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty. Mae hyn oherwydd bod y galw am ofal yn y cartref wedi cynyddu wrth i ni gefnogi rhagor o bobl i fyw gartref yn hytrach na mewn gofal preswyl. Rydyn ni wedi gweld trigolion hapus yn byw mewn cyfleuster gofal ychwanegol newydd yn Nhŷ Heulog, Pont-y-clun, ail gyfleuster newydd yn Aberaman bron wedi'i gwblhau a chynigion ar waith ar gyfer rhagor o gyfleusterau gofal ychwanegol. Mae rhagor o oedolion yn dewis eu darparwyr gofal eu hunain a rhagor o bobl yn gallu aros yn annibynnol i raddau mwy helaeth yn dilyn pecyn gofal.

Roedden ni am wneud gwasanaethau'n fwy cydgysylltiedig ac effeithlon a thrwy weithio'n agos gydag eraill, gwellon ni'n cymorth i deuluoedd fel bod tlodi yn cael llai o effaith arnyn nhw. Gwellon ni ein gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ar draws Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful hefyd gan ei gwneud hi'n haws i bobl gael gafeal ar yr help sydd ei angen arnyn nhw.



Roedden ni am roi dechrau gwyach mewn bywyd i blant a phobl ifainc RhCT felly rhoeon ni **Wasanaeth Teuluoedd Cydnerth** ar waith ac rydyn ni'n gweld bod teuluoedd yn cael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw ar yr adeg iawn. Rydyn ni hefyd wedi gweld llai o blant yn destun ymyrraeth statudol a llai o blant yn cael eu hailgofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ond mae rhagor o blant wedi cael eu rhoi yng ngofal y Cyngor.

LLEOEDD

Roedden ni am i RhCT fod ymhlith y lleoedd mwyaf diogel yng Nghymru, gyda chymunedau'n helpu ei gilydd a thrigolion yn teimlo'n ddiogel felly newidion ni'r ffordd rydyn ni'n delio â dioddefwyr Trais yn y Cartref a rhoi technoleg ar waith hefyd i helpu i amddiffyn oedolion hyn a bregus rhag galwadau ffôn a galwyr di-groeso. Ymwelon ni ag ysgolion i siarad â disgyblion am droseddau casineb a sut mae rhoi gwybod amdany'n nhw a helpu rhagor o bobl i fwynhau cymdeithasu yng nghanol y trefi drwy roi Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus yn eu lle yn Aberdâr a Phontypridd er mwyn helpu i i reoli ymddygiad gwrthgymdeithasol o ganlyniad i gamddefnyddio alcohol. Mae rhagor o drigolion sydd wedi dioddef ymddygiad gwrthgymdeithasol yn teimlo'n fwy diogel o ganlyniad i'n hymyrraeth.



Roedden ni am i barciau a mannau gwyrdd RhCT barhau i gael eu gwerthfawrogi gan drigolion ac rydyn ni wedi gweld lefelau uchel o drigolion yn fodlon ar RhCT fel lle i fyw, lefelau uchel o lendid ar draws RhCT o hyd, llai o ffyrdd mewn cyflwr gwael a rhagor o wastraff yn cael ei ailgylchu.

Rydyn ni hefyd yn gwybod bod rhagor o waith i'w wneud o hyd lle nad ydyn ni wedi cyflawni cymaint ag yr oedden ni wedi disgwyl, e.e.

ECONOMI

mae cyflawniad ein disgyblion mwy agored i niwed yn dal i fod yn rhy bell o dan lefel cyflawniad eu cyd-ddisgyblion. Mae angen i ni hefyd weithio gydag ysgolion i wella presenoldeb ysgolion a lleihau nifer y disgyblion sy'n cael eu gwahardd.

POBL

dydyn ni ddim yn llwyddo i gael pawb adref o'r ysbyty yn gyflym ar ôl iddyn nhw wella.

LLEOEDD

mae angen i ni barhau i annog trigolion i ailgylchu eu gwastraff. Mae angen i ni hefyd gyrraedd targed ailgylchu cenedlaethol Llywodraeth Cymru o 70% erbyn 2025.

Mae'n amhosibl i'n Cynllun Corfforaethol ddangos gwybodaeth am yr holl wasanaethau gwahanol rydyn ni'n eu darparu neu'n eu trefnu ar gyfer ein trigolion, ein cymunedau a'n busnesau, ond mae llawer o wybodaeth ar gael am ein holl wasanaethau ar **wefan y Cyngor**.

Rydyn ni'n dechrau paratoi Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2020 a thu hwnt. I wneud hyn, byddwn ni'n parhau i adeiladu ar ein cyflawniadau hyd yma a sicrhau bod pob tref a chymuned yn y Fwrdeistref Sirol yn llefydd gwyach i fyw a gweithio ynddyn nhw, ac i ymweld â nhw. Byddwn ni'n edrych ar sut y gallwn ni ymateb i'r heriau sy'n wynebu RhCT nawr ac yn y dyfodol ac yn siarad â phobl a chymunedau am yr hyn sydd bwysicaf iddyn nhw.

Cafodd mesur sy'n dangos cynnydd ardaloedd yng Nghymru o ran creu'r amodau i gymunedau wella nawr ac yn y dyfodol, sef **Mynegai Lleoedd Ffyniannus**, ei lansio yn 2018 ac mae'n edrych ar Amodau Lleol, Cynaliadwyedd a Chydraddoldeb. Mae'r **mynegai** yn dangos bod gyda ni seiliau cadarn yn eu lle, ar draws 55 o fesurau, a fydd yn ein helpu i wneud gwelliannau eraill i'n lle a'n hamgylchedd, iechyd meddwl a chorfforol ac addysg a dysgu yn Rhondda Cynon Taf. Mae **Mynegai 2019** yn dangos mai Iechyd Meddwl a Chorfforol sydd â'r sgôr isaf allan o'r categorïau i gyd yn Rhondda Cynon Taf.

Ffyniannus



Cydnerth



Iachach



Mwy
Cyfartal



Cymunedau
Cydlynus



Diwylliant Bywiog lle
mae'r Gymraeg yn ffynnu



Cyfrifol ar
Lefel Fyd-eang



Data Tymor Hir ar gyfer RhCT



y disgwyl yw y bydd y
boblogaeth yn cynyddu i

246,481

erbyn 2039



Plant 0-15 oed
cynnydd o

0.5%

(44,717 - 44,941)



Pobl 16-64 oed
gostyngiad o

5.3%

(148,976 - 141,479)



Pobl 65 oed a hŷn
cynnydd o

32%

(45,434 - 60,061)



Oedolion a fydd yn ordew
neu dros eu pwysau

68.7%

erbyn 2025



bydd disgwyliad oes yn cynyddu hyd at

5 mlynedd

i ddynion a menywod

erbyn 2066



Mae rhagor o wybodaeth am y tueddiadau a fydd yn effeithio
ar drigolion a chymunedau RhCT yma.

Ein cyflawniad ni o'i gymharu â gweddill Cymru

Yn 2018-19, roedd llai o fesurau wedi'u gosod yn genedlaethol ar waith. Mae hyn yn golygu bod llai o fesurau y gallwn ni eu cymharu â Chynghorau eraill yng Nghymru.

O'r 35 dangosydd cenedlaethol rydyn ni'n adrodd arnyn nhw, mae modd i ni gymharu ein cyflawniad ar gyfer 19 ohonyn nhw â Chynghorau eraill¹.

Mae ein cymariaethau yn dangos....

-  **bod 4 o'n dangosyddion yn y chwarter uchaf yng Nghymru.**
-  **bod 10 dangosydd yn dangos cyflawniad gwell.**
-  **bod 8 dangosydd yn well na Chyfartaledd Cymru.**
-  **bod 5 dangosydd yn y chwarter isaf yng Nghymru, a bod 1 ohonyn nhw wedi gwella.**
-  **bod lefel cyflawniad 8 dangosydd wedi gostwng ers y llynedd.**
-  **bod lefel cyflawniad 1 dangosydd wedi aros yn ei unfan a pharhau i fod yn y chwarter uchaf yng Nghymru.**

I weld crynodeb llawn o'n cyflawniad o'i gymharu â gweddill Cymru yn 2018-19 edrychwch ar gymariaethau ein **Dangosyddion Cyflawniad**. I grynhoi, o gymharu ein cyflawniad â Chynghorau eraill Cymru...

roedden ni yn y chwarter uchaf yng Nghymru ar gyfer...

-  % y priffyrdd a gafodd eu harchwilio a'u nodi fel rhai safon uchel neu safon dderbyniol o ran glendid
-  % yr aelwydydd dan fygythiad o ddigartrefedd yn cael eu hatal rhag dod yn ddigartref
-  % o eiddo gwag y sector preifat a gafodd ei droi'n eiddo mae modd byw ynddo unwaith eto yn ystod y flwyddyn trwy weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol
-  % y ffyrdd sydd ddim yn briffyrdd (C) sydd mewn cyflwr gwael ar y cyfan

roedden ni yn y chwarter isaf yng Nghymru ar gyfer...

-  % presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd
-  % y disgyblion blwyddyn 11 oedd yn gadael yr ysgol nad oedden nhw mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth
-  % y priffyrdd (A) sydd mewn cyflwr gwael ar y cyfan
-  % y ffyrdd (B) sydd mewn cyflwr gwael ar y cyfan.

Gall cymharu ein cyflawniad â Chynghorau eraill godi mwy o gwestiynau nag atebion. Mae hyn yn gadarnhaol oherwydd gall ein helpu ni i ddeall yr hyn rydyn ni'n ei wneud, dysgu o arfer gwell yn ogystal â rhoi syniad inni beth yw lefel ein cyflawniad. Os gallwn ni weld nad yw ein cyflawniad yn gwella dros amser, ac yn aros yn is na chyfartaledd Cymru heb reswm da, fe allwn ni wedyn ganolbwyntio ar yr hyn rydyn ni angen ei wella.

Rydyn ni hefyd wedi cymharu ein cyflawniad â'r targedau a osodon ni i ni'n hunain ar gyfer 2018-19 a gweld y canlynol...

-  **bwrodd 9 dangosydd eu targed neu ragori arno ac roedd 7 dangosydd o fewn 5% o fwrw'r targed**
-  **methodd 3 dangosydd â bwrw'r targed, ac roedd pob un ohonyn nhw hefyd yn is na chyfartaledd Cymru.**

Nid yr unig fesur o gyflawniad yw'r dangosyddion cyflawniad a dydyn nhw ddim ychwaith yn rhoi'r stori gyfan, ond gallan nhw fod o help. Rydyn ni hefyd yn edrych ar farn trigolion ac ymatebion i arolygon, a'r sylwadau, y ganmoliaeth a'r cwynion sy'n dod i law trwy'r cyfryngau cymdeithasol. Rydyn ni'n cymharu ein cyflawniad ag arfer gorau cyhoeddedig ac rydyn ni hefyd yn ystyried yr hyn y mae ein harchwilwyr a'n harolygwyr yn ei ddweud wrthon ni. Mae yna rywbeth y gallwn ni ei ddysgu bob amser i wella'n barhaus yr hyn rydyn ni'n ei wneud. Mae'r holl gamau yma'n ein helpu ni i sicrhau bod y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu yn helpu i wneud RhCT yn lle gwyh i fyw a gweithio ynddo ac ymweld ag ef.

Mae angen i ni hefyd gyfrannu at y Saith Nod Llesiant Cenedlaethol i Gymru sydd wedi'u nodi yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sydd wedi'i disgrifio'n fanylach yn tudalen 32. Yn 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hail adroddiad, '**Llesiant Cymru 2018**' sy'n nodi'r cynnydd sy'n cael ei wneud ar draws 44 o gyrff cyhoeddus yng Nghymru, i gyflawni'r Saith Nod Cenedlaethol yma. Er nad yw'r adroddiad yn ymwneud â Rhondda Cynon Taf, gallwn ni ddefnyddio'r wybodaeth yma i edrych ar gyfraniad y Cyngor at y Saith Nod Cenedlaethol. Ochr yn ochr, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru am y tro cyntaf adroddiad ar wahân ar **Lesiant Plant** ledled Cymru rydyn ni'n ei ddefnyddio i ystyried yr hyn rydyn ni'n ei wneud yn RhCT.

¹Rydyn ni wedi defnyddio'r data Cymru gyfan mwyaf diweddaraf o 2017-18 i gymharu ein cyflawniad yn 2018-19

6 ECONOMI:

Adeiladu economi gref



ECONOMI

Adeiladu economi gref



Gwybodaeth allweddol am Ronda Cynon Taf

- Roedd 6,700 o bobl (5.8%) yn ddi-waith yn y flwyddyn hyd at fis Rhagfyr 2018 o'i gymharu â 6,100 (5.5%) yn 2017 ac mae diweithdra yn parhau i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru sef 4.5%.
- Mae 47% o'r ardaloedd yn RhCT ymhlith yr ardaloedd mwy difreintiedig yng Nghymru.
- Dydy 10.1% o'r oedolion ddim yn meddu ar unrhyw gymwysterau ac mae gan 18.2% o'r oedolion lai na 5 TGAU gradd C.
- Cyflawnodd 53.1% o ddisgyblion o leiaf 5 TGAU gradd A* - C gan gynnwys Cymraeg / Saesneg a mathemateg, o'i gymharu â 49.8% y llynedd.
- O'r plant sy'n gymwys ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim, cyflawnodd 28% ohonyn nhw o leiaf 5 TGAU gradd A* - C gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a mathemateg, o'i gymharu â 24.2% y llynedd.
- Mae 17.8% o blant yn RhCT yn byw mewn tlodi. Serch hynny, pan fydd cost tai yn cael ei didynnu o incwm y cartref, mae'r ffigur yma'n cynyddu i 28%.
- Mae dros 2,885 o anheddau yn y sector preifat wedi bod yn wag am fwy na chwe mis, sy'n 67 yn fwy na'r llynedd.



Edrych i'r dyfodol

- Dros y 10 i 20 mlynedd nesaf, bydd hyd at 35% o swyddi presennol y DU ar risg uchel o gael eu hawtomeiddio. Gallai datblygiadau mewn technoleg, cyfrifiaduro a deallusrwydd artifisial arwain at golli 700 o alwedigaethau yn y DU.
- Serch hynny, bydd cynnydd yn nifer y swyddi proffesiynol a thechnegol lefel uwch ac mewn galwedigaethau gofalu a gwasanaeth.
- Erbyn 2022, bydd 1 o bob 5 swydd newydd yn y DU ym maes Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg.
- Mae'n ymddangos y bydd nifer yr aelwydydd yng Nghymru yn cynyddu'n sylweddol.
- Y disgwyl yw y bydd nifer yr aelwydydd person sengl yn codi dros 30% yn ystod yr 20 mlynedd nesaf.
- Mae tueddiadau diweddar mewn adeiladu tai yn dangos efallai na fydd nifer yr eiddo sydd ar gael yn ddigonol ar gyfer y cynnydd yma. Fydd y twf yn y boblogaeth a thai ddim yn unffurf ledled Cymru.

Rheon ni'r flaenoriaeth ECONOMI yn ei lle gan ein bod ni o'r farn y bydd twf economaidd yn sbarduno ffyniant ac yn dod â chyfleoedd i'n trigolion a'n busnes yn ogystal ag i'r Cyngor. Bydd economi sy'n tyfu yn helpu i greu swyddi i'n trigolion a bydd hefyd yn caniatáu i'r Cyngor greu rhagor o incwm i ariannu gwasanaethau, galluogi dull cyfrifol o osod lefelau Treth y Cyngor, cefnogi busnesau a buddsoddi yn anghenion seilwaith y Fwrdeistref Sirol. Bydd helpu i greu'r amodau yma hefyd yn helpu i wella lles Economaidd, Cymdeithasol, Amgylcheddol a Diwylliannol trigolion a chymunedau. Dywedodd trigolion wrthon ni fod hyn yn bwysig iddyn nhw ac mae astudiaethau wedi dangos bod gwaith yn dda i bobl ac y gall fod o fudd i ieuchyd meddwl unigolion a chyfraniad at gymunedau.

Rydyn ni am gefnogi trigolion, yn enwedig ein pobl ifainc, i wireddu eu potensial trwy gael yr addysg orau, swyddi boddhaus a thai o ansawdd da, waeth beth fo'u cefndiroedd.

Rydyn ni hefyd eisiau sicrhau bod RhCT yn y sefyllfa orau i fanteisio'n llawn ar y nifer o wahanol gyfleoedd a fydd yn codi o **Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd**.

Bydd gwneud canol trefi RhCT yn fwy deniadol nid yn unig o fudd i drigolion, bydd e hefyd yn ychwanegu at apêl yr ardal yn gyrcfan i ymwelwyr, a fydd yn helpu i gynyddu twristiaeth ac a fydd, yn ei dro, yn cefnogi busnesau lleol yn ogystal â darparu rhagor o gyfleoedd i'n trigolion gael swyddi.

Rydyn ni hefyd yn gwybod bod rhaid i ni gynllunio i fodloni disgwyliadau uwch gan ein trigolion gyda llai o arian felly rhaid i ni wneud pethau'n wahanol.

Dyma'r camau rydyn ni wedi'u rhoi yn eu lle i gyflawni'r Flaenoriaeth yma

- **Ymagwedd gyfrifol tuag at adfywio, gyda chartrefi newydd yn cael eu hadeiladu a chyfleoedd gwaith yn cael eu creu - gan gynnwys buddsoddi yn nghanolau'r trefi a'r seilwaith masnachol megis Ystad Ddiwydiannol Trefforest.**
- **Sicrhau bod ysgolion Rhondda Cynon Taf ymhlith y gorau yn y wlad, gyda'r plant i gyd yn cyflawni eu gorau glas.**
- **Sicrhau bod amrywiaeth eang o raglenni sgiliau a chyflogaeth ar waith ar gyfer pobl o bob oed - drwy ddefnyddio arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop lle bydd modd i ni wneud hynny.**

Yn rhan o'n paratodau i roi Cynllun Corfforaethol newydd ar waith o 2020, rydyn ni'n pwysu a mesur ein cynnydd dros y tair blynedd ddiwethaf yn ogystal ag edrych ymlaen at weld pa heriau Cymdeithasol, Economaidd, Amgylcheddol a Diwylliannol rydyn ni'n eu hwynebu a sut y gallwn ni weithio gydag eraill yn well i atal problemau rhag digwydd fel bod ein gwaith yn cael yr effaith gadarnhaol fwyaf nawr ac yn y dyfodol.

Yn 2018 dywedon ni y bydden ni'n parhau â'n gwaith i Adeiladu Economi Gref, gan ganolbwyntio ar wella ein heconomi trwy gefnogi twf busnes a helpu unigolion i wella eu sgiliau. Ar y cyfan, rydyn ni'n parhau i wneud cynnydd da fel Cyngor ac yn rhan o bartneriaethau ehangach ac rydyn ni wedi rhagori ar lawer o'n disgwyliadau. Bydd llawer o'r gwaith yn y flaenoriaeth yma i'w weld yn y tymor hwy ond rydyn ni hefyd yn gweld cynnydd da yn ein cynlluniau tymor byrrach. Serch hynny, mae gyda ni fwy i'w wneud o hyd i gyd-gerdded â newidiadau mewn technoleg a'r economi, gan gynnwys paratoi ar gyfer ansicrwydd parhaus Brexit.

O ran ein gwaith i gyflawni ein blaenoriaeth ECONOMI rydyn ni'n adeiladu'n barhaus ar ein profiad o wneud pethau'n wahanol, yn ystyried yr hyn sydd wedi gweithio a'r hyn y mae angen i ni ei wneud yn well. Rydyn ni hefyd yn cynyddu ein dealltwriaeth o effaith y newidiadau rydyn ni'n eu gwneud ar gyfer pobl a chymunedau Rhondda Cynon Taf a rhanbarth ehangach Cwm Taf.

Mae ein gwaith o fewn blaenoriaeth ECONOMI yn cael ei oruchwylio gan y Cabinet, Pwyllgorau Craffu perthnasol a, lle bo hynny'n briodol, Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf a byrddau eraill.




Mae modd gweld rhagor o fanylion ynglŷn â'n cynnydd o'i gynharu â'r hyn roedden ni'n ceisio'i gyflawni yn 2018-19 yn ein **Gwerthusiad Cyflawniad - ECONOMI**.

Rhoi ymagwedd gyfrifol yn ei lle tuag at adfywio, gyda chartrefi newydd yn cael eu hadeiladau a chyfleoedd gwaith yn cael eu creu

Ymhlith pethau eraill, rydyn ni wedi...

- nodi pum ardal yn RhCT lle mae'r potensial i greu rhagor o swyddi a gwella'r ffyniant, hynny yw, Porth Cynon, Pontypridd Ehangach, Tref Pontypridd, coridor yr A4119 a choridor Llanilid/M4.
- parhau i arwain a gweithio gyda phartneriaid i gefnogi prosiectau'r Fargen Ddinesig a fydd yn dod â buddsoddiad, trafnidiaeth well, tai a swyddi i'r rhanbarth.
- darparu 83 o dai fforddiadwy a'i gwneud hi'n bosibl defnyddio 213 o eiddo gwag unwaith eto.
- ymgymryd â 452 o ymyriadau i fynd i'r afael ag eiddo gwag tymor hir.
- parhau i hyrwyddo RhCT yn gyrchfan i ymwelwyr. Dydy 'cynllun rheoli cyrchfannau'r' bartneriaeth ehangach ddim ar waith eto, ond bydd wedi'i gwblhau yn 2019.
- parhau i weld
 - » arwyddion cadarnhaol o fusnesau newydd gyda 34.2% o fusnesau newydd, bron i ddwbl yr 17.8% ar gyfer De Ddwyrain Cymru, ac yn sylweddol fwy na'r gyfradd ar gyfer Cymru gyfan a gweddill y DU.
 - » llai o fusnesau'n dod i ben ar 8.9% yn RhCT, o'i gymharu ag 11.1% yn Ne Ddwyrain Cymru, 10.4% yng Nghymru a 12.3% yn y DU.
- nodi Pontypridd/Trefforest ehangach yn Hwb Strategol ar gyfer datblygu economaidd gan Dasglu'r Cymoedd, gyda gwaith manwl i ystyried cyfleoedd ar gyfer datblygu yn y dyfodol.
- cyrraedd y pwynt hanner ffordd gyda'r **Llys Cadwyn** newydd. Yn ganolog i adfywio Pontypridd, mae'r adeilad ar y trywydd iawn i gael ei gwblhau yn 2020.

Cafodd...



o gartrefi fforddiadwy eu darparu, llai nag yn 2017-18 (226)

cynlluniau arfaethedig a ystyriwyd ar gyfer cyllid heb eu symud ymlaen fel y cynlluniwyd



o eiddo gwag eu defnyddio unwaith eto, mwy nag yn 2017-18 (204)

ASTUDIAETH ACHOS

MAE BUSNES YN BLODEUO YN NHONYPANDY

Gyda chyllid gan raglen Cymorth i Fusnesau, llwyddodd perchnogion y 'Flower Room' i wella adeilad diffaith i greu adeilad lle roedd modd iddyn nhw gychwyn eu busnes newydd yn rhan o raglen adfywio canol tref Tonypandy.

Mae ein cynlluniau ar gyfer 2019-20 yn cynnwys...

- cefnogi canol ein trefi i fod yn ganolfannau cymdeithasol ac yn byrth i wasanaethau lleol yn y Porth, Aberpennar, Treorci a Thonypandy.
- ailedrych ar y gefnogaeth rydyn ni'n ei darparu ar gyfer busnesau lleol i sicrhau ei bod hi'n diwallu eu hanghenion.
- gweithio gyda busnesau lleol i wneud canol ein trefi yn fwy diogel.
- hyrwyddo Rhondda Cynon Taf i ymwelwyr trwy fanteisio i'r eithaf ar ein tirwedd a darparu Parc Rhanbarthol y Cymoedd.
- ehangu'r ystod o dai sydd ar gael i'r holl drigolion, gan gynnwys datblygiadau newydd, tai cymdeithasol a chyfleoedd hunan-adeiladu.

Byddwch chi'n gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth oherwydd...

- bydd mwy o welliannau i eiddo yng nghanol ein trefi.
- nifer y busnesau cofrestredig a busnesau newydd.
- byddwn ni'n gwybod sawl cartref sydd wedi'i adeiladu gan fusnesau lleol.
- byddwn ni'n parhau i ddarparu tai fforddiadwy a rhoi bywyd newydd i eiddo gwag.

Sicrhau bod ysgolion Rhondda Cynon Taf ymhlith y gorau yn y wlad, gyda'r plant i gyd yn cyflawni eu gorau glas

Ymhlith pethau eraill, rydyn ni wedi...


- agor 3 Ysgol Bob Oed newydd yn rhan o'r rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, hynny yw, Ysgol Gymuned y Porth, Ysgol Gymuned Tonyrefail ac Ysgol Nant Gwyn yn Nhonypany. Mae ysgol gynradd gymuned newydd wedi agor yng Nghwmaman hefyd.
- parhau i weithio gyda'n partneriaid rhanbarthol yng Nghonsortium Canolbarth y De i herio a chefnogi ysgolion i wella canlyniadau cyflawniad a llesiant disgyblion.
- parhau i roi dulliau cefnogi disgyblion yn eu lle fel y byddai modd iddyn nhw ddod i ben â'r heriau maen nhw'n eu hwynebu'n well, yn yr ysgol a thu allan, a allai effeithio ar eu gallu i ddysgu a chyrraedd eu potensial llawn. Mae hyn yn cynnwys help yn yr ysgol, er enghraifft, Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl, yn ogystal â help i'r teulu cyfan trwy'r Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth.
- rhoi rhaglen gwyliau haf 'Bwyd a Hwyl' ar waith yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus yn 2017. Cafodd bron i 1,500 o brydau bwyd eu gweini mewn pum ysgol dros wyliau haf yr ysgol. Mwynhaodd 178 o blant sesiynau chwaraeon a gweithgareddau pleserus ac addysgol gyda ffrindiau, hen a newydd. Rhoddodd y disgyblion a'r rhieni sêl bendith iddi!

BWYD A HWYL...

"Mae trefn arferol yn hanfodol i'm plentyn ac mae e wedi bod wrth ei fodd yn treulio amser gyda'i ffrindiau. Does neb arall gyda fi i helpu gyda gofal plant felly mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol enfawr ar fy nheulu"




Cyflawnodd...



o ddisgyblion RhCT y trothwy L2+
49.8% yn 2017-18
gan gau'r bwlch gyda chyfartaledd Cymru (55.1%)

Trothwy L2+: 5 TGAU ar Radd A *- C gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg



o'r disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim y trothwy lefel 2+
24.2% yn 2017-18
yn rhy bell o dan eu cyfoedion o hyd

Cafwyd...



gwaharddiad tymor penodol fesul 1,000 o ddisgyblion mewn ysgolion cynradd
14.2 yn 2017-18

Rydyn ni'n gweithio gydag athrawon i gael plant a phobl ifainc yn ôl i'w gwersi yn ddiogel.



gwaharddiad tymor penodol fesul 1,000 o ddisgyblion mewn ysgolion uwchradd
95.7 yn 2017-18

ASTUDIAETH ACHOS

HELPU TEULUOEDD - YSGOL GYNRADD GLENBOI

Mae gan Ysgol Gynradd Glenboi nifer uchel o ddisgyblion difreintiedig. Rhoddodd yr ysgol lawer o gynlluniau ar waith i gefnogi, meithrin a herio'r disgyblion ac hefyd i ddatblygu cysylltiadau cadarn a chefnogol gyda'r rheini fel bydd modd i hwythau hefyd gefnogi dysg eu plant yn well. Roedd y cynlluniau'n cynnwys sesiynau ymwybyddiaeth ofalgar wythnosol a darparu cyngor ar ddysgu gartref. Yn ogystal â hynny, mae Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd ar gael i helpu'r rhieni i ddod i ben â phethau drwy roi cymorth ymarferol ac emosiynol. O ganlyniad i waith pawb, mae gan y disgyblion fan cychwyn gwych y bydd modd iddyn nhw adeiladu arno. Ym mis Mawrth 2019, cydnabuwyd gwaith yr ysgol yn rhagorol gan Arolygwyr Addysg.

Mae modd gweld Astudiaeth Achos fanwl ar **wefan Estyn**.

Mae ein cynlluniau ar gyfer 2019-20 yn cynnwys...

- parhau gyda gwelliannau tymor hir i'n hadeiladau ysgol trwy'r rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a chynnwys rhieni a chymunedau wrth ddatblygu cynlluniau ar gyfer prosiectau yn y dyfodol.
- ehangu'r cyfleoedd i adeiladau ysgol fod ar gael ar gyfer darparu gwasanaethau cymunedol y tu allan i oriau ysgol, er enghraifft, hybiau dysgu cymunedol.
- adolygu'r gefnogaeth rydyn ni'n ei darparu ar gyfer plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol cyn iddyn nhw ddechrau'r ysgol.
- gweithio gydag lechyd i sicrhau bod gan bob rhiant y gefnogaeth sydd fwyaf buddiol i ddatblygiad eu plant

Byddwch chi'n gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth oherwydd...

- bydd rhagor o ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn sicrhau canlyniadau da yn eu harholiadau TGAU.
- bydd llai o ddisgyblion yn cael eu gwahardd o'r ysgol.
- bydd rhagor o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol yn fwy rheolaidd.

Sicrhau bod amrywiaeth eang o raglenni sgiliau a chyflogaeth ar gyfer pob oedran yn eu lle

Ymhlith pethau eraill, rydyn ni wedi...

- parhau i gynorthwyo pobl, gan gynnwys y rheini ag anghenion dysgu neu anableddau ychwanegol, i gael gwaith
- gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu cyfleoedd dysgu yn y gymuned i oedolion a fydd yn helpu pobl i ennill sgiliau hanfodol a gwella'u lles a'u hyder
- parhau i weithio gyda chyflogwyr i roi'r cyfle i drigolion RhCT i ddysgu sgiliau fydd yn eu helpu nhw i gystadlu am swyddi
- ehangu 'Dydd Gwener Digidol' yn llyfrgelloedd y Cyngor, gan helpu 273 o bobl i wella eu sgiliau digidol
- cynnig gofal plant am ddim i ragor o blant 3 a 4 oed cymwys, gyda thros 1,200 o leodd ar gael
- gweithio gyda phartneriaid BGC i ddatblygu 'Addewid Cyflogadwydd' sy'n ymrwymo'r holl bartneriaid sector cyhoeddus ar draws Cwm Taf i weithio gyda'i gilydd i ddarparu gwell mynediad at gyfleoedd swyddi a hyfforddiant, gan sicrhau bod y sector cyhoeddus, yn ardaloedd Cwm Taf, yn cael ei ystyried yn gyflogwr o ddewis.



O ganlyniad i'w gwaith caled a'n cefnogaeth ni...

2,000

Cafodd 2,000 o bobl hyfforddiant a phrofiad gwaith neu ennill cymwysterau

600+

Gwellodd dros 600 o bobl eu sgiliau sylfaenol gan gynnwys sgiliau digidol

568

Cafodd 568 o bobl waith - gan gynnwys 20 ag anawsterau dysgu neu anableddau



1.9%

o ddisgyblion 16 oed nad oedden nhw'n dechrau swyddi, hyfforddiant nac addysg ar ôl gadael yr ysgol (45) 1.1% yn 2017-18



2.9%

o ddisgyblion 18 oed nad oedden nhw'n dechrau swyddi, hyfforddiant nac addysg ar ôl gadael yr ysgol (31) 2.6% yn 2017-18

Mae deddfau Diogelu Data newydd a gafodd eu cyflwyno yn 2018 wedi ei gwneud hi'n anodd casglu'r data personol yma am yr holl bobl ifainc a chymharu data blynyddoedd blaenorol yn gywir

ASTUDIAETH ACHOS

CYMUNEDAU AM WAITH

Mae A, yn fenyw 19 oed sy'n gofalu am ei mam. Roedd hi'n ynysig ac yn brin o hyder. I ddechrau, roedd hi'n ei chael hi'n anodd ymgysylltu â 'Chymunedau am Waith' oherwydd nifer o rwystrau, gan gynnwys profedigaethau yn y teulu. Cadwodd Gweithiwr Cymorth A mewn cysylltiad â hi nes ei bod hi'n barod i gofrestru ar gyfer cwrs 'Camau at Ragoriaeth'. Helpodd y cwrs A i wneud ffrindiau, gwella ei hyder a chael gwaith mewn ffatri leol.

Mae ein cynlluniau ar gyfer 2019-20 yn cynnwys...

- rhoi cymorth i bobl â chyflyrau iechyd ac anableddau tymor hir ynglŷn ag aros yn y gwaith.
- gwella cyngor a chyfleoedd ymarferol i bobl ifainc fel bydd modd iddyn nhw wneud dewisiadau mwy gwybodus am eu gyrfaedd yn y dyfodol.
- cefnogi rhagor o gyfleoedd gwaith digidol a chreadigol.
- gweithio gyda chyflogwyr i ddatblygu gweithlu medrus a fydd yn helpu rhagor o drigolion RhCT i gystadlu am swyddi.

Byddwch chi'n gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth oherwydd...

- bydd rhagor o bobl, gan gynnwys pobl ifainc, yn cael help i gael swyddi.
- bydd rhagor o bobl ifainc yn gadael yr ysgol ac yn mynd ymlaen i addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant.
- bydd rhagor o bobl â chyflyrau iechyd yn cael help i aros yn y gwaith.
- bydd busnesau lleol yn cael eu cefnogi i helpu pobl i aros yn y gwaith.

Mae'r gwaith yn ein blaenoriaeth Economi yn cyfrannu at RhCT a Chymru sydd



Mae rhagor o wybodaeth ar gael ynglŷn â sut y byddwn ni'n parhau â'n gwaith i 'Adeiladu economi gref' yn ein Cynllun 2019-20 - **ECONOMI**

POBL:

Hyrwyddo annibyniaeth
a bywydau cadarnhaol i
bawb yn Rhondda
Cynon Taf



7 POBL

Hyrwyddo annibyniaeth a bywydau cadarnhaol i bawb yn Rhondda Cynon Taf



Gwybodaeth allweddol am Riondda Cynon Taf

Poblogaeth RhCT yn 2017 oedd 239,127

- 18.7% o dan 16 oed
- 62.3% rhwng 16-64 oed
- 19% dros 65 oed

Yn ôl Arolwg Cenedlaethol mwyaf diweddar Cymru.

- Mae 17% o aelwydydd RhCT yn wynebu amddifadedd materol, hynny yw, maen nhw'n methu â fforddio cadw'r tŷ yn ddigon cynnes, cynilo arian yn rheolaidd, neu gael gwylliau unwaith y flwyddyn.
- Roedd 10% o oedolion yng Nghymru yn arddangos llai na dau o'r pum ymddygiad 'ffordd iach o fyw'. Dynion, oedolion canol oed, a'r rhai yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig oedd fwyaf tebygol o arddangos llai na dau o'r ymddygiadau, hynny yw, peidio ag ysmegu, peidio ag yfed uwchlaw'r canllawiau wythnosol, bwyta 5 ffrwyth neu lysieuyn (diwrnod blaenorol), bod yn gorfforol egniol am o leiaf 150 munud (wythnos flaenorol) a lefelau gordewdra.
- Mae 17% o bobl yn RhCT yn unig.

Fel roedd y sefyllfa ar 31 Mawrth 2019, roedd

- 674 o blant yng ngofal y Cyngor.
- 498 o gofnodion yn y Gofrestr Amddiffyn Plant.

Ym Mynegai Lleodd Ffyniannus mwyaf diweddar Cymru, mae RhCT wedi sgorio

- 4.47 ar gyfer ynysu cymdeithasol, sy'n gynydd o 4 ers 2018. Mae sgôr o 10 yn nodi amodau eithriadol o dda o ran lles ac mae sgôr o 0 yn nodi amodau eithriadol o wael.
- 3.36 ar gyfer lechyd Meddwl a Chorfforol, cynnydd ymylol o 3.23 ers y flwyddyn flaenorol

Y Data Diweddaraf sydd ar gael sy'n berthnasol i Gwm Taf - hynny yw RhCT a Merthyr Tudful

- Yng Nghwm Taf mae'r gyfradd uchaf ond un am farwolaethau sy'n benodol i alcohol yng Nghymru 2015-2017.
- Alcohol oedd achos 43% o atgyfeiriadau at wasanaethau camddefnyddio sylweddau arbenigol ar draws Cwm Taf yn 2017-18.
- Yn 2018, roedd 65.2% o'r oedolion yng Nghwm Taf yn ordew neu dros eu pwysau.

Rhoeon ni'r flaenoriaeth POBL yn ei lle gan ein bod ni o'r farn mai'r ffordd orau o helpu pobl i fyw bywydau hir ac iach yw eu helpu nhw i wneud dewisiadau gwybodus a chadw rheolaeth ar sut maen nhw'n byw eu bywydau ac yn cefnogi'u cymunedau a chyfrannu atyn nhw. Dywedodd trigolion wrthon ni fod hyn yn bwysig iddyn nhw.

Yn ôl y data diweddaraf sydd ar gael, poblogaeth RhCT yw 239,127 (2017), sydd wedi cynyddu o 231,937 yn 2001. Gan fod pobl yn byw yn hirach, mae cyfran y bobl hyn yn RhCT hefyd yn tyfu. Rydyn ni am i'n trigolion o bob oed aros cystal ag y gallan nhw cyhyd ag y gallan nhw ond, yn anochel, bydd cyflyrau sy'n gysylltiedig ag oedran ymhlith pobl hyn yn golygu cynnydd yn yr angen am iechyd a gofal cymdeithasol.

Yn RhCT, rydyn ni'n gwybod bod gyda ni nifer fawr o drigolion agored i niwed o bob oed, yn ogystal â chymunedau difreintiedig. Rydyn ni am sicrhau bod gan bobl o bob oed y siawns orau o elwa o'r cyfleoedd sydd ar gael iddyn nhw gan gynnwys cymryd rheolaeth o'r gwasanaethau a'r cyfleusterau y maen nhw'n eu gwerthfawrogi. Rydyn ni hefyd eisiau canolbwyntio ar y bobl hynny sydd â'r angen mwyaf a sicrhau bod ganddyn nhw'r gefnogaeth gywir ar yr adeg iawn.

Rydyn ni hefyd yn gwybod bod rhaid i ni gynllunio i fodloni disgwyliadau uwch gan ein trigolion gyda llai o arian felly rhaid i ni wneud pethau'n wahanol.

Dyma'r camau rydyn ni wedi'u rhoi yn eu lle i gyflawni'r Flaenoriaeth yma

- Sicrhau bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu personoli a'u hintegreiddio, gyda rhagor o bobl yn cael eu cefnogi i fyw'n hirach yn eu cartrefi eu hunain.
- Rhoi dechrau gwych mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifainc.
- Ailgynllunio gwasanaethau lleol fel eu bod nhw'n integredig ac yn effeithlon.

Yn rhan o'n paratodau i roi Cynllun Corfforaethol newydd ar waith o 2020, rydyn ni'n pwysu a mesur ein cynnydd dros y tair blynedd diwethaf yn ogystal ag edrych ymlaen at weld pa heriau Cymdeithasol, Economaidd, Amgylcheddol a Diwylliannol rydyn ni'n eu hwynebu a sut y gallwn ni weithio gydag eraill yn well i atal problemau rhag digwydd fel bod ein gwaith yn cael yr effaith gadarnhaol fwyaf nawr ac yn y dyfodol.



Edrych i'r dyfodol

- Bydd poblogaeth RhCT yn cynyddu i 246,481 erbyn 2039, gyda'r cynnydd mwyaf yn nifer y bobl 65 oed (32%).
- Bydd disgwyliad oes yn cynyddu 5 mlynedd i ddynion a menywod erbyn 2066.
- Bydd 68.7% o oedolion yn ordew neu dros eu pwysau erbyn 2025.
- Bydd cynnydd yn nifer yr oedolion â chyflyrau cronig, gan gynnwys diabetes, cyflyrau'r galon a strôc yn ogystal â chyflyrau iechyd meddwl cyffredin.
- Yn ôl amcangyfrifon, bydd nifer y bobl dros 65 oed sy'n byw gyda dementia yng Nghymru yn cynyddu o 44,275 yn 2017 i 72,769 yn 2035.

Yn 2018, dywedon ni y bydden ni'n parhau â'n gwaith i hyrwyddo annibyniaeth a bywydau cadarnhaol i bawb - Ar y cyfan, rydyn ni'n parhau i wneud cynnydd da fel Cyngor ac yn rhan o bartneriaethau ehangach, ac rydyn ni wedi rhagori ar lawer o'n disgwyliadau o ran cefnogi ein trigolion mwyaf agored i niwed. Mae cynnydd yn ein mesurau tymor byr yn dangos gwelliant, ond dydy hynny ddim yn wir am bob un, ac rydyn ni'n gwybod bod rhagor gyda ni i'w wneud i helpu i gadw'n trigolion o bob oed a chefnidir yn ddiogel ac iach.

O ran ein gwaith i gyflawni ein blaenoriaeth POBL rydyn ni'n adeiladu'n barhaus ar ein profiad o wneud pethau'n wahanol, yn ystyried yr hyn sydd wedi gweithio a'r hyn y mae angen i ni ei wneud yn well. Rydyn ni hefyd yn cynyddu ein dealltwriaeth o effaith y newidiadau rydyn ni'n eu gwneud ar gyfer pobl a chymunedau Rhondda Cynon Taf a Rhanbarth ehangach Cwm Taf.

Mae ein gwaith o fewn blaenoriaeth POBL yn cael ei oruchwyllo gan y Cabinet, Pwyllgorau Craffu perthnasol a, lle bo hynny'n briodol, y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae dau faes gwaith yn y flaenoriaeth yma wedi bod yn destun adolygiad neu arolygiad allanol. Dydyn ni ddim wedi gweld y canfyddiadau terfynol eto ond byddan nhw'n cael eu hadrodd i'r Cyngorhwyfwr a'u cyhoeddi unwaith y byddan nhw ar gael.



Mae modd gweld rhagor o fanylion am ein cynnydd o'i gymharu â'r hyn roedden ni'n ceisio'i gyflawni yn 2018-19 yn ein **Gwerthusiad Cyflawniad - POBL**.

Sicrhau bod gwasanaethau lechyd a Gofal Cymdeithasol yn cael eu personoli a'u hintegreiddio, gyda rhagor o bobl yn cael eu cynorthwyo i fyw'n hirach yn eu cartrefi eu hunain

Ymhlith pethau eraill, rydyn ni wedi...

- gwneud cynnydd da ar ein hail gyfleuster Tai Gofal Ychwanegol ym Maes-y-ffynnon yn Aberaman.
- parhau â'n gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref, gan roi cymorth pwrpasol i drigolion bregus.
- parhau i fuddsoddi mewn mannau chwarae a chanolfannau hamdden i'w gwneud nhw'n fwy deniadol a hygyrch i drigolion a chymunedau er mwyn eu hannog nhw i gymryd rhan mewn rhagor o weithgareddau llesol ac aros yn iachach am gyfnod hirach. Ymhlith y buddsoddiadau, mae gwelliannau i ystafelloedd ffitrwydd Bronwydd a'r Ddraenen Wen, Llanilltud Faerdref, Canolfannau Chwaraeon Cwm Rhondda ac Abercynon ynghyd â chaeau 3G ar draws RhCT.

Fe wnaethon ni ofyn i bobl sydd â Chynllun Gofal a Chymorth am yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw o ran y gofal maen nhw'n ei gael

93% ↑ o'r farn eu bod nhw yn y cartref iawn iddyn nhw 89% yn 2017-18


77% ↑ wneud yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw 50% yn 2017-18

94% ↑ yn teimlo'n ddiogel 79% yn 2017-18

96% ↑ yn teimlo'u bod nhw'n rhan o'u cymuned 52% yn 2017-18

90% ↑ yn teimlo eu bod nhw'n rhan o unrhyw benderfyniadau a gafodd eu gwneud ynghylch eu gofal a'u cymorth 78% yn 2017-18

95% ↑ wedi cael gofal a chymorth yn eu hiaith o ddewis 94% yn 2017-18




Roedd angen llai o gefnogaeth ar nifer fwy o gleientiaid a gwblhaodd gyfnod o ailalluogi 6 mis yn ddiweddarach 84.95% yn 2017-18

Ar ôl iddyn nhw gwblhau cyfnod o ailalluogi, roedd mwy o gleientiaid a oedd angen cymorth o hyd 77.63% yn 2017-18

gwelwyd cynnydd o 7% yn nifer yr oedolion a dderbyniodd cymorth ailalluogi ond dim ond 1% o gynnydd yn nifer yr oedolion heb becyn gofal a chymorth.



Cafodd rhagor o bobl eu derbyn i ofal preswyl neu nysio 417 yn 2017-18



Mae rhagor o bobl yn defnyddio taliadau uniongyrchol i reoli'u trefniadau gofal eu hunain 14.67% yn 2017-18



Mae rhagor o ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden fesul 1,000 o'r boblogaeth 8,140 yn 2017-18



Llwyddodd llai o bobl, fesul 1,000 o'r boblogaeth, i ddychwelyd adref o'r ysbyty yn gyflymach 3.31% yn 2017-18

Mae'r galw am ofal a chymorth dwys i bobl sy'n gadael yr ysbyty yn cynyddu'r pwysau ar y gofal iechyd a chymdeithasol sy'n cael ei ddarparu yn y gymuned, yn enwedig yn yr ardaloedd hynny lle rydyn ni'n ei chael hi'n anodd recriwtio staff gofal.

Mae ein cynlluniau ar gyfer 2019-20 yn cynnwys...

- parhau i weithio gyda phartneriaid i roi atebion gwell yn y gymuned ar waith fel y bydd modd i bobl adael yr ysbytai yn gyflymach ac yn fwy diogel.
- rhoi dull gweithredu ar waith ar gyfer gofal preswyl a fydd yn diwallu anghenion cynyddol a newidiol ein trigolion.
- datblygu ein rhaglen o dai Gofal Ychwanegol.
- parhau i sicrhau bod tai, llety a chymorth priodol ar gael ar gyfer ein trigolion sydd ag anableddau dysgu.
- gwneud gwell defnydd o dechnoleg a fydd yn caniatáu i bobl barhau i aros yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain.
- gweithio'n agosach gyda chyrrff cyhoeddus eraill mewn ffyrdd a fydd yn atgyfnerthu cymunedau.
- parhau i fuddsoddi mewn gwelliannau i'n canolfannau hamdden, parciau, mannau chwarae a chyfleusterau eraill lle gall ein trigolion fod yn egniol a chadw'n iach.

Byddwch chi'n gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth oherwydd...

- bydd llai o bobl yn cael eu derbyn i ofal preswyl neu ofal nyrso.
- bydd rhagor o oedolion sy'n cwblhau cyfnod ailalluogi angen llai o gymorth 6 mis yn ddiweddarach.
- bydd rhagor o bobl yn mynd adref o'r ysbyty yn gynt.
- bydd rhagor o bobl yn talu'n uniongyrchol er mwyn rheoli'u trefniadau gofal eu hunain, fel bod modd iddyn nhw ddewis pwy sy'n darparu eu gofal a phryd.
- bydd rhagor o bobl yn ymweld â'n cyfleusterau chwaraeon a hamdden.



Rydyn ni hefyd yn gweithio yn rhan o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf i gyflawni'r newidiadau y mae wedi'u nodi yng **Nghynllun Llesiant Cwm Taf**. I'r Cyngor yn benodol, mae Amcanion Lles Cwm Taf, sef, Cymunedau sy'n ffynnu (sy'n cael ei arwain gan Gyngor RhCT) ac Unigrwydd ac Arwahanrwydd yn berthnasol i'n blaenoriaethau ein hunain. Dyma'r flwyddyn lawn gyntaf o gyflawni gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus felly mae llawer i'w wneud o hyd i gyflawni'r cynllun tymor hir.

Cymunedau sy'n Ffynnu...

yn rhan o'r bartneriaeth ehangach a chan weithio'n agos gyda chymuned Glynrhedynog a grwpiau lleol, rydyn ni wedi bod yn gweithio i sefydlu Parth Cymunedol Glynrhedynog gydag adeilad Hwb Cymunedol (yr Hwb) yn hen Ysgol Babanod Glynrhedynog. Y prif ffocws fydd helpu plant a phobl ifainc sy'n gorfod ymdopi ag anawsterau yn eu cartrefi. Mae'r Parth Cymunedol wedi'i leoli mewn adeilad Hwb Cymunedol, lle bydd lle a gwasanaethau ar gyfer y gymuned megis darpariaeth gofal plant a chysiau cyflogaeth.



Unigrwydd ac Arwahanrwydd...

gan weithio gyda phartneriaid rydyn ni wedi bod yn edrych ar ffyrdd y gallwn ni weithio gyda'n gilydd yn well i helpu cymunedau i wneud rhagor i fynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd. Mae'r gwaith hyd yn hyn yn cynnwys dod o hyd i'r gwaith da sydd eisoes yn digwydd a gweld sut y gallwn ni gefnogi rhagor o waith tebyg, gweithio gydag ysgolion i ddatblygu rhagor o gyfleoedd gwirfoddoli yn rhan o Fagloraeth Cymru a Gwobr Dug Caeredin a dechrau cynnal ffeiriau gwirfoddoli mewn ysgolion.



ASTUDIAETH ACHOS

MAE POB CAM BACH YN HELPU

Rydyn ni'n helpu i wella iechyd corfforol a deintyddol trwy leihau faint o siwgr mae ein trigolion a'n staff ni'n ei fwyta. Mae RhCT yn un o'r partneriaid ym mhartneriaeth Cwm Taf sydd wedi ymrwymo i gael gwared ar yr holl ddioddydd sydd â siwgr ychwanegol o swyddfeydd, caffis a ffreuterau, canolfannau hamdden a pheiriannau gwerthu erbyn mis Gorffennaf 2019.



Mae modd i chi weld rhagor am ein gwaith yn rhan o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf YMA

Bydd plant a phobl ifainc Rhondda Cynon Taf yn cael dechrau gwych mewn bywyd

Ymhlith pethau eraill, rydyn ni wedi...

- cynnal arolwg a siarad â'r plant a'r bobl ifainc sydd yng ngofal y Cyngor i ddarganfod yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw yn rhan o'r rhaglen 'Bright Spots'. Roedd yr adborth yn gadarnhaol ar y cyfan ond rydyn ni'n gwybod bod gyda ni ragor i'w wneud o hyd i roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i'r plant a'r bobl ifainc yma.
- cymryd camau i gynyddu a gwella'r llety sydd ar gael i blant nad oes modd iddyn nhw aros gyda'u teuluoedd eu hunain trwy roi Gwasanaeth Maethu Rhanbarthol ar waith gyda'n partneriaid yng Nghyngor Merthyr Tudful. Dechreuodd y gwasanaeth newydd ar 1 Ebrill 2019, i ddarparu 'drws ffyrnt' i ddarpar rieni maeth ar draws ardaloedd Cwm Taf.
- siarad â phobl ifainc sy'n gadael ein gofal i weld sut y gallwn ni eu paratoi'n well fel bod modd iddyn nhw gyfrannu at y cymunedau maen nhw'n byw ynddyn nhw. Dydy'r canfyddiadau manwl ddim wedi'u cwblhau eto ond o'n gwaith a'r wybodaeth sydd ar gael hyd yn hyn, dyma'r pethau sydd fwyaf tebygol o'u helpu i gael y dechrau gorau mewn bywyd
 - » sicrhau bod plant nad oes modd iddyn nhw fyw gyda'u rhieni yn byw mewn llety addas yn Rhondda Cynon Taf.
 - » datblygu llwybr llety clir ar gyfer pobl ifainc sy'n gadael ein gofal fel bydd modd iddyn nhw weld eu hopsiynau neu'u 'siwrnai'.
 - » datblygu graddfa o lety ynghyd â chefnogaeth i ddiwallu anghenion pobl ifainc sy'n gadael ein gofal.
 - » lleihau nifer y bobl ifainc sy'n gadael ein gofal sy'n cael eu rhoi mewn llety Gwely a Brecwast fel y gellir eu cefnogi mewn llety mwy addas.
 - » datblygu pecyn cymorth cynhwysfawr ar gyfer pobl sy'n gadael gofal gan gynnwys sgiliau byw'n annibynnol, llawlyfr o wybodaeth ddefnyddiol a sicrhau bod pobl ifainc yn wybodus ac yn barod i gymryd tenantiaethau.

ASTUDIAETH ACHOS

PARHAU I CHWALU'R RHWYSTRAU I DDYSGU

Trwy roi cynhyrchion misglwyf yn yr ysgolion ar draws RhCT fel y gall disgyblion benywaidd ddod i ben â'u misglwyf gydag urddas a hyder a pheidio â cholli ysgol. Ers i ni gyflwyno'r cynllun yn RhCT, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo cyllid fel bod modd i ferched ym mhob ysgol ledled Cymru gyrchu cynhyrchion a chyfleusterau priodol.



BRIGHT SPOTS



Roedd...

88%

o'r Plant a'r Bobl Ifainc yn teimlo'n ddiogel yn eu lleoliadau trwy'r amser neu'r rhan fwyaf o'r amser

80%

o'r Plant a'r Bobl Ifainc o'r farn bod eu bywydau'n gwella

90%

o'r Bobl Ifainc o'r farn bod modd iddyn nhw wneud yr un pethau a'u ffrindiau



30.6%

Roedd angen i 30.6% o'r cysylltiadau a dderbynion ni yn ymwneud â gofal plant a phobl ifainc gael ymyrraeth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol Statudol

6,209 o gysylltiadau

does dim modd i ni gymharu'r data yma â blynyddoedd blaenorol gan fod Llywodraeth Cymru wedi newid y ffordd y mae'r mesur cenedlaethol yma'n cael ei gyfrifo



674

Roedd llai o blant yng ngofal y Cyngor, sy'n golygu bod rhagor o blant wedi aros gyda'u teuluoedd 676 yn 2017-18



798

Cafodd 798 o deuluoedd gefnogaeth yn gynharach trwy'r Gwasanaeth Teuluoedd Cydnherth, gan eu helpu i ddatrys neu ymdopi'n well â'r heriau roedden nhw'n eu hwynebu

mesur newydd ar gyfer 2018-19

Mae ein cynlluniau ar gyfer 2019-20 yn cynnwys...

- cryfhau'r gefnogaeth rydyn ni'n ei rhoi i'n Rhieni Maeth, yn enwedig y rhai sy'n gofalu am blant sydd ag ymddygiad heriol.
- gwella argaeledd gwybodaeth, cyngor a chymorth i blant, pobl ifainc a theuluoedd.
- gwella opsiynau tai a chymorth i bobl agored i niwed i atal digartrefedd.


Byddwch chi'n gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth oherwydd...

- bydd rhagor o deuluoedd yn cael cymorth yn gynt. Bydd hyn yn golygu y bydd angen ymyriadau gan y Gwasanaethau Cymdeithasol Statudol ar lai o blant.
- bydd angen i lai o blant fod yng ngofal y Cyngor.


Ailgynllunio Gwasanaethau Lleol fel eu bod nhw'n integredig ac yn effeithlon

Ymhlith pethau eraill, rydyn ni wedi...

- parhau i atgyfnerthu ein cymorth i deuluoedd trwy'r Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth a'r Rhaglen Teuluoedd Cydnerth ehangach yn ogystal â gweithio'n agos gyda phartneriaid i sicrhau bod modd i ni ddod o hyd i'r plant a'r bobl ifainc sydd angen ein help fwyaf. Rydyn ni hefyd yn sicrhau bod y gefnogaeth yma'n agosach at deuluoedd ar draws RhCT yn yr Hybiau Cymunedol newydd.
- siarad â rhieni, teuluoedd a defnyddwyr gwasanaeth am sut y gallwn ni wella ein Gwasanaethau Blynnyddoedd Cynnar. Bydd y canfyddiadau yn cael eu defnyddio i lunio a llywio'r trefniadau newydd.



Ers dechrau'r rhaglen a hyd at yr adolygiad diweddaraf, llwyddodd rhagor o bobl y buon ni'n gweithio gyda nhw i leihau neu roi'r gorau i gamddefnyddio sylweddau 88.26% yn 2017-18



Dywedodd 761 o deuluoedd, sef 95.4%, eu bod nhw'n gallu ymdopi'n well â'u hanawsterau yn dilyn cyfranogiad y Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth Dangosyddion Cyflawniad newydd ar gyfer 2018-19 - Dim data cymharol

HELPU TEULUOEDD I YMDOPI...

Dywedodd teulu a oedd wedi cael cymorth gan y Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth i ymdopi ag anawsterau (gan gynnwys effaith camddefnyddio alcohol) wrthon ni

"Fydden ni ddim wedi gallw gwneud unrhyw beth heb gymorth a chefnogaeth y Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth. Rydyn ni'n gwerthfawrogi popeth maen nhw wedi'i wneud ar gyfer ein teulu a byddwn ni'n drist i'w gweld yn gadael".

TROI DALEN NEWYDD...

Dywedodd trigolyn a gafodd ei gynorthwyo gan y Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau wrthon ni

"Rwyf wedi llwyddo i gadw rheolaeth ers misoedd bellach Dydw i ddim yn teimlo mor ynysig ac yn mwynhau bod o gwmpas pobl gadarnhaol yn fawr. Am y tro cyntaf erioed rwy'n edrych ymlaen at y dyfodol!"

Mae ein cynlluniau ar gyfer 2019-20 yn cynnwys...

- atgyfnerthu'r ffordd rydyn ni'n darparu ystod o wasanaethau ar gyfer teuluoedd â phlant yn eu 'Blynnyddoedd Cynnar'.
- gwreiddio'r gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau newydd yng Nghwm Taf.
- gwella gwasanaethau Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghwm Taf.
- gweithio'n agosach gyda Heddlu De Cymru fel y gallwn ni nodi a darparu cefnogaeth gynharach ar gyfer y plant hynny sy'n wynebu profiadau niweidiol yn eu cartrefi.

Byddwch chi'n gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth oherwydd...

- bydd rhagor o bobl yn cwtogi ar gamddefnyddio sylweddau.
- bydd trefniadau newydd ar waith ar gyfer pobl sy'n dioddef Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol fel y byddan nhw'n teimlo'n fwy diogel.
- bydd modd i ragor o deuluoedd ymdopi'n well yn dilyn ymyriad gan y Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth.

Mae'r gwaith yn ein blaenoriaeth POBL yn cyfrannu at RCT a Chymru sydd



Mae rhagor o wybodaeth ar gael ynglŷn â sut y byddwn ni'n parhau â'n gwaith i 'Hyrwyddo annibyniaeth a bywydau cadarnhaol i bawb' yn ein cynllun POBL 2019-20

LLEOEDD:

Creu cymdogaethau y mae
pobl yn falch o gael byw a
gweithio ynddyn nhw



LLEOEDD

Creu cymdogaethau y mae pobl yn falch o gael byw a gweithio ynddyn nhw



Gwybodaeth allweddol am Rhondda Cynon Taf

- Fel roedd y sefyllfa yn 2017, roedd 104,032 o aelwydydd yn RhCT.
- Roedd gan 96.54% o oedolion 60+ oed docyn bws rhatach y llynedd.
- Yn 2016, gollyngodd RhCT 1,095.2 tonnall cilo o garbon deuocsid (CO₂), y prif allyriad nwyon tŷ gwydr. Mae hyn yn cyfateb i 4.6 tonnall o CO₂ i bob trigolyn.
- Mae 8 Gwobr Baner Werdd am barciau a mannau agored yn Rhondda Cynon Taf.
- Cafodd 129 o Hysbysiaidau Cosb Benodedig eu cyhoeddi ar gyfer rheoli cŵn.
- Ailgylchon ni 74,791 tonnall o wastraff yn 18/19 eleni, ac anfon 2,420 tonnall o wastraff i'r safle tirlenwi.
- Mae'r buddion iechyd i bobl sy'n byw gyda golygfa o fan gwyrdd werth hyd at £300 y pen y flwyddyn.
- Mae RhCT yn un o bedair ardal ddefniedig lle mae perygl o lifogydd yng Nghymru. Mae 11.3% o boblogaeth RhCT mewn perygl o ganlyniad i lifogydd dŵr wyneb oherwydd gormod o ddŵr glaw.
- Rydyn ni wedi dosbarthu'r eiddo o ran perygl llifogydd fel a ganlyn:
 - 7,623 - risg uchel
 - 14,182 - risg gymhedrol
 - 26,682 - risg isel
- Mae 85% o'r teithiau yng Nghymru yn cael eu gwneud mewn car, 8% ar y trên ac 8% ar fws.



Edrych i'r dyfodol

- Mae'r tueddiadau cyfredol yn awgrymu, er gwaethaf twf yn y defnydd o reilffyrdd, y bydd cerbydau preifat yn parhau i fod y prif ddull cludo yng Nghymru yn y tymor byr i ganolig o leiaf. Gallai dyfodiad disgwylid cerbydau ymreolaethol neu heb yrrwr yn y 10 i 15 mlynedd nesaf yn ei dro arwain at oblygiadau i'n systemau trafndiaeth.
- Erbyn yr 2050au amcangyfrifir y bydd tymereddau haf cyfartalog yng Nghymru yn cynyddu 1.0 - 4.6°C, bydd glaw, eira, eirlaw neu genllysg yn ystod y gaeaf ar gyfartaledd yn cynyddu 14% a bydd glaw yn ystod yr haf ar gyfartaledd yn gostwng 17%. Gall sychder a digwyddiadau llifogydd ddod yn fwy cyffredin.
- Bydd newid yn yr hinsawdd yn peri risgiau o fewn y ddwy genhedlaeth nesaf gan gynnwys llifogydd; sychder (gyda chanlyniadau ar gyfer amaethyddiaeth, ffermio a chynhyrchu bwyd); a difrod i ecosystemau a bioamrywiaeth.
- Llifogydd y mae newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol yn effeithio arnyn nhw sy'n peri'r risg hirdymor fwyaf i safon ein rhwydweithiau trafndiaeth, ein seilwaith ynni a digidol a'n cyflenwadau dŵr cyhoeddus. Gallai'r risgiau cynyddol o wres, prinder dŵr a thirlithriadau a fydd yn cael eu hachosi gan dywydd garw fod yn sylweddol hefyd.
- Bydd bioamrywiaeth a chynefinoedd Cymru dan bwysau mwy byth, gan adlewyrchu'r sefyllfa fyd-eang.

Rhoeon ni'r flaenoriaeth LLEOEDD yn ei lle oherwydd ein bod ni o'r farn bod rhaid i'r Cyngor edrych yn gadarnhaol i'r dyfodol drwy dwf ac adfywio seilwaith y Fwrdeistref Sirol, er gwaethaf caledi'r sector cyhoeddus. Mae miliynau o bunnoedd wedi cael eu buddsoddi mewn ysgolion, tai newydd, ein prif drefi a'r rhwydweithiau trafndiaeth a byddwn ni'n parhau i fuddsoddi yn y rhain. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les Economaidd, Cymdeithasol, Amgylcheddol a Diwylliannol y trigolion a'r cymunedau, gan helpu rhagor o drigolion a theuluoedd i ddod yn fwy annibynnol. Dywedodd trigolion wrthon ni fod hyn yn bwysig iddyn nhw a bod llawer i'w fwynhau a'i ddathlu am y Fwrdeistref Sirol.

Rydyn ni am helpu trigolion RhCT a'n hymwelwyr i fwrw ymlaen â'u bywydau trwy gynnal a chadw'r amgylchedd ar gyfer Bwrdeistref Sirol lewyrchus lle gallan nhw symud o gwmpas yn effeithlon ac yn ddiogel p'un a ydyn nhw'n cymudo i'r gwaith neu'n mwynhau tirwedd gyfoethog ac amrywiol RhCT i aros yn egniol ac yn iach.

Rydyn ni'n gwybod bod gan ein preswylwyr falchder yn eu cymunedau ac rydyn ni o'r farn bod rhoi dewis a phŵer i bobl leol, byddwn ni'n cael gwell canlyniadau a sicrhau gwell gwerth. Rydyn ni eisiau helpu cymunedau i wneud rhagor eu hunain a rhoi rhagor o reolaeth iddyn nhw dros wasanaethau lleol megis llyfrgelloedd a chyfleusterau diwylliannol a chymunedol eraill.

Serch hynny, byddai'n anghywir gwario mwy nag y gallwn ni ei fforddio, a throsglwyddo / neu drosglwyddo problemau ariannol i genedlaethau'r dyfodol. Mae hyn yn golygu bod rhaid i ni, felly, wneud penderfyniadau anodd a chanolbwyntio ar ein blaenoriaethau a rheoli ein cyllidebau.

Dyma'r camau rydyn ni wedi'u rhoi yn eu lle i gyflawni'r Flaenoriaeth yma

- Bydd Rhondda Cynon Taf ymhlith y lleoedd mwyaf diogel yng Nghymru, gyda lefelau uchel o gydlyniant cymunedol a thrigolion sy'n teimlo'n ddiogel
- Bydd trigolion yn parhau i werthfawrogi parciau a mannau gwyrdd Rhondda Cynon Taf
- Bydd Cymunedau ymgysylltiedig a chydnerth yn Rhondda Cynon Taf
- Bydd amgylchedd lleol Rhondda Cynon Taf yn lân ac yn ddeniadol, gyda ffyrdd a phalmentydd sy'n cael eu cynnal yn dda, traffig sy'n llifo, rhagor o ailgylchu a llai o wastraff yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi

Yn rhan o'n paratodau i roi Cynllun Corfforaethol newydd ar waith o 2020, rydyn ni'n pwyso a mesur ein cynnydd dros y tair blynedd diwethaf yn ogystal ag edrych ymlaen at weld pa heriau Cymdeithasol, Economaidd, Amgylcheddol a Diwylliannol rydyn ni'n eu hwynebu a sut y gallwn ni weithio gydag eraill yn well i atal problemau rhag digwydd fel bod ein gwaith yn cael yr effaith gadarnhaol fwyaf nawr ac yn y dyfodol.

Yn 2018, dywedon ni y bydden ni'n parhau â'n gwaith i 'Greuaethau y mae pobl yn falch o gael byw a gweithio ynddyn nhw'. Ar y cyfan, rydyn ni'n parhau i wneud cynnydd da fel Cyngor ac yn rhan o bartneriaethau ehangach ac rydyn ni wedi rhagori ar lawer o'n disgwyliadau. Mae llawer o'n mesurau tymor byr yn dangos gwelliant er ein bod ni'n gwybod bod gyda ni ragor i'w wneud o hyd i gyflawni rhai o'n cynlluniau tymor hwy ym mhob un o'r pedwar cam o fewn y flaenoriaeth yma.

O ran ein gwaith i gyflawni ein blaenoriaeth LLEOEDD rydyn ni'n adeiladu'n barhaus ar ein profiad o wneud pethau'n wahanol, yn ystyried yr hyn sydd wedi gweithio a'r hyn y mae angen i ni ei wneud yn well. Rydyn ni hefyd yn cynyddu ein dealltwriaeth o effaith y newidiadau rydyn ni'n eu gwneud ar gyfer pobl a chymunedau Rhondda Cynon Taf a rhanbarth ehangach Cwm Taf.

Mae ein gwaith o fewn blaenoriaeth LLEOEDD yn cael ei oruchwyllo gan y Cabinet, Pwyllgorau Craffu perthnasol a, lle bo hynny'n briodol, Cabinet **Prifddinas-Ranbarth Caerdydd** a **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf**.




Mae modd gweld rhagor o fanylion ynglŷn â'n cynnydd o'i gymharu â'r hyn roedden ni'n ceisio'i gyflawni yn 2018-19 yn ein **Gwerthusiad Cyflawniad - LLEOEDD**.

Cymunedau ymgysylltiedig a chydnerth yn Rhondda Cynon Taf

Ymhlith pethau eraill, rydyn ni wedi...

- symud ein rhaglen Hybiau Cymunedol yn ei blaen. Mae'r hwb newydd yn Aberpennar, **Canolfan Pennar**, bellach ar agor, mae 'HWB' Glynrhedynog bron wedi'i gwblhau, a bydd y gwaith yn hen Ganolfan Oriau Dydd Y Santes Fair yn cychwyn yn fuan. Bydd 6 Hwb arall yn eu lle dros y 2 flynedd nesaf.
- rhoi cynlluniau newydd ar waith i wella darpariaeth llyfrgelloedd mewn adeiladau llyfrgell, cerbydau llyfrgell a llyfrgelloedd digidol fel bydd modd i ni ddiwallu anghenion presennol y gymuned (a'i hanghenion yn y dyfodol hefyd) yn well.
- rhoi rhaglen Gelfyddydau amrywiol ar waith i drigolion o bob oed a chefnidir ei mwynhau. Nodon ni hefyd 80 mlynedd o Theatr y Colisëwm gyda rhaglen amrywiol o ddigwyddiadau i ddathlu'r gorffennol a'r presennol ac edrychwn ymlaen at y dyfodol trwy sefydlu Rhwydwaith Diwylliannol Cwm Cynon newydd.
- wedi siarad â rhagor o drigolion am yr hyn yr hoffon nhw ei weld yn ein rhaglen - roedd eu hadborth wedi ein helpu ni i lunio ein **Gŵyl Gelfyddydau Cwm Rhondda**.
- rhoi cynllun dyrannu tai newydd ar waith sy'n cefnogi'r angen tymor hir am dai ac sy'n cynnwys gwneud tai cymdeithasol yn fwy hygyrch.
- sefydlu'r cyllid a'r cynlluniau amlinellol ar gyfer Parc Eco Bryn Pica a fydd yn troi sbwriel yn adnoddau.



**o'r trigolion yn fodlon ar
Rondda Cynon Taf fel lle i fyw**
Yr un peth â'r llynedd



Rydyn ni hefyd yn gweithio'n rhan o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf i gyflawni'r newidiadau sydd wedi'u nodi yng Nghynllun Llesiant Cwm Taf, yn enwedig un o **Amcanion Lles Cwm Taf**, sef, Cymunedau Ffyniannus. Mae rhagor o fanylion wedi'u nodi yn ein cynllun blaenoriaeth - POBL.

Mae ein cynlluniau ar gyfer 2019-20 yn cynnwys...

- parhau i ddatblygu Hybiau Cymunedol yn Rhondda Fach (Glynrhedynog) a Plaza'r Porth.
- gwella ein trefniadau i gefnogi ein holl drigolion gan gynnwys pobl ddigartref, i ddod o hyd i lety tymor hir addas.
- parhau â'n gwaith i roi rhaglen Gelfyddydau ar waith gyda'n cymunedau ac ar eu cyfer.
- symud cam cyntaf Parc Eco Bryn Pica yn ei flaen.

Byddwch chi'n gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth oherwydd...

- bydd llai o bobl / aelwydydd yn dod yn ddigartref.
- bydd trigolion yn fodlon ar ardal Rhondda Cynon Taf fel lle i fyw ynddo.

Bydd Rhondda Cynon Taf ymhlith y lleoedd mwyaf diogel yng Nghymru, gyda lefelau uchel o gydlyniant cymunedol a thrigolion sy'n teimlo'n ddiogel

Ymhlith pethau eraill, rydyn ni wedi...

- darparu gwasanaethau a rhaglenni diogelwch cymunedol y mae trigolion yn rhan ohonyn nhw, gan gynnwys...
 - » hyrwyddo yfed yn gyfrifol yn ein cymunedau gyda 'pharthau di-alcohol' yng nghanol trefi Aberdâr a Phontypridd a'r ardaloedd cyfagos.
 - » gweithio gyda thrigolion, busnesau a'r heddlu i helpu i ddatblygu diwylliant o yfed yn synhwyrol trwy roi Partneriaeth Cynllun Gweithredu Cymunedol ar waith ar gyfer Pontypridd.
- helpu i leihau nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol yn ein cymuned drwy
 - » ddarparu hyfforddiant a chyfleoedd ymwybyddiaeth ar gyfer cerddwyr a gyrwyr o bob oed i gymryd rhan mewn rhaglenni a digwyddiadau difyr i ddysgu a deall rhagor am ddiogelwch ar y ffyrdd.
 - » cyflwyno technoleg well i atgyfnerthu gorfodi cyfyngiadau parcio y tu allan i ysgolion.



93.52%

Dydy 93.52% o'r bobl a gymerodd ran yn y rhaglen DIVERT ddim wedi aildroseddu
96.45% yn 2017-2018



17%

Mae 17% o'r trigolion yn teimlo'n annigol yng nghanol ein trefi
Dangosydd Cyflawniad newydd ar gyfer 2018-19
Dim data cymharol

ASTUDIAETH ACHOS

CLWB IEUENCTID PONTYPRIDD

Yn ein sgysiau â phobl ifainc am Gynllun Gweithredu Pontypridd, dywedodd pobl ifainc wrthon ni nad oedd digon o weithgareddau ar eu cyfer nad oedden nhw'n cynnwys alcohol. Felly sefydlon ni glwb wythnosol lle gall pobl ifainc gymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau a chymdeithasu â'u ffrindiau heb alcohol. O fis Mai 2018 mynychodd tua 33 o bobl ifainc y clwb bob wythnos. Mae'r clwb hefyd yn darparu cefnogaeth ar gyfer oedolion agored i niwed a chynghor ar sylweddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol a ffyrdd o ymdopi ag anawsterau gartref.

**RHOI TERFYN AR
YFED AR Y STRYD
CALLING TIME ON
STREET DRINKING**

www.rctcbc.gov.uk/strydoedddimalcohol
www.rctcbc.gov.uk/alcoholfreestreets



#StrydoeddDimAlcohol
#AlcoholFreeStreets



Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg / You are welcome to communicate with us in Welsh.

Mae ein cynlluniau ar gyfer 2019-20 yn cynnwys...

- defnyddio'r gwersi sydd wedi'u dysgu o roi Cynllun Gweithredu Cymunedol Pontypridd ar waith i weld sut y gallwn ni ei gymhwyso i feysydd eraill.
- codi ymwybyddiaeth o'r niwed sy'n gysylltiedig â defnyddio cyllyll a throseddau cyllyll i sicrhau ein bod ni'n cadw lefel y troseddau yma mor isel â phosibl.
- gweithio gyda phartneriaid i ddarparu ymyriadau effeithiol i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol gan gynnwys patrolau wedi'u targedu o fannau problemus a gwella gwybodaeth am y ddarpariaeth ieuencid sydd ar gael o fewn RhCT a chymryd camau i wella cefnogaeth ar gyfer pobl ifainc sy'n agored i niwed.
- parhau i amddiffyn pobl agored i niwed yn ein cymunedau rhag masnachwyr twyllodrus a throseddau carreg drws.

Byddwch chi'n gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth oherwydd...

- bydd rhagor o bobl yn teimlo'n ddiogel yng nghanol ein trefi.
- bydd dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n agored i niwed a'r rheiny sy'n dioddef dro ar ôl tro yn teimlo'n ddiogel yn dilyn ein hymyrraeth.

Bydd amgylchedd lleol Rhondda Cynon Taf yn lân ac yn ddeniadol, gyda ffyrdd a phalmentydd sy'n cael eu cynnal yn dda, traffig sy'n llifo, rhagor o ailgylchu a llai o wastraff yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi

Ymhlith pethau eraill, rydyn ni wedi...

- parhau i wella cyflwr ein ffyrdd a phriffyrdd presennol, er enghraifft, gosod wyneb newydd ar ran o'r A4059 yn Aberdâr a rhannau o system gylchu Sardis ym Mhontypridd. Rydyn ni hefyd wedi atgyweirio pontydd a waliau afonydd, ailosod troedffyrdd, rhoi mesurau diogelwch y ffyrdd newydd ar waith a chwblhau ein gwaith i ddisodli'r hen oleuadau stryd gyda rhai 'Deuod Allyrru Golau' sy'n golygu bod yr holl oleuadau stryd yn RhCT bellach yn fwy ynni-ffeithlon.
- symud cynlluniau mawr newydd yn eu blaen, er enghraifft, ffordd gyswllt ar draws y cwm yn Aberpennar, Ffordd Osgoi Llanharan, deuoli Ely Valley Road, Ffordd Liniaru Y Gelli / Treorci a Phorth Gogledd Cwm Cynon (A4059 Estyniad Ffordd Osgoi Aberdâr).
- symud cynlluniau trafndiaeth yn eu blaen a fydd yn cael eu cyfuno â darpariaeth trafndiaeth arall, er enghraifft, 10 cynllun Parcio a Theithio newydd, rhagor o fysiau sydd â lloriau isel a chynlluniau a fydd yn hyrwyddo cerdded, seiclo a defnyddio cludiant cyhoeddus.
- parhau â'n cynlluniau lliniaru llifogydd yng **Nghwmaman; Heol y Bwlfa**, Cwmdâr; **Rhydfelen, Fflatiau Cae Nant- Rhydfelen; Nant Cae-Dudwg**, Cilfynydd; **Nant Gwawr - Aberaman a Nant y Fedw**, Ynys-boeth. Rydyn ni hefyd wedi gwella'r wybodaeth sydd ar gael i drigolion fel bydd modd iddyn nhw wneud dewisiadau mwy gwybodus.
- cynnwys ysgolion a thrigolion mewn prosiectau i annog rhagor o ailgylchu gan gynnwys prosiectau cymunedol yn Ynys-y-bwl, Brynna, Ton-teg a Chwm-bach.
- parhau â'n hymgyrchoedd i atal taflu sbwriel, baeddu cŵn a thipio anghyfreithlon a gweithio gyda thrigolion a chymunedau i'w helpu i fynd i'r afael â materion lleol ond rydyn ni hefyd wedi cyhoeddi Hysbysiadau Cosb Benodedig ac hefyd wedi dwyn achos llys fel dewis olaf.




Cafodd 61.01% o'r gwastraff ei ailgylchu ychydig yn llai nag yn 2017-18 (61.31%)

Mae tunelledd ailgylchu wedi cynyddu, ynghyd â chyfanswm y gwastraff yn gyffredinol. Dim ond 1.97% o'r gwastraff a gasglon ni a gafodd ei anfon i safleoedd tirlenwi, gyda'r gwastraff gweddilliol, gan gynnwys bwyd, yn cael ei ddefnyddio i gynhyrchu ynni.



Cafodd llai o Hysbysiadau Cosb Benodedig eu cyhoeddi 170 yn 2017-18

Arwydd bod rhagor o drigolion yn awyddus i gadw eu cymunedau'n lân. Cafodd y mwyafrif o hysbysiadau eu cyhoeddi ar gyfer baeddu cŵn, yn enwedig ar leiniau chwaraeon.



Cynnal safonau uchel o gadw RhCT yn lân 99.4% yn 2017-18



Mae ein cynlluniau ar gyfer 2019-20 yn cynnwys...

- parhau i wella cyflwr ein ffyrdd a'n priffyrdd.
- parhau i symud cynlluniau pwysig yn eu blaenau a fydd o fudd i gymunedau heddiw ac yn y dyfodol.
- datblygu cynlluniau trafndiaeth a fydd yn cael eu cyfuno â darpariaeth trafndiaeth arall, gan gynnwys teithio llesol.
- cwblhau ein hadolygiad cychwynnol o'r seilwaith sydd ei angen ar gyfer cerbydau carbon isel.
- parhau i weithio gyda phartneriaid gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, i atal perygl llifogydd.
- parhau i gynnwys trigolion yn y cynlluniau i gynyddu faint sy'n cael ei ailgylchu.
- cymryd camau i atal troseddau amgylcheddol trwy addysg, ymgysylltu ac fel dewis olaf, camau gorfodi.

Byddwch chi'n gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth oherwydd...

- bydd mwy o'n gwastraff yn cael ei ailgylchu.
- bydd llai o hysbysiadau cosb benodedig yn cael eu rhoi.
- bydd cyflwr ein ffyrdd yn parhau i wella.

Bydd trigolion yn parhau i werthfawrogi parciau a mannau gwyrdd Rhondda Cynon Taf

Yn dilyn ceisiadau llwyddiannus am gyllid, rydyn ni'n parhau i ddatblygu a gwella ein parciau a'n mannau agored a hefyd helpu i gefnogi gweithgareddau gwirfoddoli, gyda chynlluniau ar waith ar gyfer 2019.

Ymhlith pethau eraill:

- Mae'r grŵp newydd 'Cyfeillion Parc Coffa Ynysangharad' wedi bod yn rhan o lawer o weithgareddau a digwyddiadau cymunedol.
- Cafodd Parc Treftadaeth Cwm Rhondda ei gydnabod fel y 'Lleoliad Teuluol y Flwyddyn' yng Ngwobrau Lletygarwch Cymru a chafodd wobwr am fod yn lle addas i'r sawl sydd ag Awtistiaeth a chyflawni statws Amgueddfa swyddogol.
- Gwelodd Parc Aberdâr welliannau i'w ardal chwarae, ffynnon Siôr V ac arwyneb newydd ar gyfer y Ras Ffordd. Mae achlysuron rhedeg (Parkruns) wedi cael eu cyflwyno a chafodd y parc ei wobwr 'Baner Werdd' gyntaf.
- Mae wyth o'n parciau wedi cael 'Gwobr Baner Werdd' gan gynnwys Ynysangharad, Ffynnon Taf, Aberdâr a Pharc Gwledig Cwm Dâr. Mae'r wobwr ryngwladol yma'n cydnabod safonau uchel ein parciau a'n lleoedd gwyrdd, awyr agored.
- Gwellon ni ein defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol i roi gwybod i'n trigolion am achlysuron a gweithgareddau.

ASTUDIAETH ACHOS

MAE PARC COFFA RHYFEL YNYSANGHARAD

wedi gweld 50 o wirfoddolwyr ar ei raglen Gwirfoddoli, sydd wedi rhoi 1,650 awr o'u hamser i gefnogi datblygiadau cymunedol, er enghraifft, Pabiau yn y Parc, gwely blodau cymunedol ysgolion, gardd lysiau, Taith Gerdded Ystlumod a rhaglenni Ymwybyddiaeth Ofalgar.



80.7%



Mae 80.7% o'n trigolion yn fodlon ar ein parciau a'n mannau agored 86% yn 2017-18

Rydyn ni'n parhau â'n buddsoddiad mewn parciau a mannau agored i'w gwneud yn fwy deniadol a hygyrch i'n holl drigolion



Mae ein cynlluniau ar gyfer 2019-20 yn cynnwys...

- cymryd camau i wneud RhCT yn fwy 'Gwyrdd' gan gynnwys rhagor o fuddsoddi yn ein parciau a'n mannau gwyrdd, plannu coed a lleihau llygredd aer.
- nodi ffyrdd o wella ansawdd aer mwy byth ar draws Rhondda Cynon Taf.
- ystyried effaith y gostyngiad cyflymder ar yr A470 ar ansawdd yr aer yn yr ardaloedd cyfagos.
- parhau i fuddsoddi mewn cyfleusterau chwarae awyr agored.
- symud cynlluniau yn eu blaenau i gysylltu Parciau ar draws rhanbarth y Cymoedd yn rhan o gynllun 'Pyrth Darganfod Parciau Rhanbarthol y Cymoedd' Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn cysylltu'r Cymoedd fel rhanbarth, adrodd straeon ei threftadaeth ddiwylliannol a diwydiannol gyfoethog, ac annog pobl i fod yn fwy egniol a chrwydro tirweddau'r Cymoedd.

Byddwch chi'n gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth oherwydd...

- bydd ein parciau yn cynnal eu statws 'Baner Werdd'.
- bydd trigolion yn fodlon ar ein parciau a'n mannau agored.
- bydd ansawdd yr aer wedi gwella.

Mae'r gwaith yn ein blaenoriaeth LLE yn cyfrannu at RCT a Chymru sydd

yn Ffyniannus	yn Gydnerth	lachach	yn fwy Cyfartal	â Chymunedau Cydlynus	â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	yn Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang
✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ynglŷn â sut y byddwn ni'n parhau â'n gwaith i "Greu cymdogaethau y mae pobl yn falch o gael byw a gweithio ynddyn nhw" cynllun LLEOEDD 2019-20

CYLLIDEB:

Gwneud y defnydd
gorau o'n cyllideb -
Torri'r gôt yn ôl y brethyn



CYLLIDEB

Gwneud y defnydd gorau o'n cyllideb - Torri'r gôt yn ôl y brethyn

Mae Rhondda Cynon Taf, fel pob Cyngor yng Nghymru, wedi wynebu cyfnod hir o weithredu gyda llai o adnoddau yn ogystal â galw a chostau cynyddol sy'n gysylltiedig â llawer o wasanaethau. Er gwaethaf yr hinsawdd heriol yma, rydyn ni wedi cyflawni dros £90 miliwn mewn arbedion effeithlonrwydd dros y 10 mlynedd diwethaf ac wedi cyflawni hyn trwy reoli ein cyllid yn ofalus a blaenoriaethu buddsoddiad, cynllunio ymlaen llaw a newid sut rydyn ni'n gweithio.

Fel rhan o bennu cyllideb 2019-20, ystyrion ni ofynion gwariant megis gofynion gwasanaeth newidiol a chwyddiant ar oddeutu +2.2%, ynghyd â'r arian y bydden ni'n ei dderbyn o'n prif ffynhonnell ariannu, sef Llywodraeth Cymru, o +0.8%. Roedd hyn yn golygu bod angen i ni wneud arbedion o £6.9 miliwn, a hynny ar ben y £7 miliwn o arbedion a oedd wedi'u cytuno eisoes. Llwyddon ni i wneud yr arbedion yma trwy, er enghraifft, ddod yn fwy effeithlon o ran sut rydyn ni'n prynu nwyddau a gwasanaethau, gan leihau nifer yr uwch reolwyr a chostau llety swyddfa a hefyd trwy ddefnyddio grantiau untro penodol. Yn rhan o bennu'r gyllideb, cytunwyd ar gynnydd yn Nhreth y Cyngor o 3.6%, y cynnydd isaf yng Nghymru am yr ail flwyddyn yn olynol. Mae modd gweld rhagor o fanylion am ein cyllideb refeniw 2019-20 o £483.469 miliwn yma.

Yn rhan o'n blaen gynllunio, rydyn ni wedi amcangyfrif y bydd angen i ni arbed hyd at tua £43 miliwn (yn ôl dogfen Cynllunio Ariannol Tymor Canolig - Gorffennaf 2018) erbyn 2021 er mwyn mynd i'r afael â gostyngiadau parhaus yng nghyllid y llywodraeth a'r galw cynyddol am wasanaethau, yn enwedig ym maes gofal cymdeithasol. Rydyn ni'n gwybod y bydd yn anoddach i wneud arbedion flwyddyn ar ôl blwyddyn yn y dyfodol. Felly, dyma pam rydyn ni'n parhau â'n dull o archwilio pob rhan o gyllideb y Cyngor ochr yn ochr â rhaglen o fuddsoddiad sylweddol mewn gwasanaethau allweddol.

Mae ein gwaith a'n buddsoddiad yn parhau i ganolbwyntio ar y canlynol:

- Ymyriadau cynnar a gwaith ataliol mewn ystod eang o feysydd er mwyn gwella bywydau trigolion. Mae hyn yn cynnwys ein Gwasanaeth Blynnyddoedd Cynnar a Chymorth i Deuluoedd, Rhaglen Teuluoedd Cydnherth a'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid.
- Cadw oedolion yn annibynnol, trwy, er enghraifft, weithio gyda phartneriaid i ddarparu'r gwasanaeth rhanbarthol Aros yn Iach Gartref, gan ddarparu addasiadau i'r cartref, cefnogaeth i gynhalwyr a chynnwys trigolion hefyd wrth lunio gofal cymdeithasol dros y tymor hwy mewn meysydd megis darpariaeth Gofal Ychwanegol.
- Ei gwneud hi'n bosibl defnyddio eiddo gwag unwaith eto er mwyn cefnogi darparu tai o safon uchel ac i greu incwm o Dreth y Cyngor.
- Cynnig rhagor o wasanaethau ar-lein megis cyflwyno cais am drwyddedau Tacsî, cynnwys cwsmeriaid wrth ddylunio gwasanaethau a pharhau i ddefnyddio technoleg ddigidol i foderneiddio sut mae'r Cyngor yn gweithio.
- Meddwl yn y tymor hwy a buddsoddi yn y dyfodol trwy wella'r seilwaith priffyrdd i leihau costau cynnal a chadw parhaus a chynlluniau effeithlonrwydd ynni buddsoddi-i-arbed sy'n lleihau'r defnydd o ynni yn adeiladau'r Cyngor.

Yn cyd-fynd â hyn, rydyn ni'n buddsoddi £173 miliwn yn rhan o'n rhaglen gyfalaf 3 blynedd ar gyfer 2019-20 - 2021-22 mewn ardaloedd o flaenoriaeth i wella'r seilwaith a'r cyfleusterau sydd ar gael i drigolion ymhellach. Mae'r rhain yn cynnwys prosiectau adfywio, gwella adeiladau a chyfleusterau'r ysgolion, gwella cyflwr y ffyrdd a'r asedau yn y gymuned megis parciau a mannau chwarae yn ogystal â rhagor o fuddsoddi yng nghyfleusterau'r Canolfannau Hamdden. Byddwn ni'n parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid dros y cyfnod yma i sicrhau ein bod ni'n gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau ac yn manteisio ar bob cyfle i ddenu unrhyw gyllid ychwanegol a fydd ar gael yn y dyfodol.

Mae Rhondda Cynon Taf hefyd yn awdurdod lleol sy'n aelod o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ac yn chwarae rhan ganolog wrth gyflawni cynllun cyffrous ac uchelgeisiol i wella economi De Ddwyrain Cymru dros y 10 mlynedd nesaf.



EIN GWAITH:

10

Themâu pwysig sy'n
sail i'n gwaith



Themau pwysig sy'n sail i'n gwaith

GWEITHIO NAWR ER LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i wella lles cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol ei drigolion. Mae'r gyfraith newydd yma'n gofyn i bob Cyngor a llawer o gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru i newid yr hyn maen nhw'n ei wneud a sut maen nhw'n cynnal busnes fel y gallan nhw wneud gwelliannau.

Rydyn ni am sicrhau ein bod ni'n gwreiddio'r Ddeddf ym mhopeth rydyn ni'n ei wneud. Mae hyn yn golygu ein bod ni'n gweithio'n galed gyflawni ein blaenoriaethau, sef Economi, Pobl a Lleoedd. Trwy'r holl wasanaethau, rydyn ni'n mynd ati i wneud y canlynol:

- cydbwysu'r anghenion tymor byr â chynllunio ar gyfer y dyfodol.
- gweithio gyda phartneriaid eraill i gyflawni amcanion.
- cynnwys pobl eraill sydd â buddiant a cheisio eu barn.
- defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu.
- cymharu effaith ein gwaith ag effaith cyrff a sefydliadau cyhoeddus eraill.

Mae modd i chi weld rhagor o enghreifftiau o sut rydyn ni'n gwneud hyn drwy gydol yr adroddiad yma ond rydyn ni'n gwybod bod rhagor i'w wneud i sicrhau ein bod ni'n gwneud popeth mae'r Ddeddf yn gofyn amdano. Rydyn ni o'r farn bod modd i ni wneud hyn orau drwy sicrhau ei fod yn rhan o'n gwaith bob dydd ac nid ar wahân iddo.

Mae'r Ddeddf hefyd yn golygu bod angen i ni ystyried y gwasanaethau hynny sydd y tu ôl i'r llenni, a gwneud unrhyw newidiadau sy'n angenrheidiol fel eu bod nhw hefyd yn gweithio mewn ffordd sy'n helpu'r Cyngor i lwyddo yn ei gynlluniau. Ers i'n Cynllun Corfforaethol gael ei gyflwyno yn 2016, rydyn ni wedi gwneud cynnydd da o ran sicrhau bod y gwasanaethau yma'n gweithio'n dda. O ystyried uchelgais y Cyngor a chyflymder y newid sy'n ofynnol i gyflawni ein blaenoriaethau, mae lefel y cynnydd wrth weithredu'r Ddeddf yn gadarnhaol ar y cyfan. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu ym mhob adran o'r adroddiad yma ond rydyn ni wedi defnyddio'r Ddeddf i weld lle y gallwn ni wneud yn well, ac wedi defnyddio adnoddau sy'n cael eu datblygu gan **Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol** i ddarparu cefnogaeth a her berthnasol wrth i ni barhau i wreiddio'r Ddeddf yn nhrefniadau a phrosesau'r Cyngor.

Llesiant
Cenedlaethau'r
Dyfodol
Thema
Gorfforaethol

CYNNYDD RHCT

CYNLLUNIO CORFFORAE THOL

Cafodd y blaenoriaethau yn ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2016-20, 'Y Ffordd Ymlaen' eu profi yn erbyn y Ddeddf yn 2017 a'u mabwysiadu'n amcanion Llesiant y Cyngor. Ers hynny, rydyn ni wedi cynyddu ein dealltwriaeth a'n cymhwysiad o'r Ddeddf ac mae'n cael ei defnyddio i lunio ein prosesau cyflawni, monitro a chynllunio, ymhlith pethau eraill. Mae ein hasesiadau corfforaethol a gwasanaeth blynyddol yn cynnwys adolygiad o sut rydyn ni'n rhoi'r Ddeddf ar waith ar draws y Cyngor cyfan. Rydyn ni nawr yn dechrau'r gwaith o adnewyddu ein Cynllun Corfforaethol. Bydd y Cynllun newydd, a fydd ar waith o 2020, yn nodi'r hyn sydd bwysicaf i'n trigolion a'n cymunedau, y cyfeiriad ar gyfer holl wasanaethau'r Cyngor nawr ac yn y dyfodol a hefyd yr hyn y byddwn ni'n ei wneud i gyrraedd yno.

CYNLLUNIO ARIANNOL

Rydyn ni'n gwario'n cyllidebau ar yr hyn sydd bwysicaf i drigolion a chymunedau ac yn dod o hyd i ffyrdd o weithio sy'n fwy effeithlon, o weithio'n well gyda phartneriaid a rhannu ein hadnoddau.

CYNLLUNIO' R GWEITHLU

Rydyn ni'n hyfforddi ein staff fel eu bod yn parhau â'u datblygiad personol ac yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y sgiliau sydd eu hangen arnyn nhw i helpu'r Cyngor i wella. Rydyn ni o'r farn bod lles corfforol a meddyliol ein staff yn allweddol i weithlu llawn cymhelliant ac yn sicrhau ein bod ni'n eu cefnogi cystal ag y bo modd. Rydyn ni hefyd yn edrych i'r dyfodol, er enghraifft, gyda'n cynllun graddedigion a'n rhaglen brentisiaeth a enillodd wobwr yng **Ngwobrau Prentisiaeth Cenedlaethol Cymru yn 2018**. Rydyn ni am sicrhau bod ein trigolion hefyd yn gallu datblygu eu sgiliau fel y gallan nhw fanteisio ar gyfleoedd gwaith a digidol felly rydyn ni hefyd yn sefydlu gweithgareddau i'w helpu, er enghraifft, Dydd Gwener Digidol, cyfleoedd i gymryd rhan mewn prosiectau rhwng cenedlaethau a'u cefnogi i gynnal gwasanaethau a chyfleusterau yn rhan o **'RhCT Gyda'n Gilydd'**.

CAFFAEL

Rydyn ni'n sicrhau bod unrhyw beth rydyn ni'n ei brynu i'r Cyngor yn rhoi gwerth am arian, o fudd i gymdeithas ac yn cael cyn lleied o effaith â phosibl ar yr amgylchedd. Rydyn ni hefyd yn sicrhau bod ein polisïau yn ystyried cyfrifoldebau cymdeithasol eraill, er enghraifft, hyrwyddo gwrth-gaethwasiaeth, defnyddio cynhyrchion Masnach Deg a phrynu trydan sy'n cael ei gynhyrchu o ffynonellau ynni sydd 100% yn adnewyddadwy. Mae'r trefniadau rydyn ni wedi'u rhoi ar waith gyda'n prif gontractwyr wedi darparu swyddi ar gyfer dros 100 o bobl.

RHEOLI EIN HASEDAU

Rydyn ni'n sicrhau ein bod ni'n gwneud y defnydd gorau o'n hadeiladau er budd ein trigolion a'n cymunedau, er enghraifft, defnydd cymunedol o'n hysgolion, a hefyd yn darparu'r offer sydd eu hangen ar staff fel y gallan nhw dreulio rhagor o amser gyda thrigolion, cymunedau a busnesau. Rydyn ni'n rhannu gofod swyddfa gyda sefydliadau eraill lle mae'n gwneud synnwyr i wneud hynny, er enghraifft, mae Plaza'r Porth yn cynnwys llyfrgell, cyfleusterau gofal plant, busnesau hyfforddi preifat a'n canolfan IBobUn. Rydyn ni hefyd yn gweithio gyda phartneriaid yn y Sector Cyhoeddus i weld sut y gallwn ni wella gwasanaethau, gwneud gwell defnydd o adeiladau'r holl bartneriaid a lleihau costau o ganlyniad. Mae'r holl waith yma hefyd yn ystyried ein hymgyrch i ddarparu gwasanaeth cwbl ddi-garbon.

RHEOLI RISGIAU

Rydyn ni'n nodi risgiau tymor byr, canolig a hir y bydd angen eu lliniaru er mwyn ein helpu i gyflawni ein Blaenoriaethau Corfforaethol.

RHEOLI EIN CYFLAWNIAD

Rydyn ni'n darparu gwybodaeth am yr hyn rydyn ni'n ei wneud, a pha mor dda rydyn ni'n ei wneud e, ar ein gwefan. Mae'r adroddiad yma yn un o'r ffyrdd rydyn ni'n gwneud yr wybodaeth yma'n fwy hygyrch i bobl, cymunedau a'n partneriaid. Rydyn ni'n gwneud yn siŵr bod popeth rydyn ni'n ei wneud yn canolbwyntio ar y pethau mae pobl wedi dweud wrthon ni sy'n bwysig iddyn nhw ac yn ymgysylltu â rhagor o'n trigolion yn y penderfyniadau sy'n effeithio arny'n nhw. Rydyn ni am roi trefniadau gwell ar waith ar gyfer rhannu data perthnasol gyda'n partneriaid i'n helpu i wella'r holl wasanaethau cyhoeddus yn RhCT a hefyd atgyfnerthu'r wybodaeth sydd ar gael gennyn ni. Rydyn ni hefyd yn gweithio gyda Data Cymru i wella mynediad at ystod ehangach o wybodaeth gyson, amserol a pherthnasol am dueddiadau'r dyfodol a fydd yn ein helpu i baratoi'n well ar gyfer y tymor hwy.

Rydyn ni'n gwybod bod rhagor i'w wneud bob amser wrth i ni gynllunio ar gyfer cyflymder a graddfa'r newidiadau sy'n wynebu'r Cyngor a phob corff cyhoeddus yng Nghymru a dal yn gyfwasad â nhw. Rydyn ni'n parhau i holi pam, beth a sut rydyn ni'n gwneud yr hyn rydyn ni'n ei wneud fel bydd modd i ni wneud newidiadau a fydd o fudd i bobl a chymunedau Rhondda Cynon Taf, yn awr ac yn y dyfodol.

Yn 2018, edrychom ni ar sut roedden ni'n cymhwyso'r Ddeddf yn rhan o'r ffordd rydyn ni'n adolygu ein gwasanaethau i weld beth allwn ni ei wella neu ei wneud yn wahanol. Gwelom ni fod gyda ni lwyfan cadarnhaol i adeiladu ohono ond roedd rhai meysydd o'n gwaith yn symud ymlaen yn gyflymach nag eraill. Fe ddefnyddion ni 'Wiriwr Siwrnai' y Comisiynydd i'n helpu ni i graffu ar ein cynnydd hyd yn hyn. Mae'n anodd cymhwyso'r Gwiriwr ar draws y camau niferus ac amrywiol sy'n gysylltiedig â chyflawni ein hamcanion, ond ar y cyfan, er y gallwn ni dynnu sylw at enghreifftiau lle rydyn ni'n "Arwain y Ffordd", er enghraifft, y gwasanaeth Aros yn Iach Gartref, rydyn ni hefyd yn gwybod bod rhagor gyda ni i'w wneud.

Dros y flwyddyn nesaf, fe fyddwn ni'n

1. defnyddio cyngor, arweiniad ac adborth gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Swyddfa Archwilio Cymru ac arfer gorau i barhau i wreiddio'r Ddeddf yn ein gwaith.
2. defnyddio'r hyn rydyn ni'n ei ddysgu o'n prosiectau peilot ein hunain i wella ein trefniadau ymhellach.
3. parhau i weithio gyda chyrrff cenedlaethol, er enghraifft, Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol fel y gallwn ni wella sut rydyn ni'n cyfuno'r gwahanol bolisiau cenedlaethol y mae angen i ni eu rhoi ar waith.
4. gweithio gyda phartneriaid cenedlaethol i ddod o hyd i wybodaeth fwy cadarn a chyswrt am y dyfodol a fydd yn ein helpu i wella ein cynlluniau tymor hir.
5. parhau i gyfrannu'n gadarnhaol at Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf a'i gefnogi yn enwedig wrth weithio ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae modd i chi weld rhagor o fanylion ynglŷn â sut rydyn ni'n cymhwyso'r Ddeddf yn ein Hasesiad Corfforaethol YMA.

Rydyn ni'n gwybod nad oes modd i ni wneud popeth ein hunain ac mae gyda ni hanes da o weithio gydag eraill. O bartneriaethau adnabyddus fel Bargaen Ddinesig Prifddinas-ranbarth Caerdydd i bartneriaethau llai, gallwch chi weld rhai enghreifftiau o sut a ble rydyn ni'n gwneud hyn yma. Mae llawer o enghreifftiau bob dydd eraill hefyd o ble rydyn ni'n siarad â chyrrff cyhoeddus eraill ac yn gweithio gyda nhw er mwyn i ni allu goresgyn anawsterau lleol cyffredin yn haws. Rydyn ni hefyd yn gweithio gyda grwpiau cymunedol lleol (ac ochr yn ochr â nhw) i roi cefnogaeth uniongyrchol i drigolion a chymunedau i gyflawni pethau yn eu cymunedau, er enghraifft, drwy ein rhaglen 'RhCT Gyda'n Gilydd', gan eu cefnogi i baratoi cynigion cymunedol ar gyfer cyllid Llywodraeth Cymru.

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i weithio mewn partneriaeth fwy ffurfiol gyda chyrrff cyhoeddus eraill mewn Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae hyn yn golygu bod rhaid iddyn nhw weithio'n rhan o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a darganfod sut y gallan nhw wneud y gwahaniaeth mwyaf i bobl a chymunedau drwy weithio'n well gyda'i gilydd.

Gan fod RhCT yn gweithio gyda llawer o'r un cyrrff cyhoeddus â Chyngor Merthyr Tudful, er enghraifft, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Heddlu De Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, yn 2016, cytunon ni i uno i ffurfio Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y cyd, sef, **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf**.

Nododd y Bwrdd yma sut y byddai'n cydweithio i wella lles ardal Cwm Taf yn y pedwar Amcan Llesiant sydd wedi'u nodi'n fwy manwl yn y **Cynllun Llesiant** a gafodd ei gyhoeddi yn 2018. Dyma'r pedwar Amcan Llesiant ar gyfer Cwm Taf

CYMUNEDAU SY'N FFYNNU:

sy'n hyrwyddo cymunedau diogel, hyderus, cydnherth a ffyniannus i wella llesiant trigolion a'r ymwelwyr ac adeiladu ar ein hasedau yn y gymuned.

POBL IACHUS:

helpu pobl i fyw bywyd hir ac iach a goresgyn unrhyw heriau.

ECONOMI GREF:

adeiladu economi leol gref gyda thrafnidiaeth gynaliadwy sy'n denu pobl i fyw, gweithio a chwarae yn ardal Cwm Taf.

MYND I'R AFAEL AG UNIGRWYDD AC ARWAHANRWYDD:

dod o hyd i ffyrdd newydd o sianelu cryfderau diamheuol ein cymunedau, gan gynnwys gwirfoddoli i fynd i'r afael yn fwy effeithiol â'r unigrwydd a'r arwahanrwydd sy'n aml yn bodoli o fewn llawer ohonyn nhw.

Y Cyngor yw'r partner arweiniol ar gyfer yr amcan Cymunedau sy'n Ffynnu ac mae hefyd yn cymryd rhan weithredol yn y tri Amcan Llesiant arall. Mae modd i chi weld rhagor o wybodaeth am waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'i gynydd ar ei **wefan**. Mae'r ffordd rydyn ni'n gweithio gyda'n partneriaid Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cael ei disgrifio drwy gydol yr adroddiad yma.

Yn ogystal â chydweithio i fynd i'r afael â'r materion mawr yng Nghwm Taf, roedd y Bwrdd hefyd eisiau gosod esiampl gyflym a chadarnhaol o sut y byddai modd i bartneriaid gefnogi trigolion i wella eu hiechyd. Gan gydnabod y nifer uchel o staff sy'n gweithio i holl bartneriaid y Bwrdd sydd hefyd yn byw yn ardal Cwm Taf, mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cytuno i ddisodli'r holl ddiodydd sydd â siwgr ychwanegol ar draws yr holl sefydliadau partner. Mae modd gweld rhagor am hyn yn y flaenoriaeth Pobl.

Mae'r Bwrdd hefyd yn edrych ar sut bydd trosglwyddo gwasanaethau Gofal Iechyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf i ffurfio'r **Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg** newydd yn effeithio ar y trefniadau partneriaeth sydd ar waith a darparu rhagor o gyfleoedd i gydweithio â Chyngor Pen-y-bont ar Ogwr.

Bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cyhoeddi ei **adroddiad blynyddol cyntaf ym mis Gorffennaf 2019**.

Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd wedi nodi chwe maes gwaith sy'n cynrychioli'r heriau mwyaf sy'n wynebu Cymru yn ôl y bobl. Gall gweithio ar y meysydd yma gael yr effaith fwyaf.

Dyma'r meysydd:

- 1 Sgiliau**
Mae ein gwaith yn cynnwys rhoi llwybr cyfogaeth ar waith sy'n cefnogi pobl i ddatblygu eu sgiliau yn unol ag anghenion cyflogwyr lleol.
- 2 Tai**
Mae ein gwaith yn cynnwys rhoi tai newydd ar waith, ei gwneud hi'n bosibl byw yn yr eiddo sydd wedi bod yn wag unwaith eto a rhoi'r cyfle i'n holl drigolion i fyw bywydau diogel ac annibynnol mewn llety pwrpasol.
- 3 Trafnidiaeth**
Mae ein gwaith yn cynnwys rhoi llwybrau teithio llesol ar waith a hefyd greu system drafnidiaeth gynaliadwy a hygyrch i bawb trwy fuddsoddi mewn cludiant cyhoeddus yn rhan o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ogystal ag ystyried y gofynion o ran seilwaith ar gyfer cerbydau trydan.
- 4 Cynllunio**
Mae ein gwaith yn cynnwys sut y bydd modd defnyddio proses o gynllunio i greu'r lleoedd, cymunedau a seilwaith cywir ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. **Bydd sicrhau bod cyfleusterau di-wifr ar gael yng Nghanol y Trefi yn helpu cefnogi busnes y stryd fawr.**
- 5 Profiadau niweidiol mewn plentyndod**
Mae ein gwaith yn cynnwys helpu plant a phobl ifainc a'u teuluoedd i ymdopi â'r anawsterau maen nhw'n eu hwynebu drwy, er enghraifft, ein Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth, a darparu cyfleoedd gwaith ar gyfer pobl ifainc sy'n gadael gofal.
- 6 Ffyrdd gwell o gadw pobl yn iach**
Mae ein gwaith yn cynnwys helpu i gynyddu gwynnwch pobl ifainc trwy'r Celfyddydau ac annog gwirfoddoli yn ffyrdd o gadw'n iach.

Dyna rai o'r ffyrdd rydyn ni eisoes yn mynd i'r afael â'r meysydd gwaith y mae'r Comisiynydd wedi'u nodi. Fe welwch ragor o fanylion wedi'u cynnwys yn ein cynnydd hyd yma a'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol drwy gydol yr adroddiad yma.

Mae modd i chi nodi'ch meddyliau a'ch profiadau ar flaenoriaethau'r Comisiynydd ar **Lwyfan y Bobl**.

CYDRADDOLDEB RHCT TEG A CHYFARTAL A CHYMRU SY'N FWY CYFARTAL



Poblogaeth RhCT (Amcangyfrif Canol Blwyddyn 2017)

CYFANSWM **239,127**

Gwrywod 49% **117,201**

Benywod 51% **121,926**

YSTOD OEDRAN

0-15	16-64	65+
18.7%	62.3%	19%

DATA STAFF RHCT (Mawrth 2018)

Fel y nodwyd yn Adroddiad Cydraddoldeb 2019
mae dros 80% o'r gweithwyr yn byw yn ardal y Cyngor

CYFANSWM **10,491**

Gwryw **25.4%**

Benyw **74.6%**

Oedran	Cyfanswm	% y Gweithlu
16-24	746	7.0%
25-34	1,986	18.7%
35-44	2,557	24.0%
45-54	3,213	30.2%
55-64	1,894	17.8%
65+	245	2.3%

*Mae modd dod o hyd i wybodaeth fanylach am y gweithlu yn yr **adroddiad monitro** cydraddoldeb blyneddol i'r Cabinet 19 Mawrth 2019.*

Mae **Mynegai Lleoedd Ffyniannus Cymru** ar gyfer **Cydraddoldeb** yn mesur anghydraddoldebau mewn lechyd, Incwm a Lles. Mae data 2019 yn rhoi sgôr o 4.60 i ardal RhCT. Mae'r mesur yn cynnwys llawer o wasanaethau a darparwyr gwahanol ar lefel leol, ranbarthol, genedlaethol a rhyngwladol ac wedi gostwng o 5.26 ers ei gyflwyno yn 2018.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydyn ni wedi cynnal ein cynnydd da tuag at RhCT teg a chyfartal ac mae modd i ni dynnu sylw at lawer o enghreifftiau cadarnhaol o hyn drwy gydol yr adroddiad yma yn ogystal ag yn ein Hadroddiad Cydraddoldeb blynyddol a gafodd ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Mawrth 2019.

Ymhlith yr enghreifftiau mae helpu plant a phobl ifainc 0-25 oed sydd, o ganlyniad i'w hamgylchiadau personol neu deuluol, angen cymorth i gael mynediad at a / neu gymryd rhan mewn cyfleoedd chwarae a gweithgareddau ieuencid ac ymestyn y **Gwasanaeth Llyfrgell Gartref** fel bod pobl â salwch tymor hir, problemau symudedd neu sy'n gynhalwyr amser llawn hefyd yn gallu cael mynediad at lyfrau fel rhan o'r Gwasanaeth Llyfrgell Gartref.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydyn ni hefyd wedi rhoi ein **Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ar waith ar gyfer 2019-22** sy'n nodi ein rhaglen waith fanwl gyda ffocws ar bum maes allweddol y dywedodd ein trigolion wrthon ni oedd bwysicaf iddyn nhw.

- â dealltwriaeth well o anghenion ein cymunedau a'r rhwystrau maen nhw'n eu hwynebu sy'n eu hatal rhag ffynnu.
- lleihau'r anghydraddoldebau sy'n bodoli yn ein cymunedau.
- hyrwyddo cymunedau diogel.
- lleihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn y Cyngor.
- creu gweithlu cynhwysol o fewn y Cyngor sy'n cynrychioli'r gwahaniaethau yn ein cymunedau.

Mae'r cynllun yma'n adlewyrchu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn benodol yn ein helpu i ddangos sut rydyn ni'n cyfrannu at **Gymru sy'n fwy cyfartal** - cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau.

Yn y cyfamser, rydyn ni wedi parhau i wneud y canlynol

- mynd i'r afael â throeddau casineb a gwella'r gwaith o fonitro effaith ein gwaith fel y gall Grŵp Cydlyniant Cymunedol Cwm Taf graffu'n gadarn arno.
- annog rheolwyr gwasanaethau i ddeall cwsmeriaid yn well trwy gasglu data monitro cydraddoldeb a sicrhau bod amrywiaeth yn cael ei chynrychioli wrth wneud penderfyniadau.
- darparu ymwybyddiaeth am ein rhwydweithiau gweithwyr a chynyddu eu haelodaeth.
- parhau i weithredu cynllun gweithredu Menywod yn Ychwanegu Gwerth at yr Economi ('WAVE') gyda phrosiect penodol sy'n gofyn a yw rhwystrau'n bodoli o ran datblygiad gyrfa i fenywod hŷn yn y sefydliad.
- parhau i fynd i'r afael â stigma lechyd Meddwl trwy ein hymrwymiad i Addewid 'Amser i Newid' Cymru.
- annog aelodaeth newydd i'r Fforwm Anabledd i sicrhau ei fod yn adlewyrchu ein cymunedau amrywiol yn Rhondda Cynon Taf.
- cynyddu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'n gweithlu.



Mynd i'r afael â throeddau casineb a gwella'r gwaith o fonitro effaith ein gwaith fel y gall Grŵp Cydlyniant Cymunedol Cwm Taf graffu'n gadarn arno

Ymhlith pethau eraill, rydyn ni wedi canolbwyntio ar Ymyrraeth Gynnar, Addysg a Hyfforddiant

Gyda disgyblion yn ysgolion RhCT

Gweithio gyda 45 o ysgolion i ddarparu hyfforddiant ar gyfer disgyblion i godi eu hymwybyddiaeth o Droseddau Casineb a sut i'w hadrodd gyda'r nod o gynyddu cynhwysiant a lleihau gwahaniaethau ac anghydraddoldeb mewn ysgolion. Derbyniodd 2,200 o ddisgyblion yr hyfforddiant a oedd yn edrych ar bum nodwedd sydd wedi'u diffinio yn Neddf Trosedd ac Anhrefn 1998 a Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003, a helpodd i annog trafodaeth am ddealltwriaeth pobl ifainc o'r canlynol:

1. **Anabledd** - trafodd y disgyblion bob agwedd ar anabledd gan gynnwys anabledd corfforol, ymwybyddiaeth o iechyd meddwl, anawsterau dysgu, dementia ac anhwylder sbectrwm Awstistig.
2. **Hil** - roedd disgyblion yn aml yn dangos dealltwriaeth dda o hil a hiliaeth.
3. **Crefydd** - mae disgyblion yn aml yn dangos dealltwriaeth dda o wahanol fathau o grefydd a gwybodaeth dda am ddiwyllïannau eraill.
4. **Rhywioldeb** - cafodd disgyblion eu hannog i siarad am rywioldeb ac edrych ar enwogion sy'n lesbiaid, hoywon neu'n ddeurywiol gyda'r nod o herio ystrydebau.
5. **Hunaniaeth rhyw** - cafodd disgyblion eu hannog i feddlu am wahanol hunaniaethau rhyw gan gynnwys pobl sy'n nodi eu hunain yn anneauidd a rhyweddhyllfol. Mae disgyblion hefyd yn cael arweiniad ar ddefnyddio rhagenwau priodol.

Ar ddiwedd y sesiwn gofynnir i ddisgyblion a ydyn nhw'n deall rhagor am Droseddau Casineb a sut i'w hadrodd. Mae modd i chi weld rhagor am ein gwaith mewn ysgolion yn y **Gwerthusiad LLE**.

Gyda myfyrwyr mewn Colegau Addysg Bellach

Mae clinigau 'galw heibio' wedi'u cynnal ar gampysau Aberdâr, Nantgarw a Chwm Rhondda yng Ngholeg y Cymoedd, gyda'r nod o gynyddu ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb a sut i'w hadrodd. Yn ystod y cyfnod yma, galwodd 138 o fyfyrwyr heibio i'r clinigau. O ganlyniad i'r clinigau galw heibio yma, mae rhagor o hyfforddiant ffurfiol wedi cael ei drefnu gyda myfyrwyr.

Gyda Gwirfoddolwyr Ieuencid yr Heddlu

Mae hyfforddiant ymwybyddiaeth o droseddau casineb wedi'i ddarparu ar gyfer 8 gwirfoddolwr ieuencid yr Heddlu i godi eu hymwybyddiaeth o droseddau casineb a mecanweithiau adrodd.

Gydag Oedolion ag Anableddau Dysgu

Gweithio gydag Oedolion ag anableddau dysgu yn Nhonysguboriau a Llwynypia 'Learning Curves' gan eu helpu nhw i adnabod troseddau casineb y maen nhw efallai yn eu hwynebu, a sut bydd modd iddyn nhw adrodd amdanynt nhw.

Gyda thrigolion

Cafodd Achlysuron Agored i drigolion eu cynnal mewn llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden i helpu i gynyddu ymwybyddiaeth gyffredinol o droseddau casineb a sut i roi gwybod amdanynt nhw. Mae'r digwyddiadau yma wedi cael eu cynnal gyda Heddlu De Cymru yn rhan o Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb 2018, ond maen nhw hefyd wedi'u cynnal ar achlysuron eraill trwy gydol y flwyddyn.

Cymeron ni ran hefyd yn Wythnos Genedlaethol Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb

Yn ystod Wythnos Genedlaethol Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb ym mis Hydref 2018, gweithion ni gyda Heddlu De Cymru i gynnal amrywiaeth o achlysuron yn y gymuned. Yn ystod y digwyddiadau yma, buon ni'n siarad â thrigolion am eu profiadau o Droseddau Casineb a llwyddo i godi lefel yr ymwybyddiaeth. Yn yr achlysur hefyd, roedd modd i ni gofnodi a chasglu gwybodaeth fwy cywir er mwyn bwrw amcan o ddealltwriaeth y cyhoedd o Droseddau Casineb a'r hyn oedd yn eu rhwystro rhag rhoi gwybod amdany'n nhw.

Yn ystod yr wythnos yma;

- cafodd 20 o achlysuron eu cynnal yn y gymuned ar draws RhCT.
- cymerodd 429 o drigolion ran yn ein harolwg ffurfiol, gyda rhagor o bobl yn rhannu eu profiad personol o droseddau casineb a'u heffeithiau mewn trafodaethau unigol.
- lansiwyd ni ymgyrch cyfryngau cymdeithasol a phrif ffrwd leol ar droseddau casineb a sut i roi gwybod amdany'n nhw.
- Defnyddiodd Heddlu De Cymru ei 'gar Pride' mewn pedwar achlysur ar draws RhCT a Merthyr Tudful, gan greu diddordeb mawr a chyfluoedd i ymgysylltu â thrigolion. Aethon nhw â'r car i Ysgol Hen Felin hefyd lle bu staff y Cyngor a swyddogion yr Heddlu yn trafod pynciau yn ymwneud ag amrywiaeth â disgyblion 3 - 19 oed.
- gan weithio gyda Heddlu De Cymru a Chlwb Rygbi Pontypridd, daeth yr wythnos i ben gydag achlysur yng Nghlwb Rygbi Pontypridd. Er mwyn cefnogi Wythnos Genedlaethol Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb, defnyddiodd y clwb y cyfryngau cymdeithasol i hysbysebu'r achlysur, creu baner 'Be heard', rhannu nifer o ffotograffau o chwaraewyr, trigolion, yr heddlu a chynghorwyr ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol a hefyd argraffu erthygl mewn rhaglen diwrnod y gêm gan esbonio beth yw troseddau casineb a sut i roi gwybod amdany'n nhw. Sbardunodd y gweithredoedd yma ymateb cadarnhaol gan ddilynwy'r cyfryngau cymdeithasol, er nad oes modd i ni nodi cyfanswm y trigolion a welodd y neges yn ei ffurfiau amrywiol.

Monitro Troseddau Casineb

Gan weithio gyda'n partneriaid, gan gynnwys Heddlu De Cymru, rydyn ni wedi gwella'r ffordd rydyn ni'n casglu data Troseddau Casineb, yn craffu ar y data hynny ac yn eu defnyddio ac rydyn ni'n cymryd camau i sicrhau bod trigolion yn cael ymateb cadarnhaol a chysion wrth roi gwybod am Droseddau Casineb.

Mae'r Cyngor yn gweithio gyda Heddlu De Cymru a phartneriaid eraill gan gynnwys Trivallis, "Dangoswch y Cerdyn Coch i Hiliaeth" a Charfan Lleiafrifoedd Ethnig a Chymorth Ieuenctid yn rhan o Grŵp Cydlyniant Cymunedol Cwm Taf. Yn ei gyfarfodydd chwarterol, mae'r Grŵp yn trafod ac yn craffu ar ddata Troseddau Casineb o'r chwarter blaenorol a'r cynnydd y mae'n ei wneud. Mae'r data yma'n cynnwys Data Stopio a Chwilio a'r holl Droseddau Casineb a digwyddiadau sydd wedi'u hadrodd yn ardaloedd RhCT a Merthyr Tudful wedi'u dadansoddi yn ôl nodweddion gwarchodedig. Mae'r data diweddaraf mewn perthynas â Throseddau Casineb sydd wedi'u darparu gan Heddlu De Cymru wedi'u nodi yn y **gwerthusiad LLE**.

Mae modd i'r Grŵp nodi tueddiadau sy'n dod i'r amlwg neu'r manau mwyaf problemus a hefyd cymharu ei ddata â data ardaloedd Heddlu De Cymru eraill i weld a all wella a dysgu gwersi. Yn y gorffennol mae'r nifer fach o droseddau casineb sydd wedi cael eu hadrodd wedi'i gwneud hi'n anodd cyflawni hyn. Serch hynny, mae'r ansicrwydd diweddar ynghylch Brexit, wedi arwain at ragor o bwyslais ar adnabod trigolion, grwpiau a rhwydweithiau yn y gymuned a allai fod yn agored i aflonyddu neu'n teimlo'n fwy ofnus.

Parhau i fynd i'r afael â stigma lechyd Meddwl trwy ein hymrwymiad i Addewid 'Amser i Newid' Cymru.

Rydyn ni wedi parhau i gynnal sesiynau 'amser i siarad' rheolaidd i fynd i'r afael â stigma lechyd meddwl, er ein bod ni bellach yn gweithio tuag at strategaeth les ehangach.

Serch hynny, mae monitro ein data absenoldeb salwch yn parhau i ddangos bod lechyd Meddwl yn fater allweddol i weithwyr, gyda 32% o'r holl absenoldebau yn gysylltiedig ag lechyd Meddwl. O ganlyniad, bu'r ffocws eleni ar les cyffredinol a chyflwyno Gweithgor Llesiant i ddadansoddi data a nodi tueddiadau'r gweithlu ac arfer da y bydd modd i ni eu defnyddio i wella ein trefniadau. Ym mis Ionawr 2019, cafodd diwrnod Llesiant ei gynnal i staff yng Nghanolfan Hamdden Abercynon, lle cafodd sesiynau chwalo straen ac ymwybyddiaeth ofalgar eu cynnal ochr yn ochr â **mentrau lles eraill**. Cafodd gwybodaeth ei rhoi hefyd. Mae'r gwaith i godi ymwybyddiaeth o faterion lechyd meddwl yn dal i fynd rhagddo a bydd yn parhau i 2019 wrth i ni ganolbwyntio ar hyfforddi rheolwyr.

Codi ymwybyddiaeth o'n rhwydweithiau gweithwyr a chynyddu eu haelodaeth.

Mae 500 o'n Rheolwyr wedi cael eu briffio ar fodolaeth a buddion tri rhwydwaith ar gyfer gweithwyr y Cyngor, sef Perthyn, ein Rhwydwaith LGBT+, ein Rhwydwaith Cynghreiriaid a'n Rhwydwaith Anabledd a Chynhalwyr, fel y gallan nhw wneud staff yn effro i'r gefnogaeth sydd ar gael iddyn nhw.

O ganlyniad i'r sesiynau briffio yma, mae aelodaeth i rai rhwydweithiau wedi cynyddu rhywfaint ond mae llawer i'w wneud o hyd. Bydd ein gwaith yn parhau yn ystod 2019-20. Mae rhwydweithiau staff wedi bod yn cymryd rhan weithredol mewn cefnogi digwyddiadau gan gynnwys bore coffi LGBT, sesiynau Amser i Siarad a Pride. Ym mis Rhagfyr 2018, lansiwyd ni hefyd ein Rhwydwaith Anabledd a Chynhalwyr newydd yn rhan o Ddiwrnod Rhyngwladol Pobl ag Anableddau.

CEFNOGI DISGYBLION TRAWS MEWN YSGOLION
trwy ddarparu gwybodaeth a fydd yn helpu athrawon i'w cefnogi'n well

Annog aelodaeth newydd i'r Fforwm Anabledd i sicrhau ei fod yn adlewyrchu ein cymunedau amrywiol yn Rhondda Cynon Taf.

Rydyn ni wedi llwyddo i ddenu aelodau newydd i'r fforwm, gan gynnwys pobl ag anableddau a hefyd rhieni plant anabl i sicrhau bod aelodau'n cynrychioli'r ystod o amrywiaeth anabledd. Ymhlith pethau eraill, mae aelodau'r Fforwm Anabledd wedi bod yn cefnogi 'Ymgyrch Parcio Ystyriol' Cymru Hygyrch yn Aberdâr ar y cyd â Heddlu De Cymru ac wedi bod yn rhan o nifer o ymgynghoriadau gan gynnwys yr adolygiad cyllideb blynyddol, Strategaeth Toiledau Lleol newydd y Cyngor a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd.

CASE STUDY

PARCIAU I BAWB GAEL EU MWYNHAU

Yn dilyn ymweliad i brofi hygyrchedd Parc Aberdâr, helpodd y Fforwm Anabledd i lywio rhaglen waith i'w gwneud hi'n haws i bobl â phroblemau synhwyraidd a symudedd fynd o amgylch y parc a mwynhau'r cyfleusterau sy'n cael eu cynnig. Rydyn ni eisoes wedi gwella'r llwybrau troed ac mae gwelliannau eraill ar y gweill.

Annog rheolwyr gwasanaethau i ddeall cwsmeriaid yn well trwy gasglu data monitro cydraddoldeb a sicrhau bod amrywiaeth yn cael ei chynrychioli wrth wneud penderfyniadau.

Rydyn ni'n cydnabod bod angen i ni wybod rhagor am amrywiaeth ein trigolion a'n cwsmeriaid. Heb wybodaeth fanwl fydd dim modd i ni fod yn gwbl hyderus bod y penderfyniadau a wnawn ni'n cynrychioli ac yn diwallu anghenion ein cymunedau yn llawn. Dydyn ni ddim wedi gwneud cymaint o gynnydd ag yr oedden ni wedi'i gynllunio wrth i ni ganolbwyntio ar ein **Cynllun Cydraddoldeb Strategol**. Caiff data yn ymwneud â phobl eraill sydd â nodweddion gwarchodedig eu casglu yn rhan o'r adran monitro cydraddoldeb mewn arolygon boddhad cwsmeriaid ac arolygon ymgynghori, ond dydy hyn ddim yn ddigon. Rydyn ni eisoes wedi siarad â thrigolion am y potensial i geisio rhagor o wybodaeth ganddyn nhw yn rhan o'n trefniadau monitro a dywedon nhw wrthon ni eu bod yn hapus ar y cyfan i ateb cwestiynau monitro cydraddoldeb, ond nodon nhw hefyd fod angen i ni feddwl yn fwy dwys a rhoi eglurder ynghylch sut y caiff ymatebion eu defnyddio. Rydyn ni'n datblygu hysbysiadau preifatrwydd perthnasol i sicrhau cydymffurfiaid â data.

Parhau i roi cynllun gweithredu 'Menywod yn Ychwanegu Gwerth at yr Economi' ('WAVE') ar waith gyda phrosiect penodol sy'n gofyn a yw rhwystrau'n bodoli o ran datblygiad gyrfa menywod hŷn yn y sefydliad.

Yn rhan o'n gwaith i fonitro prosiect WAVE ac i gyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol, cyhoeddwn ni wybodaeth am y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn y Cyngor yn ein **Hadroddiad Cydraddoldeb Blynnyddol 2017-18**. Dangosodd yr wybodaeth ostyngiad bach yn y bwlch cyflog rhwng y rhywiau o 2017. Er mwyn parhau i leihau'r bwlch cyflog yma, rydyn ni'n parhau i weithredu cynllun gweithredu WAVE gyda phrosiect penodol sy'n gofyn a yw rhwystrau'n bodoli o ran datblygiad gyrfa menywod hŷn yn y sefydliad.

Oherwydd yr wybodaeth gymhleth a sensitif a gafodd ei datgelu gan staff benywaidd, mae arbenigwr cyflog rhwng y rhywiau profiadol yn cymryd rhan yn y Prosiect ac wedi ymchwilio i lwybrau dilyniant menywod i swyddi uwch reoli. Mae Cam 1 o'r prosiect wedi'i gwblhau ac mae'r canfyddiadau ar fin cael eu cyhoeddi. Byddwn ni'n parhau i flaenoriaethu'r gwaith yma a'n bwriad yw sicrhau camau cadarnhaol i annog rhagor o staff benywaidd i ymgymryd â rhaglenni datblygu rheolwyr.

CHWALU RHWYSTRAU YN Y GWAITH


Mae 75% o'n gweithlu'n fenywod a bydd 80% yn profi newidiadau amlwg o ganlyniad i ddiwedd y mislif (Menopos). Lansion ni ein Canllaw Diwedd y Mislif ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod. Ein nod yw creu amgylchedd lle mae ein gweithwyr yn teimlo'n hyderus ynglŷn â chodi materion ynghylch effaith eu symptomau.

Cynyddu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'n gweithlu.

Mae cryn dipyn o ddata am ein gweithlu wedi'u nodi yn ein Hadroddiad Cydraddoldeb blynnyddol a gafodd ei gyflwyno i'r **Cabinet ar 19 Mawrth 2019**. Mae'r data yma'n caniatáu inni fonitro amrywiaeth a chyfansoddiad ein gweithwyr a monitro unrhyw fylchau mewn nodweddion gwarchodedig. Enghraifft o hyn yw ein bod yn gwybod bod cyflogaeth a chadw pobl ifainc sy'n gweithio i'r Cyngor yn is nag ar gyfer ystodau oedran eraill. Mae ein rhaglen brentisiaeth yn helpu i recriwtio pobl ifainc, ac rydyn ni wedi llwyddo i recriwtio 27 prentis yn 2018-19, ac mae 19 ohonyn nhw o dan 25 oed.

CHWALU RHWYSTRAU I DEITHIO...

drwy ddarparu 'Hyfforddiant Teithio' sy'n helpu pobl o bob oed a gallu ac sydd â phob math o anghenion i wella eu hymwybyddiaeth o ddiogelwch ar y ffyrdd a chynyddu'u gwybodaeth am sut i ddefnyddio cludiant cyhoeddus fel eu bod nhw'n cael rhagor o gyfleoedd i fynd allan yn annibynnol ac yn hyderus. Bydd hyn yn golygu y bydd siawns well gyda nhw i gael swyddi a mwynhau gweithgareddau eraill yn eu cymunedau a thu hwnt.



Mae ein cynlluniau ar gyfer 2019-20 yn cynnwys...

- Gweithredu ein **Cynllun Cydraddoldeb Strategol** newydd ar gyfer 2019-22 gyda'i ffocws ar y pum maes allweddol a ddywedodd ein trigolion wrthon ni oedd bwysicaf iddyn nhw.
- bodloni ein cyfrifoldebau o dan y cynllun 'Hyderus o ran Anabled'.
 - parhau â'n hymrwymiad i'r addewid 'Amser i Newid Cymru', rhaglen 'Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall' a 'Mynegai Addysg Cydraddoldeb Stonewall'.
 - parhau i ddarparu hyfforddiant Urddas a Pharch i gydweithwyr ym mhob rhan o'r Cyngor a rhoi gwybod iddyn nhw am eu cyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gan eu hannog nhw i herio agweddau negyddol.
 - cryfhau hyfforddiant cydraddoldeb i staff sy'n delio â chwynion am wasanaethau'r Cyngor a sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei defnyddio i lywio gwella gwasanaethau.
 - parhau i ganolbwyntio ar lechyd Meddwl, gan sicrhau ei fod yn cael ei gynnwys yn yr holl hyfforddiant perthnasol.
 - cryfhau ein dealltwriaeth o anghenion cyn-filwyr y lluoedd arfog.

Cyfrannu at RhCT a Chymru sydd



Y GYMRAEG DARPARU GWASANAETHAU YN EICH DEWIS IAITH

Rydyn ni'n gwneud cynnydd da gyda'n gwaith i ddarparu gwasanaethau i chi yn eich dewis iaith, er ein bod yn gwybod bod rhagor i'w wneud, yn enwedig os ydyn ni am chwarae ein rhan i helpu Cymru i gyflawni miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

- Mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn RhCT wedi aros yn weddol gyson ers 2001.
- Mae'r gyfran fwyaf o siaradwyr Cymraeg o dan 25 oed.
- Mae Cyfrifiad 2011 yn dweud wrthon ni fod 27,779 o siaradwyr Cymraeg yn RhCT (12.3% o'r boblogaeth). Mae data o arolwg poblogaeth SYG **Rhagfyr 2018** yn awgrymu bod rhagor o siaradwyr Cymraeg bellach, 51,400 (22.4%). Serch hynny, roedd arolwg y SYG yn cynnwys llai o bobl felly efallai nad oedd hyn yn adlewyrchiad cywir.
- Ers 2003, bu bron i 1,000 o leoedd ychwanegol yn ein hysgolion cyfrwng Cymraeg (990).
- Yn RhCT mae'r ganran uchaf o ddisgyblion sy'n dysgu'r Gymraeg yn iaith gyntaf o'r 5 Cyngor sy'n dod o dan Wasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De, 19.04% mewn ysgolion cynradd a 19.35% mewn ysgolion uwchradd.


Rhwng 2015-16 – a 2017-18

- Mae nifer y plant 7 oed sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi aros tua'r un peth (543 yn 2017-18, 2 yn llai nag yn 2015-16). Serch hynny, erbyn hyn mae ychydig yn rhagor o blant 7 oed yn cael eu dysgu drwy gyfrwng y Saesneg felly mae canran gyffredinol y disgyblion sy'n dysgu trwy'r Gymraeg wedi gostwng 0.72%.
- 0.42% yn fwy o ddisgyblion yn cyflawni graddau A*- C yng nghanlyniadau Cyfnod Allweddol 4 Cymraeg iaith gyntaf.

Ers 2016, rydyn ni wedi darparu hyfforddiant iaith Gymraeg Lefel 1 ar gyfer 1,562 o staff.

O ganlyniad i'r gwelliannau mewn recriwtio a hyfforddiant yn y Gymraeg ers 2016, mae rhagor o'n staff wedi nodi eu bod nhw'n rhugl yn y Gymraeg.

Bu cynnydd o 30% yn y llwyth gwaith ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor, gan gynnwys cyfieithu, gan sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu ar gyfer trigolion yn eu dewis iaith.



Ein bwriad yw annog trigolion i ddefnyddio gwasanaethau yn Gymraeg, a'i gwneud hi'n haws iddyn nhw gysylltu â'r Cyngor a gwneud busnes yn yr iaith o'u dewis. Ar hyn o bryd mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn ein cymunedau yn isel, sef 12.3% o'n poblogaeth* 27,779 - 19% yw'r ganran ar gyfer Cymru gyfan. O ganlyniad, mae nifer y bobl leol sy'n ceisio am swyddi yn y Cyngor sy'n gallu siarad Cymraeg hefyd yn isel gan nad yw'r mwyafrif o siaradwyr Cymraeg yn RhCT o oedran gweithio.

Mae hyn yn golygu bod angen i ni gefnogi ac annog ein staff presennol i ddefnyddio a gwella eu sgiliau Cymraeg yn y gwaith ac annog ein trigolion i ymgysylltu â ni yn Gymraeg. Mae hefyd yn golygu bod angen i ni gynllunio ymlaen llaw fel bydd modd i ni fanteisio ar y sgiliau Cymraeg sydd gan ein pobl ifainc i'w cynnig wrth iddyn nhw adael addysg amser llawn a chyrraedd oedran gweithio. Er mwyn helpu i wella sgiliau a hyder ein staff, penododd ni Diwtor y Gymraeg. Rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2019 mae dros 400 o staff wedi cael hyfforddiant yn y Gymraeg gan ein tiwtor sy'n helpu staff a gwasanaethau i ymateb yn well i anghenion trigolion.

Ynghyd â'r buddsoddiad sylweddol arfaethedig yn ein hysgolion cyfrwng Cymraeg, gwnaed **cyhoeddiad ym** mis Mawrth 2019 mai yn Rhondda Cynon Taf y bydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn cael ei chynnal yn 2022, sy'n gyfle cyffrous arall i hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn ein cymunedau. Bydd hyn hefyd yn cyfrannu at helpu'r Cyngor i gyflawni un o'r nodau llesiant cenedlaethol, sef 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' yn ogystal â nodau cenedlaethol eraill.

Mae angen i'r Cyngor hefyd gadw at gyfreithiau'r Gymraeg a chymhwyso Safonau'r Gymraeg, gan sicrhau:

- **bod y Gymraeg yn cael ei thrin yr un modd â'r Saesneg yng Nghymru.**
- **a'n bod ni'n rhoi cyfle i bobl ddefnyddio'n gwasanaethau ni, yn ogystal â'r gwasanaethau rydyn ni'n eu hariannu, drwy gyfrwng y Gymraeg.**

Mae Safonau'r Gymraeg yn berthnasol i bob rhan o waith y Cyngor, gan gynnwys cyfarfodydd y Cyngor, lle mae cyfleusterau cyfieithu a chyfieithwyr wedi'u sefydlu.

Y Comisiynydd ar gyfer y Gymraeg sy'n gyfrifol am sicrhau bod Mesur y Gymraeg a'r Safonau yn cael eu gweithredu ledled Cymru. Rydyn ni'n **cyflwyno adroddiad** ynglŷn â'n gwaith a'n cynnydd i'r Comisiynydd bob blwyddyn. Mae gan y Cyngor ei drefniadau ei hun hefyd i sicrhau ein bod ni'n gwneud cynnydd ac mae'r Comisiynydd ar gyfer y Gymraeg wedi cydnabod bod y trefniadau yma'n arfer da ar ei **wefan**, gan nodi bod y Cyngor "wedi dangos ei ymrwymiad i sicrhau cydymffurfiaid â safonau'r Gymraeg ac egwyddorion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011".

Os na weithredwn ni Safonau'r Gymraeg yn iawn, gallen ni wynebu cosb o hyd at £5,000 am bob achos. Yn ystod 2018-19, cafodd nifer o ymchwiliadau eu cynnal yn dilyn cwynion gan drigolion ynglŷn â sut mae'r Cyngor yn trin y Gymraeg. Ond rydyn ni'n parhau i weithio'n agos gyda swyddfa'r Comisiynydd i sicrhau ein bod ni'n gwneud popeth o fewn ein gallu i ddatrys unrhyw broblemau, a hyd yn hyn, dydyn ni ddim wedi cael unrhyw gosbau ariannol.

*Y sefyllfa fel yr oedd yng nghyfrifiad 2011

Mae'r hyn rydyn ni'n bwriadu ei wneud i gyflawni'r safonau wedi'i nodi mewn dwy ddogfen y mae'n rhaid i ni eu cyhoeddi yn rhan o'n dyletswyddau o dan y gyfraith. Dyma'r dogfennau:

1. Cynllun Gweithredu Safonau'r Gymraeg
2. Strategaeth Hybu'r Gymraeg

Er mwyn sicrhau ein bod yn cadw ar y trywydd iawn ac yn cwrdd â Safonau'r Gymraeg, mae Grŵp Llywio o Gynghorwyr a chynrychiolwyr o gyrff cyhoeddus eraill â buddiant a grwpiau gwirfoddol gan gynnwys Fforwm Iaith yn gwneud y canlynol:

1. yn gwirio'r cynnydd rydyn ni'n ei wneud o'i gymharu â'n Cynllun Gweithredu a'n Strategaeth Hybu'r Gymraeg,

2. yn adolygu adroddiadau archwilio i sicrhau bod yr holl wasanaethau yn darparu gwasanaethau yn Gymraeg,
3. ac yn cymeradwyo polisïau Cymraeg pwysig sy'n effeithio ar yr holl wasanaethau sy'n cael eu darparu ar gyfer ein trigolion.

Mae pob un o'n gwasanaethau hefyd yn edrych ar ble maen nhw'n darparu gwasanaethau yn Gymraeg a'r hyn sydd angen iddyn nhw ei wneud i wella neu wneud rhagor. Un ffordd o'n helpu i wella yw gweithio gydag eraill. Rydyn ni'n gweithio gydag eraill, yn rhan o'r Fforwm Iaith Gymraeg, sy'n cynnwys grwpiau gwirfoddol, y trydydd sector a chyrff cyhoeddus eraill, sy'n ein helpu i ddatblygu a gweithredu ein cynlluniau ar gyfer yr iaith Gymraeg.

I gynyddu'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu yn Gymraeg

y llynedd, dywedon ni y bydden ni'n... ac ymhlith pethau eraill...

gweithio'n agosach gyda'n partneriaid yn y gymuned

- gweithion ni tuag at drefnu sesiynau Sblash, Canu a Dysgu i rieni a babanod yn ein canolfannau hamdden mewn partneriaeth â'r Mudiad Meithrin.
- sefydlon ni weithgareddau ar ôl yr ysgol, er enghraifft, dringo, pêl-droed, pêl-rwyd a rygbi mewn partneriaeth â'r Urdd.
- darparon ni weithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod gwyliau'r ysgol gyda'r Fenter Iaith.
- parheunon ni i gefnogi Menter Iaith gydag adnoddau a chyfleusterau i gynnal Parti Ponty
- cynhalion ni glybiau llyfrau Cymraeg a chylchoedd Ti a Fi yn ein llyfrgelloedd gyda'r Mudiad Meithrin.
- anogon ni ein staff a'n trigolion i weithio gyda'r ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion i helpu gyda'u sgiliau Cymraeg

helpu Cymru i gyrraedd ei tharged o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050

- sicrhauon ni
- fod staff newydd yn cael hyfforddiant Cymraeg lefel 1.
- fod yr holl staff sy'n cael eu dyrchafu neu eu trosglwyddo rhwng gwasanaethau hefyd yn cael hyfforddiant lefel 1.
- fod holl staff y Cyngor sy'n medru'r Gymraeg eisoes yn cael eu helpu i barhau i ddysgu hyd at lefel 2 ac uwch.
- fod staff a thrigolion yn fwy ymwybodol o'r Gymraeg.
- fod ein staff sy'n siarad Cymraeg yn parhau i wisgo bathodynau a llinynnau gwddf.
- ein bod ni'n defnyddio'r logo Cymraeg wrth gyfathrebu ag eraill.
- fod yna bosteri sy'n annog staff i siarad Cymraeg.

Hefyd, rydyn ni wedi

- darparu hyfforddiant Cymraeg i'r staff yn ein lleoliadau Gofal Plant 'Dechrau'n Deg' fel bod modd iddyn nhw annog rhagor o ddefnydd o'r Gymraeg ymhlith y plant.

cyfrannu at wella addysg cyfrwng Cymraeg ledled Cymru

trwy weithio gyda phartneriaid i ddangos sut y byddwn ni'n cynyddu ac yn cernogi addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal, yn ein 'Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg'.

Rydyn ni wedi cael adborth cadarnhaol gan Gomisiynydd y Gymraeg am ein cynnydd, felly, rydyn ni'n gwybod ein bod ni ar y trywydd iawn, ond mae rhagor i'w wneud bob amser.

Ymhlith pethau eraill, yn 2019-20 byddwn ni'n:

- gweithio tuag at ein targed o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn RhCT 6.8%, erbyn dyddiad y cyfrifiad nesaf yn 2021.
- gweithio gyda Phwyllgor yr Eisteddfod Genedlaethol ar y trefniadau i ddod â'r Eisteddfod i ardal Rhondda Cynon Taf yn 2022.
- hyrwyddo achlysuron Cymraeg cenedlaethol a lleol allweddol i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg gan gynnwys:
 - Dydd Gŵyl Dewi
 - Diwrnod Owain Glyndŵr
 - Diwrnod Su'mae Shwmae
 - Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd
 - neges **Heddwch ac Ewyllys Da** flynyddol yr ieuencid gyda'r Urdd.
- parhau i weithio gyda Swyddogion Cymorth i Fusnesau Llywodraeth Cymru i annog ein busnesau i weld manteision y Gymraeg yn lleol ac yn fyd-eang.
- cryfhau'r cyfleusterau cyfieithu ymhellach yng nghyfarfodydd y Cyngor.
- parhau i fodloni Safonau'r Gymraeg.
- cynyddu'r cyfleoedd i staff ddysgu Cymraeg trwy weithio gyda menter Cymraeg Gwaith.

Mae ein gwaith i hyrwyddo'r Gymraeg yn cyfrannu at RCT a Chymru sydd



BIOAMRYWIAETH AMDDIFFYN A GWELLA EIN HAMGYLCHEDD

Rydyn ni'n gwneud cynnydd da gyda'n gwaith i amddiffyn a gwella ein hamgylchedd yn Rhondda Cynon Taf, er ein bod ni'n gwybod bod llawer yn rhagor i'w wneud i fynd i'r afael â'r heriau amgylcheddol pwysig yn lleol ac yn genedlaethol.

- Mae ardal RhCT o bwysigrwydd cenedlaethol oherwydd ei glaswelltiroedd corsio porfa Rhos, a'i glaswelltiroedd eraill sy'n cynnal rhywogaethau lu.
- Yn ardal RhCT mae'r dirwedd cwm rhewlifol fwyaf deheuol yn Ynysoedd Prydain.
- Mae tua dwy ran o dair o'r Fwrdeistref Sirol yn arbennig o bwysig i fywyd gwyllt. Ynddi, mae Gwarchodfeydd Natur, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a Safleoedd Pwysig ar gyfer Cadwraeth Natur.
- Mae o leiaf 85 o wahanol fathau o wenyn ar ein hen domenni glo, heb sôn am lawer o bryfed, cen, ffyngau a blodau eraill.
- Mae ochrau'r cymoedd yn briffyrdd bywyd gwyllt rhagorol sy'n caniatáu i rywogaethau symud ac i gynefinoedd weithredu.
- Mae'n debyg mai'r mynydd uwchben Treherbert yw'r lle gwlypaf yng nghymoedd De Cymru. Dyna pam mae mawnogydd mawr yn cael eu hadfer yng nghanol y tyrbinau gwynt newydd. Dyma hefyd pam mae ein nentydd mynyddig mor egniol ac yn llawn bywyd gwyllt.
- Mae'r bywyd gwyllt a'r fioamrywiaeth ar ein carreg drws yn anhygoel, am ddim ac yno i drigolion o bob oed a gallu eu mwynhau. Mae modd i ni weld Clychau'r Gog ar lethrau'r brynau ac yn y coed, gwylio adar ysglyfaethus megis y bwncath, yr hebog tramor a'r barcut coch, neu wneud ein gerddi yn fwy deniadol i fywyd gwyllt.
- Mae manteision iechyd corfforol a meddyliol amlwg o fod y tu allan ac ymgysylltu â natur.
- Mae ein tirwedd a'n hanes wedi'u clymu'n agos at ein hunaniaeth a'n diwylliant, ac yn creu ein bioamrywiaeth unigryw hefyd. Mae daearyddiaeth ddramatig a hanes RhCT yn llywio ein synnwyr o'n lle yn y byd yn ogystal ag enwau lleoedd lleol.
- Mae plant a phobl ifainc o ysgolion yng Nghymru a Lloegr yn ymweld â Pharc Gwledig Cwm Dâr i ddysgu am natur a'r amgylchedd a'u mwynhau.

Mae mwy o wybodaeth ar gael ar ein Taith Bioamrywiaeth.

Bioamrywiaeth yw'r amrywiaeth o fywyd ar y ddaear ac mae'n cynnwys pob rhywogaeth o blanhigion ac anifeiliaid a'r systemau naturiol sy'n eu cynnal. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gofyn i ni ddiogelu ein bioamrywiaeth yn ogystal â chwrdd â'r her o greu swyddi a chartrefi, iechyd ac addysg. Wrth weithio fel hyn, bydd hefyd yn helpu i wneud Cymru yn economi werdd, carbon isel, sy'n barod i addasu i newid yn yr hinsawdd. Bydd dull mwy cydgyssylltiedig o reoli adnoddau naturiol, megis y tir, dŵr, aer a bywyd gwyllt, yn helpu i sicrhau y byddan nhw ar gael o hyd yn y dyfodol. Mae'r gyfraith yma'n gweithio ochr yn ochr â'r hyn sydd angen i ni ei wneud i wella Lles yr Amgylchedd i drigolion a chymunedau Rhondda Cynon Taf, gan helpu i gyfrannu at y Saith Nod Llesiant cenedlaethol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn benodol, Cymru fwy Cydnherth a Chymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang.



Byddwch chi wedi gweld llawer o enghreifftiau o sut mae'r Cyngor yn amddiffyn ac yn gwella ein hamgylchedd o fewn ein blaenoriaethau. Yn ogystal â'r enghreifftiau yma, yn 2018-19 rydyn ni hefyd wedi:

- parhau i wneud yn siŵr bod bioamrywiaeth yn cael ei integreiddio i'r cynlluniau ar gyfer ystadau tai newydd, er enghraifft, rheoli mannau agored cyhoeddus yn y tymor hir, amddiffyn coed a pherthi, dolydd a choridorau bywyd gwyllt yn ogystal â darparu ar gyfer draenio cynaliadwy, ardaloedd chwarae i blant, llwybrau teithio llesol ac amgylchedd deniadol i drigolion newydd a'u cymdogion. Rydyn ni hefyd wedi gwirio effaith ecolegol dros 1,400 o geisiadau cynllunio. Rydyn ni wedi defnyddio mapio GIS i greu darlun mwy cyflawn o sut mae'r safleoedd lliniaru bioamrywiaeth yn cyd-fynd â chyffleoedd eraill ar draws Rhondda Cynon Taf.
- parhau i wirio bod datblygwyr yn cyflawni'r hyn sydd ei angen i ddiogelu bioamrywiaeth yn y tymor hir yn unol â'u cytundebau cynllunio.
- parhau i adeiladu ar yr uchod drwy ddatblygu prosiect 'tirwedd fyw' gyda phartneriaid, gan gynnwys yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt, datblygwyr a sefydliadau lleol eraill, gyda'r nod o lansio peilot yn ne'r Fwrdeistref Sirol yn ystod 2019-20.
- parhau i reoli glaswelltir a lleiniau glas fel y byddwn ni'n datblygu a chynyddu nifer y safleoedd sy'n darparu cynefin sy'n cynnwys blodau gwylltion a'r cyfle i bryfed eu peillio.
- sicrhau cyllid grant am dair blynedd hyd at Fawrth 2022 i barhau â'n gwaith 'Healthy Hillsides' yn dilyn cais partneriaeth ar y cyd llwyddiannus i ddatblygu cynlluniau lliniaru tân glaswellt ar 6 safle yn RhCT a fydd yn cael eu rhoi ar waith y flwyddyn nesaf.

ASTUDIAETH ACHOS

Cydweithio ar y cynllun 'Healthy Hillsides'...

Mae'r cynllun yma'n bartneriaeth rhwng RhCT, Tân ac Achub De Cymru, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Heddlu De Cymru, Cadwraeth Glöynnod Byw, PONT, Prifysgol Abertawe, Cyngorau eraill De Cymru ac Ymddiriedolaeth Tref Llantrisant. Ei nod yw datblygu prosiectau rheoli tir cynaliadwy ac ymgysylltu â'r gymuned, i helpu i atal tanau glaswellt yn llwyddiannus a hyrwyddo a datblygu canlyniadau sydd â sawl effaith gadarnhaol. Enghraifft o'i waith yn 2018 yw yn Y Graig, Llantrisant lle cafodd rhedyn a mieri eu torri yn ôl o ardal helaeth ar y Comin i ddarparu mwy o dir pori ar gyfer anifeiliaid. Defnyddiodd Cadwraeth Glöynnod Byw y safle ar gyfer diwrnod gwirfoddolwyr 'The Great Rake-Off' i glirio'r deunydd wedi'i dorri a dathlu eu pen-blwydd yn 30. Er gwaethaf yr haf sych yn 2018, llwyddodd y Comin i osgoi'r tanau mawr a welwyd mewn blyneddodd blaenorol, ac mae arwynebedd glaswelltir llawn blodau wedi cynyddu. Yn Hydref 2018, cafodd rhwystrau tân ac ardaloedd pori cadwraeth eu torri drwy ddefnyddio torrwr robotig arbenigol y Gwasanaeth Tân. O ganlyniad i ragor o redyn yn cael eu torri yn ôl a rhagor o dir pori yn cael ei greu ar gyfer merlod, dylen ni weld gwelliannau sylweddol yn y fioamrywiaeth dros y 3 blynedd nesaf.



- parhau i nodi a symud blaenoriaethau eraill yn eu blaenau i'r Cyngor fel ei fod yn cyflawni ei 'Ddyletswydd Bioamrywiaeth'. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda gwasanaethau fel bydd modd iddyn nhw integreiddio gwaith i gynnal ecosystemau iach i dasgau pob dydd, er enghraifft, torri gwair a rheoli llystyfiant.
- parhau i reoli safleoedd pori cadwraeth sy'n helpu i gynnal y Safleoedd Pwysig hynny sy'n gyfoethog o ran rhywogaethau ar gyfer Cadwraeth Natur. Y safleoedd yw Parc Gwledig Cwm Dâr ger Aberdâr; Caeau'r Cwm, Estyniad Cae'r Cwm, Nant Celyn a Chors Llanilltud Faerdref sydd i gyd yn y de rhwng Llantrisant a Thon-teg.
- parhau i gymryd camau i wella ansawdd yr aer, yn enwedig yn yr ychydig ardaloedd hynny sy'n gysylltiedig â lefelau uchel o lygredd. Ymhlith y camau mae codi ymwybyddiaeth, rheoli traffig a chynlluniau i leihau tagfeydd a gwella systemau parcio a theithio a lonydd bysiau. Gallwch chi weld gwybodaeth fanylach yn **ein hadroddiad cynnydd diweddaraf ynglŷn ag ansawdd yr aer**.

Sicrhaodd trigolion o Barc Nant Celyn bod dŵr ar gael ar gyfer gwartheg pori yn ystod haf sych 2018.

Denu Ymwelwyr i ardal RhCT

Cerdded yw'r prif atyniad i bobl sy'n ymweld â RhCT. Mae ein **Llwybrau cerdded** traws-dirwedd sydd wedi'u ffurfio gan natur a diwydiant. Mae 8 o'n Parciau wedi cyflawni statws Baner Werdd.

DOD YN RHAN O BETHAU

Hoffech chi fod yn rhan o'r adolygiad o'n cynllun 'Action for Nature'? Os felly, anfonwch e-bost: ParciauCefngwlad@rctcbc.gov.uk

Yn 2019-20 mae ein gwaith yn cynnwys ...

- creu nodwedd ddraenio gynaliadwy newydd i atal llifogydd yn Ysgol Park Lane, Aberdâr. Mae mynd i'r afael â'r broblem llifogydd yma wedi creu'r potensial am effaith gadarnhaol ar y gymuned, gan ddarparu man agored cyhoeddus, cyfleoedd ar gyfer dysgu yn yr awyr agored a chynefin glaswelltir corsiog (porfa Rhos) ar gyfer bywyd gwyllt. Mae'r safle wrth ymyl Parc Aberdâr a'r llwybr cyhoeddus rhwng Trecynon a'r Gadlys. Byddwn ni'n gweithio gydag Ysgol Park Lane a Chyfeillion Parc Aberdâr fel bod y gwaith o fudd i'r ysgol a'r gymuned ehangach. Ar ôl ei gwblhau, bydd y safle'n ategu'r rhwydwaith o safleoedd glaswelltir corsiog yng Nghwm Cynon sy'n cynnal **Tamiad y Cythraul**, blodyn porffor sy'n hanfodol ar gyfer goroesiad y fritheg y gors sy'n bili-pala prin.
- datblygu prosiect peilot 'Tirwedd Fyw' sy'n dangos sut y bydd modd rheoli tir y Cyngor, partneriaid a chytundebau cynllunio yn llwyddiannus, i ddarparu fframwaith cysylltiedig o gynefin sy'n gyfoethog o ran bioamrywiaeth. Gall cysylltu safleoedd lleol a grwpiau cymunedol â'i gilydd ddangos sut mae gweithio gyda'n gilydd o fudd i bawb, yn ogystal â bod o fudd i'r bywyd gwyllt.
- defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth am waith rheoli peillwyr a blodau gwyllt cyfredol y Cyngor, gan ddarparu cynefinoedd blodau gwyllt a phryfed peillio, trwy reoli glaswelltir, mynwentydd a lleiniau glas, yn ogystal â cheisio cynyddu nifer y safleoedd lle mae cyfleoedd yn codi.
- gweithio gyda'r Bartneriaeth Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol i adolygu a diweddarau 'Action for Nature', hynny yw, y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, ac i ehangu'r Bartneriaeth.
- ystyried sut mae sbwriel, tipio anghyfreithlon a gadael sbwriel gardd yn effeithio ar fywyd gwyllt yn lleol ac yn fyd-eang a'r hyn y gallwn ni ei wneud i fynd i'r afael ag ef.
- rhoi cynllun ar waith i leihau nwyon tŷ gwydr ar draws RhCT ac ymateb i argymhellion y **Pwyllgor ar Newid Hinsawdd** a 'Chymru Carbon Isel' Llywodraeth Cymru.
- nodi a symud blaenoriaethau eraill y Cyngor yn eu blaenau yn rhan o'n 'Dyletswydd Bioamrywiaeth'.

Mae'n gwaith ym maes Bioamrywiaeth yn cyfrannu at RCT a Chymru sydd



CYMRYD RHAN YMGYSYLLTU Â PHOBL A CHYMUNEDAU YN RHCT

Mae gyda ni hanes da o ymgysylltu â'n trigolion o bob cefndir mewn sawl ffordd wahanol. Rydyn ni hefyd yn ystyried yr hyn maen nhw'n ei ddweud wrthon ni yn ein cynlluniau a'n trefniadau. Rydyn ni hefyd yn gwybod bod lle bob amser i wneud yn well. Byddwn ni'n parhau i edrych ar yr hyn rydyn ni'n ei wneud a lle y gallwn ni wella fel y gall rhagor o bobl gymryd rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw ac ar eu cymunedau.

Drwy gydol yr adroddiad yma byddwch chi wedi gweld llawer o enghreifftiau o sut rydyn ni wedi cynnwys pobl a chymunedau yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw a'r gwasanaethau maen nhw'n eu cael. Mae'r dulliau rydyn ni wedi'u defnyddio i gynnwys pobl ac ymgysylltu â nhw yn amrywio o sgysiau wyneb yn wyneb yng nghanol trefi a meysydd parcio i gynnal arolygon ar-lein neu annog adborth trwy **Twitter** neu **Instagram**. Rydyn ni hefyd yn manteisio ar y cyfle i sgwrsio ag ymwelwyr yn nigwyddiadau'r Cyngor, er enghraifft, siarad â theuluoedd a rhieni ym Mhicnic y Tedis a thrigolion RhCT yn Pride Cymru. O siarad â phobl yn y ffordd yma, mae modd i ni gael digonedd o wybodaeth y gallwn ni ei defnyddio i lunio'n gwasanaethau a llywio rhai o'r arolygon mwy ffurfiol. Rydyn ni hefyd yn cael gwybod am y pethau llai amlwg sy'n digwydd yn y cymunedau.

Rydyn ni am i'n holl drigolion gael y cyfle i gymryd rhan a rhoi eu barn yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw. Un o'r ffyrdd rydyn ni wedi gwneud hyn yn ddiweddar yw darparu **fersiynau hawdd eu darllen** o wybodaeth fel y gall rhagor o bobl ei deall. O ganlyniad i hyn, er enghraifft, roedd modd i bobl ag anawsterau dysgu gymryd rhan fwy blaenllaw mewn trafodaethau mewn perthynas â'r newidiadau yn y Canolfannau Oriau Dydd oherwydd ein bod ni wedi rhoi gwybodaeth fwy hygyrch iddyn nhw. Rydyn ni hefyd yn defnyddio safle **WICID**, sydd wedi'i anelu'n benodol at blant a phobl ifainc i hyrwyddo arolygon sy'n effeithio'n uniongyrchol arnyn nhw.

Drwy'i gwneud hi'n haws i bobl roi eu barn i ni, mae rhagor o bobl yn ymateb mewn nifer o ffyrdd. Ond rydyn ni'n gwybod bod angen i ni wneud rhagor os ydyn ni am fod yn gwbl gynhwysol ac os yw pobl yn mynd i barhau i chwarae rhan wirioneddol a pharhaol yn nyfodol eu cymunedau. Yn ogystal â hynny, mae angen i ni wella sut rydyn ni'n defnyddio'r wybodaeth sy'n dod i'r fei yng nghwynion trigolion fel ein bod ni'n cael darlun mwy cyflawn o'u barn.

Dyma rai enghreifftiau o sut mae trigolion a chymunedau wedi bod yn rhan o waith y Cyngor:

- drwy ddarparu dros 4,000 o ymatebion i'n harolygon cyllideb a gafodd eu hystyried wrth bennu cyllideb 2019-20.
- drwy ddweud wrthon ni beth yw eu barn am y cyfleoedd chwarae ar draws RhCT. Mae'r arolwg yma'n rhan o'r wybodaeth a helpodd y Cyngor i roi ei gynlluniau ar waith ar gyfer ardaloedd chwarae awyr agored y cytunodd y Cabinet arnyn nhw ym mis **Mawrth 2019**.
- llunio ein '**Cynllun Cydraddoldeb Strategol**' newydd trwy roi gwybod i ni beth sy'n bwysig iddyn nhw.
- nodi sut mae unrhyw gynnig gwasanaeth newydd yn effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg.


Ar gyfer ein trigolion iau, roedd ein Fforwm Ieuenctid yn rhan o arolwg y DU '**Make your Mark**' i nodi'r pum mater mwyaf pwysig i bobl ifainc y dylid eu trafod yn y senedd. Rydyn ni hefyd wedi ymgysylltu â phlant a phobl ifainc yng ngofal y Cyngor ynghylch eu barn am y gofal maen nhw'n eu cael yn yr arolwg 'Eich Bywyd, Eich Gofal'. Mae hyn yn cael ei ddisgrifio'n fanylach yn yr adran POBL.



Y llynedd, dywedon ni y byddwn ni'n

parhau i siarad â phobl ar draws y cymunedau yn Rhondda Cynon Taf, ymhlith pethau eraill rydyn ni

- wedi siarad â thrigolion a siopwyr yn y Porth yn rhan o **Strategaeth Canol Tref y Porth**, yn ogystal â chynnal arolygon ar-lein.
- wedi siarad â thrigolion a defnyddwyr Canolfan Oriau Dydd a Llyfrgell Aberpennar yn rhan o'r trafodaethau am y cynllun i ddatblygu **Hwb Cymunedol yng Nghanolfan Oriau Dydd Aberpennar**. Roedd gwrandio ar eu syniadau yn arwain atailgynllunio'r ganolfan gan gynyddu'r gofod cymunedol sydd ar gael ac i gynyddu'r gallu i baratoi pryddau poeth.
- dechrau siarad â thrigolion a pherthnasau ein holl gartrefi gofal preswyl am sut y byddai modd i ni foderneiddio gofal preswyl
- yn ogystal â gwasanaethau Gofal Oriau Dydd.
wedi gweithio gyda Fern Partnership i siarad â thrigolion am yr Hwb Cymunedol newydd yng Nglynrhedynog i weld sut y gallwn ni ddiwallu anghenion trigolion a'r gymuned yn well gyda'n gilydd. Unwaith y bydd yr Hwb ar agor, bydd yn darparu ystod o wasanaethau ar gyfer trigolion gan gynnwys gwasanaeth ymgysylltu â'r gymuned, darpariaeth gofal plant a chymorth cyflogaeth.
- wedi siarad â thrigolion, siopwyr a busnesau yng nghanol trefi Aberdâr a Phontypridd yn rhan o'r ymgyrch i leihau camddefnyddio alcohol ym Mhontypridd ac Aberdâr drwy roi Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus ar waith.
- wedi siarad â phobl ifainc yn y Fforwm Ieuenctid am y ffordd y mae'r Cyngor yn blaenoriaethu sut mae'n gwario ei arian a chyflwyno Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus yng nghanol trefi Aberdâr a Phontypridd. Trafodon ni hefyd gynlluniau Llywodraeth Cymru i roi'r bleidlais i bobl ifainc 16 oed yn rhan o ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad.
- wedi siarad â phobl hŷn yn y Fforwm Pobl Hŷn am faterion a allai eu helpu i fynd allan, er enghraifft, drwy ddarparu toiledau cyhoeddus, gwneud newidiadau i wasanaethau trafnidiaeth yn y gymuned a darparu caffis palmant ym Mhontypridd.
- cynnal trafodaethau rheolaidd gyda grwpiau anabledd a hefyd cynnwys y Fforwm Anabledd mewn trafodaethau ynghylch sut y gallwn ni wella mynediad at wasanaethau a chyfleusterau'r Cyngor. Roedd hyn yn cynnwys ymweliad â Pharc Aberdâr i adolygu ei fynediad i'r anabl, sydd wedi'i ddisgrifio'n fanylach yn yr adran Cydraddoldeb.



Mewn arolwg lleol yn 2018, dywedodd 86.5% o'r trigolion wrthon ni eu bod nhw'n fodlon ar ardal RhCT fel lle i fyw, o'i gymharu ag 84.8% yn 2016.



defnyddio'r wybodaeth y mae trigolion yn ei rhoi i ni er mwyn ymgysylltu â nhw a'u cynnwys yn well

Enghraifft o sut gwnaethon ni hyn yw'r arolwg 'Eich Llais' sef arolwg ar gyfer pobl ifainc 11-25 oed o bob rhan o Riondda Cynon Taf. Rhoeon nhw wybod i ni am y materion oedd yn effeithio arnyn nhw a sut y gallen ni wella sut rydyn ni'n cyfathrebu â nhw a'u cynnwys. Mae canfyddiadau'r arolwg yma yn cael eu dadansoddi ar hyn o bryd a bydd y canlyniadau'n cael eu hystyried yn rhan o'n cynllunio parhaus.



adnewyddu a diweddarau ein Panel y Dinasyddion

ac rydyn ni'n parhau i adolygu'r aelodaeth fel ei bod yn cynrychioli cymunedau Rhondda Cynon Taf yn well.

Yn ogystal â siarad â phobl am wasanaethau'r Cyngor, rydyn ni a'n partneriaid yn gofyn i bobl sut y bydd modd i bartneriaethau weithio'n well gyda'i gilydd, er enghraifft, gweithio gyda Phartneriaeth 'Fern' i ehangu a chynyddu ymgysylltu â'r gymuned yn rhan o bartneriaeth Cwm Taf yn Hwb Cymuned Glynrhedynog.

Rydyn ni hefyd yn gweithio i gefnogi partneriaethau eraill, gan gynnwys Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Thasglu'r Cymoedd, lle rydyn ni'n defnyddio ein gwybodaeth leol i roi negeseuon cyson ac amserol i'n trigolion a'n cymunedau gan ddefnyddio ein sianeli Cyfryngau Cymdeithasol.

Mae ein cynlluniau ar gyfer 2019-20 yn cynnwys...

- parhau i wella sut rydyn ni'n ymgysylltu ac yn cynnwys ein trigolion a'n cymunedau fel eu bod nhw'n gallu rhoi eu syniadau a'u sylwadau am y materion a'r gwasanaethau sy'n effeithio arnyn nhw nawr ac yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys cynyddu'r defnydd o ddeunydd hawdd ei ddarllen a'i wneud yn fwy hygyrch.
- cynnwys trigolion wrth ddatblygu Cynllun Corfforaethol newydd i wella llesiant pobl a chymunedau Rhondda Cynon Taf. Bydd y Cynllun Corfforaethol newydd ar waith ar gyfer 2020-2024. Ar ôl ei gwblhau, bydd yn nodi ein blaenoriaethau tymor hwy ac yn dangos gweithredoedd a mesurau tymor byrrach y gallwn ni eu defnyddio i ddangos ein cynnydd ac a ydyn ni'n mynd i'r cyfeiriad cywir ai peidio.
- parhau i ymgysylltu a chynnwys trigolion a chymunedau mewn materion sy'n effeithio arnyn nhw fel bod eu lleisiau'n cael eu clywed ym mhenderfyniadau'r Cyngor, er enghraifft, Datblygu Hybiau Cymunedol a chynlluniau a fydd yn darparu Gofal Ychwanegol ar gyfer ein trigolion hyn.
- cynyddu cyfranogiad plant a phobl ifainc sydd yng ngofal y Cyngor i wneud yn siŵr y gallan nhw helpu i lunio'r gwasanaethau sy'n effeithio arnyn nhw.
- atgyfnerthu sut rydyn ni'n dadansoddi'r ffyrdd y mae trigolion yn ymgysylltu â ni fel y gallwn ni weld yn glir beth sy'n gweithio orau i wahanol grwpiau cymdeithasol yn y cymunedau.
- parhau i weithio'n rhan o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf i gefnogi amcanion Cynllun Llesiant Cwm Taf, y Bwrdd Diogelu a phartneriaethau eraill.

Sut mae ein gwaith yn cyfrannu at y Saith Nod Llesiant cenedlaethol

Nod Llesiant Cenedlaethol	Adeiladu ECONOMI gref	Hyrwyddo annibyniaeth a bywydau cadarnhaol i bawb POBL	Creu cymdogaethau y mae pobl yn falch o gael byw a gweithio ynddyn nhw LLE
Ffyniannus	- Darparu cyfleoedd i fusnesau ddod i'r amlwg a ffynnu - Adeiladu cartrefi newydd - Creu cyfleoedd ar gyfer swyddi - Darparu ysgolion lle gall plant gyflawni'r gorau y gallan nhw	Cefnogi Plant a Phobl Ifainc drwy roi dechrau gwych iddyn nhw mewn bywyd trwy ein rhaglen Teuluoedd Cydnerth	- Cadw pobl a thraffig i symud ar ffyrdd a phalmentydd sydd wedi'u cynnal a'u cadw'n dda - Datblygu cynlluniau pwysig a fydd o fudd i gymunedau yn awr ac yn y dyfodol
Cydnerth	Hyrwyddo bioamrywiaeth drwy amddiffyn cynefinoedd presennol lle bo hynny'n bosibl a chreu ardaloedd newydd ar gyfer bywyd gwyllt yn ein hysgolion	Lleihau aflonyddu ar safleoedd a gwastraff materol gydag amserlenni adeiladu byrrach drwy ddefnyddio dulliau adeiladu modiwlaid wrth adeiladu ein cyfleusterau Gofal Ychwanegol	- Buddsoddi yn ein Mannau Gwyrdd a'u gwerthfawrogi - Integreiddio bioamrywiaeth i ystadau tai newydd - Ehangu prosiect 'Healthy Hillsides'
Iachach	- Buddsoddi yn ein Canolfannau Hamdden - Rhoi Llwybrau Cerdded yn eu lle ar gyfer trigolion ac ymwelwyr, a llwybrau diogel i'r ysgol ar gyfer plant a phobl ifainc	Helpu pobl i aros cystal ag y gallan nhw cyhyd ag y gallan nhw drwy annog rhagor o weithgaredd trwy fuddsoddi yn ein meysydd chwarae, canolfannau hamdden a chyfleusterau cymunedol mewn ysgolion	- Cynnydd Baner Werdd yn y parciau - Parhau i fynd i'r afael â throedd amgylcheddol - Annog gweithgareddau iach yn ein parciau, er enghraifft, Park Run
Mwy Cyfartal	- Darparu cynhyrchion misglwyf i helpu i fynd i'r afael â thlodi misglwyf ymhlith y merched yn ein hysgolion - Yn darparu cyfleoedd ar gyfer ein holl drigolion i wella'u sgiliau digidol - Rhewi prisiau yn y Canolfannau Hamdden a chodi'r prisiau lleiaf posibl yn y Lido	- Gwneud yn siŵr bod modd i drigolion gyrchu gwasanaethau, waeth beth fo'u cefndir neu'u hamgylchiadau - Creu cyfleoedd i bobl o bob oed i ddod at ei gilydd i ddysgu oddi wrth ei gilydd	- Datblygu Hybiau Cymuned i bawb eu mwynhau ac elwa ohonyn nhw - Gwneud yn siŵr bod modd i'n trigolion o bob oed fwynhau ein parciau a'n mannau gwyrdd
â Chymunedau Cydlynus	- Gwella tai i'n holl drigolion a chreu cymdogaethau dymunol lle gall cymunedau ffynnu - Trefnu digwyddiadau yn y gymuned sy'n dod â phobl ynghyd, er enghraifft, Cegaid o Fwyd Cymru	- Helpu pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain am gyfnod hirach a'u galluogi i gyfrannu at gymunedau a chryfhau perthnasoedd cymdeithasol - Parhau â 'Bwyd a Hwyl' yn ystod gwyliau'r ysgol	Cadw pobl yn ddiogel a'u helpu i deimlo'n ddiogel drwy - hyrwyddo yfed yn synhwyrol - mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol
Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	- Dathlu diwylliant a hanes yr ardal yn ein theatrau a'n parciau - Hyrwyddo RhCT yn gyrchfan i ymwelwyr, gan gynnwys yr Eisteddfod	Darparu rhagor o gyfleoedd ar gyfer ein trigolion i gyfathrebu â'r Cyngor a'i gilydd yn Gymraeg	- Trefnu achlysuron Celfyddydau ar gyfer pob rhan o'r gymuned - annog talent leol
Cyfrifol ar Lefel Fyd-eang	- Rhoi hybiau trafndiaeth ar waith a fydd yn lleihau'r defnydd o geir ac felly'n gwella ansawdd yr aer - Cefnogi Mentrau Masnach Deg	Cefnogi ailsefydlu ffoaduriaid	- Symud ein prosesau ailgylchu ac ailddefnyddio yn eu blaenau - Symud y Parc Eco ym Mryn Pica yn ei flaen - Parhau i ddathlu trigolion sy'n gwneud mwy na'r disgwyl i gadw RhCT yn lân ac yn wyrdd trwy ein gwobrau 'Bro-garwyr tra mad'

